

# Diwylliant a Thlodi

Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru



Adroddiad gydag argymhellion gan y Farwnes Kay Andrews OBE  
ar gyfer Llywodraeth Cymru

Mawrth 2014


# Tabl o'r Cynnwys

---

Tabl o'r Cynnwys	i
Rhagair	1
Cylch Gwaith a Methodoleg	3
Crynodeb o Argymhellion	4
<b>Pennod 1</b> <b>Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
1.1 Cynghrair o Fuddiannau	9
<b>Pennod 2</b> <b>Tlodi ac Eithrio Diwylliannol yng Nghymru Heddiw</b>	<b>12</b>
2.1 Ymrwymadau	13
2.2 Cyfleoedd	15
<b>Pennod 3</b> <b>Ehangu Mynediad a Chwalu Eithrio Cymdeithasol</b>	<b>16</b>
3.1 Chwalu'r Rhwystrau Seicolegol	16
3.2 Chwalu'r Rhwystrau Trafnidiaeth	19
3.3 Cysylltiadau Agosach	20
3.4 Casgliad	23
<b>Pennod 4</b> <b>Gweithio'n Lleol: Mwy o Gyfraniad yn Lleol</b>	<b>25</b>
4.1 Sicrhau Bod Diwylliant yn Rhan o'r Gymuned	27
4.2 Llyfrgelloedd ar Gyfer y Dyfodol	28
4.3 Gwneud Mwy o Ddefnydd o Bartneriaid Diwylliannol Lleol	31
4.4 Mynd â Diwylliant i Galon y Gymuned	31
4.5 Rhannu Gwybodaeth a Sgiliau	33
4.6 Partneriaethau ar Lawr Gwlad	35
4.7 Casgliad	36
<b>Pennod 5</b> <b>Codi Uchelgais a Chodi Safonau: Diwylliant a Dysgu</b>	<b>37</b>
5.1 Y Blynyddoedd Cynnar a Datblygiad Plant: Teuluoedd Heb Sgiliau	38
5.2 Darllen: Blaenoriaeth i Bawb	39
5.3 Cynlluniau Haf a Dysgu y Tu Allan i'r Ysgol	42
5.4 Darpariaeth Ddiwylliannol o Fewn y Cwricwlwm	43
5.5 Ysbrydoli'r Ysgol Gyfan	44
5.6 Casgliad	47

<b>Pennod 6</b>	<b>Pwysigrwydd Lleoliad: Lle am Sgiliau</b>	<b>48</b>
	6.1 Pwysigrwydd Lleoliad: Cynefin a'r Gymuned	49
	6.2 Cymunedau Cynefin: Treftadaeth Unrhyw Le a Phob Lle	51
	6.3 Y Lle ar Gyfer Sgiliau: Diwylliant a Threftadaeth Ynghyd	53
	6.4 Trawsnewid Lleoedd	58
	6.5 Arweinyddiaeth a Blaenoriaethau Lleol	62
<b>Pennod 7</b>	<b>Un Drafodaeth: Gwneud i Bethau Ddigwydd</b>	<b>63</b>
	7.1 Cau'r Bylchau	63
	7.2 Lefel Genedlaethol: Cydweithredu ar mwyn Arloesi	65
<b>Casgliad</b>		<b>70</b>
<b>Atodiad 1</b>	<b>Llyfryddiaeth a Darllen Pellach</b>	<b>72</b>
<b>Atodiad 2</b>	<b>Rhestr o Ymgylgoreion</b>	<b>73</b>
<b>Astudiaethau Achos</b>		
	Canolfan Eifftaidd, Abertawe	18
	Plant y Cymoedd	21
	Bling!	23
	Asiantaeth Ffilm Cymru – Ffilm yn Afan	26
	Only Boys Aloud a Live Music Now	27
	Gwasanaethau Llyfrgell Caerffili	29
	Llyfrgelloedd Sir Ddinbych: Llythrennedd wrth wraidd addysg a'r Gymuned	40
	Cyrraedd y Nod	45
	Cadw yng Nghaernarfon: Etifeddiaeth ar waith sy'n	
	Canolbwyntio ar y Gymuned	51
	Cartrefi RCT a Magu Menter Cymru (Grow Enterprise Wales (GrEW))	54
	CLOCH	56
	Hen Neuadd y Dref Merthyr a 'Memo' Trecelyn	60

Ym mis Gorffennaf 2013, fe'm gwahoddwyd i a chyrrff diwylliant a threftadaeth ledled Cymru gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i weld sut y gallem gyfrannu'n fwy effeithiol i leihau tlodi a chodi uchelgais. Roedd hon yn drafodaeth am y cysylltiad rhwng cael mynediad i ddiwylliant ac anghyfiawnder cymdeithasol, ac a ehangodd, yn naturiol, i gynnwys nifer o wahanol bobl ac asiantaethau sy'n weithgar ar reng flaen yr ymgyrch i drechu tlodi yng Nghymru.



Yn bwysicaf oll, roedd hwn yn gwestiwn nad oedd wedi ei ofyn ar y ffurf yma mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Gwelais y cyfle felly i ddod o hyd i rai atebion i'r cwestiwn anodd hwn, nid yn unig fel her, ond hefyd fel anrhydedd. Cefais fy magu yn Nhredegar, fy addysgu yn Ysgol Lewis, Hengoed, a Phrifysgol Cymru, Aberystwyth, ac, o ganlyniad, ar hyd fy mywyd, rwyf wedi fy mwydo a'm hysgogi gan gariad at iaith, cerddoriaeth, celf a hanes. Roedd hynny wedi ei sefydlu'n gynnar yn fy mywyd gan gymuned a oedd yn gwybod yn reddfol werth diwylliant fel ffordd o fyw.

Mae llawer wedi newid, ond yng Nghymru mae diwylliant a threftadaeth yn parhau i fod yn hynod bwysig yn ein bywyd cenedlaethol. Bellach mae Llywodraeth Cymru wedi cymeryd y cam nesaf. Drwy gydnabod mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, a chyfranu ato, fel agwedd ar gyfiawnder cymdeithasol ynddo ei hun, ac fel arf pwerus yn erbyn tlodi – pob math o dlodi, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn glir ei bod yn deall swyddogaeth diwylliant i'n gwneud ni y math o bobl yr ydy ni a'r math o bobl rydyn ni'n dymuno bod.

Yn fyr, mae'r swyddogaeth honno nid yn unig yn diffinio ein lle yn y gymuned, ond hefyd yn golygu agor y drysau i fywydau cyfoethocach a gwaith sy'n ein bodloni fwy. I wlad fel Cymru sydd wedi newid mor gyflym, ac yn ddiweddar, sydd â'i chymunedau a'i sgiliau wedi'u chwalu, mae edrych ar ein diwylliant a'n treftadaeth fel ffynhonnell pŵer ar gyfer y dyfodol mor bwysig â'r hyder a ddaw o wybod pwy ydym ac o ble rydyn ni wedi dod.

Mewn gwlad a greodd gyfoeth y byd, dylai diwylliant fod yn adnodd di-hysbydd – ond mae angen gofalu amdano o hyd. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chynulleidfaoedd cymaint â'r artistiaid, yr ysgrifennwyr, a chrëwyr y dyfodol. Rwyf wedi cael cadarnhad o hyn gan yr ysbrydoliaeth gwirioneddol rwyf wedi'i weld yng ngwaith yr asiantaethau cenedlaethol a chymunedau lleol ledled Cymru. Mae egni a dealltwriaeth ledled Cymru ynghylch sut y gallwn wneud mwy o'n treftadaeth a'n cyfalaf dynol.

Ni fu'n bosib imi ddyfynnu pawb, a phob astudiaeth achos, neu enghraifft. Byddai'r enghreifftiau hynny yn llenwi llawer o astudiaethau mawr ar arfer teilwng. Ond hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i siarad, i'm tywys o amgylch amgueddfeydd, llyfrgelloedd, henebion, prosiectau newydd a chanolfannau fel Pontio a Choleg Cerdd a

Drama Cymru, a chanolfannau cymunedol sydd wedi hen sefydlu ac sy'n annwyl o fewn y gymuned, fel 'Memo' Trecelyn. Mae'n rhaid hefyd ddiolch i'r bobl ifanc a baratodd ginio blasus imi yn Grow Enterprise Wales, ac i bawb – ymhob man – am y teisennau cri.

Hoffwn ddiolch i bawb a fynychodd y 'seminarau' byrfyfyr a ddaeth â phobl o wahanol gymunedau a sefydliadau diwylliannol at ei gilydd i rannu syniadau a phrofiadau – ac a wnaeth i bob un ohonom sylweddoli bod gwaith y gellid yn wir ei wneud gyda'n gilydd. A hoffwn ddiolch i'r rhai hynny sy'n llunio'r polisiau ac a wrandawodd yn astud, a chynnig eu mewnbwn creadigol eu hunain.

Ac yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i Tom Cosson, gan fod ei effeithiolrwydd a'i egni ef, yn ogystal â'i grebwyll, wedi bod yn gyfraniad gwych i'r adroddiad hwn, a Marie Knox am ei gwybodaeth o bolisiau a rhwydweithiau diwylliannol. Maent wedi bod yn gymorth gwerthfawr.



Y Farwnes Kay Andrews OBE

# Cylch Gwaith a Methodoleg

---

**Cylch gwaith** yr adroddiad hwn oedd

*“argymell ffyrdd y gall cyrff diwylliannol a threftadaeth gydweithio'n agosach i ehangu'r mynediad i ddiwylliant, y gwerthfawrogiad ohono a'r cyfranogi ynddo mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at leihau tlodi.”*

Nid dim ond y celfyddydau y mae diwylliant yn ei olygu yn y cyd-destun hwn, ond mae hefyd yn cynnwys treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys cyfraniad amgueddfeydd, llyfrgelloedd a'r cyfryngau. Yn yr adroddiad, defnyddir 'diwylliant' pan fyddwn yn cyfeirio at bob un o'r gwasanaethau diwylliannol hyn; fel arall, byddwn yn cyfeirio at y sector penodol, er enghraifft amgueddfeydd, yr amgylchedd hanesyddol, neu lyfrgelloedd, ar wahân.

Comisiynodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yr adolygiad gan ymgynghori gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, y Gweinidog Tai ac Adfywio a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Dechreuwyd ar yr adolygiad hwn ym mis Awst 2013 gyda gofyniad i gyflwyno'r adroddiad i Weinidogion ym mis Ionawr 2014. Mae'n ategu'r *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru*, o dan arweiniad yr Athro Dai Smith, a gyflwynwyd yn yr hydref 2013.

Cydnabuwyd y byddai'r adroddiad nid yn unig yn ystyried asedau a pholisïau diwylliannol presennol Cymru, ond hefyd y cyfleoedd sy'n codi o ddatblygiadau sydd wedi'u cynllunio ac yn fwy cyffredinol gan y chwyldro parhaus yn y cyfryngau digidol. Wrth fynd i'r afael â'r cylch gwaith, bydd angen ystyried nid yn unig ddimensiwn economaidd-gymdeithasol tlodi ond hefyd faterion cydraddoldeb.

Gyda chymorth gan swyddogion adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru, cytunwyd ar **fethodoleg** a oedd yn cynnwys ymarfer ymgynghori eang. Roedd hwn yn holi barn ac yn casglu syniadau ystod eang o randdeiliaid – o Weinidogion ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, i Gyfarwyddwyr y sefydliadau diwylliannol mawr, sefydliadau celfyddydau, treftadaeth a diwylliannol lleol, grwpiau ambarél sy'n cynrychioli cyrff diwylliannol, cymunedol a'r trydydd sector, darparwyr gwasanaethau megis cymdeithasau tai, y sector addysg ei hun, a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. I ategu hyn, cynhaliwyd ymchwil ddesg helaeth hefyd. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu ar y gwaith ymchwil a wnaethpwyd ar gyfer adroddiad yr Athro Dai Smith.

I grynhoi:

- Derbynydd 38 o ymatebion ysgrifenedig gan gyrff allanol;
- Mae dros 130 o unigolion wedi cwrdd â Kay a swyddogion mewn cyfarfodydd a seminarau bach strwythuredig, gan gynnwys dwy seminar rhwng Cymunedau yn Gyntaf a chyrff diwylliannol yn Abertawe; ac
- Ymwelwyd â safleoedd ymarferwyr eithriadol nifer o weithiau, gan gynnwys amgueddfeydd, cyrff celfyddydol, llyfrgelloedd a lleoliadau Cymunedau yn Gyntaf.

Roedd y pwyslais yn ystod y cam casglu tystiolaeth ar ddeall arfer da presennol a nodi'r camau ymarferol a fyddai'n galluogi cydweithio mwy effeithiol ac ehangu cyfleoedd i blant, oedolion a chymunedau gael mynediad i fanteision ein treftadaeth ddiwylliannol i gyfoethogi eu bywydau, eu rhagolygon a'u cymunedau.

# Crynodeb o'r Argymhellion

Mae'r argymhellion hyn wedi'u trefnu yn ôl teitl y bennod. Maent yn herio sefydliadau sy'n gysylltiedig â diwylliant a threftadaeth, ac sy'n gyfrifol amdanynt, o'r pen uchaf – Llywodraeth Cymru, sefydliadau lleol a sefydliadau diwylliannol – i'r cyrff sy'n cynllunio ac yn darparu polisiau yn lleol, i gytuno ar wahanol elfennau'r rhaglen newid ac i'w sbarduno. Maent yn pwysleisio ar integreiddio polisiau, gwybodaeth, asedau a gwasanaethau. Maent yn cael eu cefnogi yn y testun gan awgrymiadau cyd-destunol eraill y gellir eu dilyn hefyd er mwyn cael mwy o effaith.

Hefyd rwyf wedi ceisio bod yn glir ym mhob achos pwy ddylai fod yn gyfrifol am wneud beth i sicrhau bod y rhaglen newid hon yn gweithio; ble y mae camau unigol yn briodol, a ble y mae angen gweithredu ar y cyd.

## Ehangu Mynediad a Chwalu Eithrio Cymdeithasol – Chwalu rhwystrau corfforol a seicolegol i'n sefydliadau

- 1 Cyrff diwylliannol i sefydlu dulliau o **wneud eu sefydliadau eu hunain yn fwy cyfeillgar i'r gymuned ac i blant** drwy fentrau fel y model *'Diwrnod Meddiannu'*, a ddechreuwyd gan *Kids in Museums*.
- 2 Llywodraeth Cymru i sefydlu **Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gael atebion i rwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth** wrth i bobl o ardaloedd difreintiedig ymweld â safleoedd a mynychu digwyddiadau diwylliannol.

## Gweithio'n Lleol: Mwy o Gyfraniad yn Lleol – Sicrhau bod diwylliant yn rhan o gymunedau a chynyddu effaith y rhaglenni allgymorth

- 3 Llywodraeth Cymru, drwy CyMAL, i **barhau i gefnogi llyfrgelloedd cyhoeddus i'w trawsnewid yn ganolfannau diwylliannol cymunedol**, gan gynnwys rhannu safleoedd gyda gwasanaethau cymunedol eraill ble y bo'n briodol, ac **edrych ar y posibilrwydd o ehangu'r dull hwn o weithio i sectorau** eraill fel amgueddfeydd lleol.
- 4 Llywodraeth Cymru i herio'r sector diwylliant, trwy gyfarwyddyd strategol a chyllidol a chymorth arall, i ehangu ymdrechion **i wneud eu sefydliadau yn ganolfannau cymunedol ac i ehangu mynediad i bawb**.
- 5 Sefydliadau diwylliannol i **'weithio'n lleol' a 'bod yn sefydlog'** drwy roi mwy o flaenoriaeth i brosiectau ar y cyd mewn cymunedau lleol a rhannu lleoliadau ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau.
- 6 **Arweinwyr Dysgu Cymunedau yn Gyntaf i'w nodi fel pwyntiau cyswllt**, a'r wybodaeth hon i gael ei dosbarthu'n glir, i ysgolion a sefydliadau diwylliannol sy'n ceisio datblygu rhaglenni ar y cyd â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.
- 7 **Cyfnewidiadau/lleoliadau tymor byr** i gael eu hannog rhwng staff Cymunedau yn Gyntaf a staff o sefydliadau diwylliannol.
- 8 Llywodraeth Cymru a sefydliadau diwylliannol i ddatblygu **pecyn o ddeunyddiau dysgu**, gyda chymorth rhaglenni hyfforddi penodedig, ar gyfer trefnwyr cymunedol, i'w cynorthwyo i ymwneud â diwylliant **ac i'w darparu drwy un porthol**.

- 9 Llywodraeth Cymru i gymell ac annog **awdurdodau lleol i edrych ar y posibiladau o gael cymorth ar draws ffiniau ac i rannu gwasanaethau**, er enghraifft amgueddfeydd, llyfrgelloedd, y celfyddydau ac archifau i ategu'r pwyslais cynyddol ar waith cymunedol ac addysgol.
- 10 **Datblygu rhwydweithiau cymunedol a diwylliannol**, gan gysylltu sefydliadau cymunedol a diwylliannol ar lefel leol, i rannu gwybodaeth ac adnoddau a chynllunio mentrau ar y cyd i fynd i'r afael â'r diffyg diwylliannol o fewn cymunedau.
- 11 Llywodraeth Cymru i egluro a chyfathrebu sut y mae defnyddio ffrydiau ariannu cymunedol ac amddifadedd disgyblion yn y ffordd orau er mwyn cyfoethogi diwylliannol, ac edrych ar y **posibilrwydd o sicrhau cyllid Cymunedau yn Gyntaf a Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi y broses o ddatblygu** rhaglenni penodol o weithgarwch sy'n cysylltu cymunedau ac ysgolion.

**Codi Uchelgais a Chodi Safonau: Diwylliant a Dysgu** – Mesurau i ddefnyddio diwylliant i helpu i gau y bwlch cyrhaeddiad

- 12 Llywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o **ymestyn a sefydlu gweithgareddau ar gyfer cyfoethogi diwylliannol i gefnogi deilliannau dysgu ar draws rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf**.
- 13 Llywodraeth Cymru i barhau â'i hymrwymiad i roi **aelodaeth i'r llyfrgell i bob plentyn** ledled Cymru.
- 14 Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y ffordd orau **o gydgrynhoi a datblygu mentrau llythrennedd presennol i blant ac oedolion** ledled Cymru, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, a sut i fanteisio ar gysylltiadau â sefydliadau diwylliannol i sbarduno a chyfoethogi'r rhaglenni hynny.
- 15 Estyn i **gadarnhau cynnwys gweithgarwch diwylliannol o fewn a thu allan i'r ysgol a thymor yr ysgol**, edrych ar arferion da, ac am ffyrdd positif o annog a galluogi ysgolion i gydweithio mwy gyda sefydliadau diwylliannol.
- 16 Llywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o sefydlu diwylliant yn fwy effeithiol o fewn **rhaglenni a strategaethau y tu allan i'r ysgol**
- 17 Llywodraeth Cymru i sefydlu dull o sicrhau bod **mwy o weithgareddau diwylliannol/treftadaeth o fewn CA3** i fynd i'r afael ag ymddieithrio, a chynnwys partneriaid diwylliannol wrth gynllunio a darparu'r cwricwlwm.
- 18 Llywodraeth Cymru i ddatblygu **cyfleoedd ar gyfer dinasyddiaeth ddiwylliannol fel rhan o raglen gyfoethogi Bagloriaeth Cymru**
- 19 Cyngor Celfyddydau Cymru i **edrych eto ar raglen cyfranogi yn y celfyddydau 'Cyrraedd y Nod'** i gynnig gweithgareddau diwylliannol y gall pobl ifanc 9-13 oed sydd mewn perygl o fynd yn NEET gymeryd rhan ynddynt.
- 20 Llywodraeth Cymru, consortia addysg, cyrff hyfforddi priodol a sefydliadau diwylliannol i **ddatblygu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus** wedi'i thargedu at alluogi athrawon dan hyfforddiant, athrawon a chynorthwyrwyr addysgu, i gael mynediad llawn i'r effaith addysgol a gaiff profiadau a gweithgareddau diwylliannol ar gwricwlwm yr ysgol, yn enwedig o ran llythrennedd, i ysgogi a chreu llwyddiant.
- 21 Llywodraeth Cymru a sefydliadau diwylliannol i gydweithio i **gydgrynhoi ac ail-ffocysu deunyddiau dysgu** i sicrhau bod cysylltiadau rhwng llythrennedd, rhifedd a dysgu ehangach yn glir, ac i sicrhau eu bod ar gael drwy un porthol wedi'i gysylltu â'r Hwb.



22 Llywodraeth Cymru i gydweithio â sefydliadau diwylliannol i gynnal rhaglenni peilot ar gyfer **clystyrau Cynefin**, wedi'i fodelu ar y fenter Heritage Schools yn Lloegr, fydd yn gosod treftadaeth leol yn ganolbwynt y cwricwlwm.

**Pwysigrwydd Lleoliad: Lle am Sgiliau** – Defnyddio diwylliant i sbarduno adfywiad a gwella sgiliau

23 Sector yr Amgylchedd Hanesyddol i **adeiladu ar egwyddorion y Fframwaith Archaeoleg Cymunedol** a ddatblygwyd gan Cadw, gan dynnu ar asedau diwylliannol a hanesyddol eraill mewn cymunedau lleol megis amgueddfeydd ac archifau lleol, i sefydlu'r egwyddor Cynefin i'r gymuned yn ehangach.

24 Sefydliadau diwylliannol i gynnal **'archwiliad sgiliau'** a'i dosbarthu i grwpiau cymunedol i ddangos y sgiliau ymarferol y gellir eu magu drwy gymeryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

25 Llywodraeth Cymru, sefydliadau diwylliannol a'r sector gwirfoddol i edrych ar y posibilrwydd am **strategaeth wirfoddoli ddiwylliannol genedlaethol** ac, gyda chynghorau sgiliau sector a chyrrff eraill, ddatblygu **dull cenedlaethol mwy proactif a chydlynol o fynd i'r afael â phrentisiaethau diwylliannol** i gael effaith ar strategaethau cenedlaethol i leihau diweithdra.

26 Llywodraeth Cymru i edrych ar gyfleoedd i ddatblygu ymhellach y broses o weithio mewn partneriaeth o dan arweiniad Cymunedau 2.0 i **gynyddu nifer y sesiynau hyfforddi TGCh sy'n cael eu darparu mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a lleoliadau cymunedol** ledled Cymru.

27 Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog a chyrrff adfywio eraill yng Nghymru i **nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y cyd gan ganolbwyntio ar swyddogaeth bosibl adeiladau hanesyddol** wrth ddatblygu ac adfywio ardaloedd lleol, a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer sgiliau a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion.

**Un Drafodaeth:** Strategaethau allweddol ar gyfer Cymru gyfan yn gysylltiedig â'r 'seilwaith' diwylliannol i ganolbwyntio ar gysylltu mwy â thlodi ac i yrru'r ymdrech honno

28 Llywodraeth Cymru i **egluo a hyrwyddo rôl diwylliant wrth gefnogi ystod eang o amcanion polisi** i yrru cysylltiadau ystyriol ar gyfer polisiâu ar lefel genedlaethol a lefel yr awdurdod lleol.

29 Llywodraeth Cymru i sefydlu **Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol a Chymdeithasol** strategol o adrannau strategol cenedlaethol a sefydliadau diwylliannol, i gysylltu polisiâu diwylliannol â pholisiâu llywodraeth a sbarduno'r broses o weithredu'r adroddiad hwn.

30 Cyrff cyllido i sefydlu **rhwydwaith gwybodaeth** i nodi blaenoriaethau strategol cyffredin a hwyluso'r arfer o **gyllido rhaglenni yn fwy strategol** i annog cydweithio.

31 Sefydliadau diwylliannol i sefydlu **rhwydwaith dysgu** i hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth ac arfer da yn gysylltiedig â mynediad a chyfranogi.

32 Sefydliadau diwylliannol, drwy weithio gyda'r sector Addysg Uwch a phartneriaid eraill, i **gydgrynhoi a rhannu ymchwil a gwybodaeth bresennol**, a nodi bylchau ar gyfer ymchwil pellach, yn gysylltiedig â demograffeg, mynediad, cyfranogi ac effaith cyfranogi.

33 Llywodraeth Cymru, CLILC a sefydliadau diwylliannol i ddatblygu **Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyson ar gyfer y sector celfyddydau, diwylliant a threftadaeth** sy'n cymhell yr ymdrechion i wella lles drwy gydweithio â phobl ar brosiectau diwylliannol yn y gymuned.

## Cyflwyniad

---

Mae Cymru yn wlad fechan, yn wlad llawn doniau. Mae'n wlad ddoeth, gyda threftadaeth anhygoel – o'r maen hir sydd ar y gorwel, i'r atgofion diwydiannol sydd mor amlwg ym Mlaenafon, neu chwareli llechi y Gogledd. Mae'n wlad sy'n fyd-enwog am ei cherddoriaeth a'i barddoniaeth, am ei thraddodiad llenyddol unigryw ac am y storïau sy'n cael eu hadrodd yn ei thiroedd a'i threfluniau gwledig a diwydiannol, ei harfordiroedd, ei gororau, ei chestyll, ei habatai a'i thai gwych. Mae gan y Gymraeg ddau air am dreftadaeth – **Treftadaeth** ac **Etifeddiaeth**; gan adlewyrchu'r ffaith ein bod i gyd, pob un ohonom yn berchen ar ein hanes.

---

Mae gan Gymru hefyd draddodiad dinesig unigryw sy'n fyw ac yn iach yn ystod y cam newydd hwn o adeiladu cenedl: llyfrgell genedlaethol, amgueddfa a chwmni opera, dwy theatr genedlaethol ac Eisteddfodau. Mae pob un ohnynt, yn eu tro, wedi eu hadeiladu ar gyfer ac o amgylch pobl Cymru, eu hanes a'u huchelgais. Mae Cymru yn cael ei hadnabod fel gwlad sydd â naws am gymuned a lle; ac mae digonedd o greadigrwydd i'w gael yma.

Led-led Cymru heddiw, cyn belled ag y gwelwch, mewn cwmnïau dawn, opera, ffilm, theatrau a chanolfannau celfyddydol, mae bywiogrwydd yr artistiaid o Gymru, yn perfformio yn ein dwy iaith genedlaethol, yn amlwg iawn ar draws pob disgyblaeth. Mewn nifer o brosiectau a rhaglenni arloesol, mae'r artistiaid hynny yn teithio ledled Cymru i ysbrydoli miloedd o bobl ifanc greadigol. Mae'r hyder hwnnw hefyd yn amwlg yn y bywyd artistig a llenyddol sy'n atseinio drwy'r adeiladau a'r lleoliadau hanesyddol, ein traddodiad o Eisteddfodau a gwyliau, ac yn y cwmnïau celfyddydol a sefydliadau diwylliannol sy'n gweithio'n rheolaidd gyda chymunedau ledled Cymru. Brand Cymru ledled y byd yw ein diwylliant – boed yn gerddoriaeth, iaith, ein treftadaeth weledol – ac, yng Nghymru, mae'r rhain yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd.

Beth mwy allai Gymru fod ei heisiau o'r ddarpariaeth gyfoethog hon? Yr ateb yw, yn



© Llywodraeth Cymru – Croeso Cymru

nhermau cyfiawnder cymdeithasol – y gall bawb yng Nghymru a phob cymuned gael mynediad cyfartal a buddiol i'r hyn y gall ein celfyddydau, ein diwylliant a'n treftadaeth ei gynnig – a llawer mwy. Er bod pethau gwych yn digwydd o ran darparu diwylliant, mae'n wasgaredig ac yn brin mewn manau ac mae'n bosibl bod nifer o bobl mewn ardaloedd difreintiedig yn parhau i deimlo eu bod wedi eu difreinio o'u hetifeddiaeth ddiwylliannol. Mae artistiaid creadigol a chydwybodol, arbenigwyr treftadaeth, trefnwyr cymunedol, a llunwyr polisïau yn cyd-drafod ac yn darparu mewn grwpiau

bychain a manau penodol, ond nid oes un drafodaeth neu ddull o ddod â'r drafodaeth honno, y creadigrwydd a'r penderfyniad hwnnw at ei gilydd ledled Cymru er budd cyfartal i bawb yng Nghymru, ac yn enwedig i'r rhai hynny sy'n byw mewn manau ble y mae'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn ymddangos yn bell iawn o 'fywyd bob dydd' ac sy'n colli'r cyfoeth a'r sgiliau bywyd a ddaw gyda hwy.

Mae hyn yn mynd i galon yr adroddiad hwn, a'r rheswm y cafodd ei gomisiynu. Mae chwarter poblogaeth Cymru yn byw mewn amgylchiadau sydd mor ddifreintiedig fel eu bod ymysg y gwaethaf ym Mhrydain; mae diweithdra cyson, o genhedlaeth i genhedlaeth, lefelau uchel o salwch cronig, cyflogau isel a diffyg sgiliau, pob un ohonynt, wedi gwaethygu'r eithrio cymdeithasol a diwylliannol. Y drasiedi yw bod y cymunedau hyn nid yn unig yn colli cyfle yn economaidd; mae eithrio economaidd a chymdeithasol yn golygu eithrio diwylliannol hefyd. Mae'r pethau sy'n cyfoethogi ein bywydau ac sy'n dod â chymaint o bleser inni – boed yn ymweliad â'r theatr, y sinema, neu oriel yn parhau i fod y tu hwnt i nifer o bobl. Yn yr un ffordd ag y gwelwn bod 'Deddf Gofal Gwrthgyfartal' yn penderfynu bod y rhai hynny sy'n byw yn yr ardaloedd sydd wedi'u heithrio fwyaf yn gymdeithasol hefyd yn cael eu heithrio o'r gofal iechyd gorau, felly mae 'Deddf Ddiwylliannol Wrthgyfartal' sydd â'r un dylanwad nychus ar fynediad i ddiwylliant.

Ond mae methu â chyfranogi yn golygu canlyniadau i'r economi yn ogystal â'r unigolyn, yn enwedig yng nghyd-destun y diwydiannau creadigol a chyfathrebu fel pwerdai mawr economi'r dyfodol. Nid yw'n gysylltiedig â chyfoethogi bywydau yn unig; ond drwy beidio â chael cysylltiad â'r hyn y gall gwybodaeth a gweithgarwch gelfyddydol ei gynnig, mae pobl a chymunedau yn cael colled, o ran hawliau, swyddi a dinasyddiaeth. Mae Cymru yn

colli cyfalaf cymdeithasol ac ni all fforddio gwneud hynny.

Y bwlch hwn y mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o fynd i'r afael ag ef. Mae wedi ymateb drwy herio pob Gweinidog ym mhob adran i ddod yn rhan o'r ateb i dlodi yng Nghymru. Yn fyr, drwy fynnu bod rhwystro tlodi, ei liniaru, a, dros amser, roi terfyn ar dlodi, a chael Cymru i symud i economi sgiliau uchel, cyflogau uchel, yn fater i bawb, yn rhoi arf bwerus iawn i sefydliadau diwylliannol brofi pa mor iawn yw hynny.

Mae hwn yn ateb i'r gŵyn gyffredin bod diwylliant fel arfer ar wahân i weddill llywodraeth. Mae'n cael ei ystyried fel rhywbeth ychwanegol, pan ei fod yn amlwg yn cyfrannu at ddyfodol iechyd, lles, gwaith a'r amgylchedd. Mae canfod ffyrdd o gael y mwyaf o'n hasedau diwylliannol a threftadaethol, fel rhan o economi greadigol a chystadleuol ac o gymuned gadarn, yn broblem i wledydd eraill hefyd. Ond dim ond yng Nghymru, hyd y gwn, y mae unrhyw lywodraeth wedi gwneud y cwestiwn hwn yn ganolog i'r her o ddod o hyd i lwybr ehangach at gyfiawnder cymdeithasol i bawb. Er mwyn dangos y pwynt hwn, mae'n werth nodi bod yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau adroddiad pwerus diweddar gan Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau sy'n dadlau bod angen economi wleidyddol newydd ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau sydd o'r diwedd yn grymuso diwylliant, drwy 'bartneriaethau mawr' i ddarparu canlyniadau economaidd mwy, diwylliant dinesig cryfach, a manau gwell i fyw ynddynt (RSA, 2013). Mae'n galw am fwy o eglurder a bwriad yn gysylltiedig â'r 'effeithiau' diwylliannol, addysgol, personol, cymdeithasol ac economaidd sy'n dilyn o fuddsoddi mewn asedau creadigol ac economi greadigol. Mae hyn yn cael ei groesawu'n fawr fel ffordd o gadarnhau neges yr adolygiad hwn, ond nid yw adroddiad yr RSA yn llwyddo i gysylltu hyn â chyfiawnder cymdeithasol.

Mae'n annog y celfyddydau i fod yn fwy doeth ac i wneud achos mwy perthnasol a bod yn barod i newid ei ffyrdd o weithio; ac ail-greu'r bartneriaeth rhwng ysgolion, sefydliadau diwylliannol, a'r gymuned. Ond nid yw'n cynnig cynllun ar gyfer gwneud hynny.

A'i roi yn blaen, drwy wneud y cysylltiadau ehangach hynny a mynnu cael rhai atebion, mae Cymru ar y blaen. Mae'r cwestiynau sy'n cael eu holi gan adroddiad yr RSA eisoes yn cael eu hateb yn rhannol gan ymarferwyr a llunwyr polisi, ac maent, i raddau, yn cael eu holi eto gan yr ymchwiliad hwn. Yn wir, drwy gomisiynu'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn mewn ffordd am raglen ar gyfer newid a fydd yn grymuso cynghrair o fuddiannau ar draws bywyd diwylliannol Cymru, gan dynnu ynghyd nid dim ond y sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, ond hefyd y gymuned greadigol leol sy'n gweithio drwy ddiwylliant i ddod â newid ar lawr gwlad, i'r sector gwirfoddol, a phawb a fu mor frwdfrydig ynghylch bod yn rhan o hyn.

Mae achos economaidd y celfyddydau wedi'i ddogfennu mewn nifer o adroddiadau diweddar, gan gynnwys adroddiad yr RSA, sy'n dangos bod gwerth diwylliant yn cael ei danbriso – fel yn wir werth 'twristiaeth treftadaeth'. Mae'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ymysg ffynonellau gorau Cymru o gyfoeth a chyflogaeth. Mae treftadaeth yn denu nifer o dwristiaid gyda 58% ohonynt yn ymwelwyr sy'n aros dros nos a 59% ohonynt yn ymwelwyr dydd o'r DU a 38% ohonynt yn ymwelwyr o dramor, sy'n dweud mai eu rheswm dros ymweld â Chymru oedd "ymweld â llefydd / safleoedd hanesyddol/atyniadau penodol (*Croeso Cymru, 2013*)". Aeth 2.4 miliwn o bobl i ymweld â safleoedd Cadw yn 2012-13, 1.65 miliwn i un o saith o safleoedd Amgueddfa Cymru yn yr un flwyddyn, ac oddeutu 1.5 miliwn i amgueddfa leol yn 2011. Ar y cyfan, amcangyfrifiwyd bod twristiaeth treftadaeth

yng Nghymru yn cynnal 10,337 o swyddi FTE a £217.4 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth neu GYC (Ecotec, 2013).

Felly hefyd, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi dangos effaith economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol buddsoddi mewn treftadaeth (Cronfa Dreftadaeth y Loteri, 2010)

Ond gwir gyfoeth economaidd gwlad yw ei phobl. Mae ystyried effaith economaidd tymor byr diwylliant a threftadaeth, ond nid manteision economaidd a chymdeithasol hirdymor y swyddogaeth y mae yn ei chwarae wrth gyfoethogi bywydau pobl ac ysgogi eu hawydd i ddysgu ac am addysg, yn annigonol ac yn annerbyniol.

Mae gwledydd doeth yn defnyddio eu hadnoddau. A'u holl ddoniau. Felly mae'n rhaid i Gymru wneud hynny hefyd. Wrth wneud hynny, bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r rhan hwnnw o'r her o ddod o hyd i artistiaid, arbenigwyr a dinasyddion gweithredol y dyfodol, a chynnal diwylliant sy'n hollbwysig ac sy'n ysbrydoli.

Yr hyn sydd wedi bod yn drawiadol yw y brwdfrydedd positif bod angen newid, a'r croeso i'r adolygiad hwn fel un amserol a pherthnasol. Daw yn erbyn cefndir yr adroddiad arloesol gan yr Athro Dai Smith, y cyntaf i edrych yn fanwl ar y berthynas rhwng sector y celfyddydau ac addysg yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn achos llawn cymhelliant ar gyfer y swyddogaeth ganolog y gall y celfyddydau ei chwarae, ac y dylent ei chwarae i wella cyrhaeddiad addysgol, gan wneud 12 o argymhellion wedi'u hanelu at integreiddio'r celfyddydau a chreadigrwydd o fewn addysg yn fwy effeithiol. Y cwestiwn arholiad a osodwyd ar fy nghyfer – *'nodi ffyrdd y gallai diwylliant a threftadaeth, drwy gydweithio, wneud gwahaniaeth mwy positif a phwerus i fywydau pobl sy'n byw mewn tldi'* – sy'n ategu pwrpas yr adroddiad hwnnw.

## 1.1 Cynghrai o Fuddiannau

Mae'r ddadl a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu llawer o'r hyn yr wyf i wedi ei glywed y mae pobl ei angen, ar frys, ac a fydd yn gweithio. Fel y mae'r adroddiad yn ei wneud yn hollol glir, nid oes angen newid rhywbeth sy'n gweithio'n dda – ond mae angen arweiniad a pholisi cydlynol, er mwyn i bartneriaethau wneud y gorau o ffyrdd o ddefnyddio cyllid ar gyfnod pan y mae adnoddau'n brin; a chreu partneriaethau ymarferol ac effeithiol i ddod ag ysgolion, asiantaethau cymunedol yn ogystal â sefydliadau diwylliannol at ei gilydd – i adeiladu ar yr hyn y mae yr Athro Smith eisoes wedi gwneud diagnosis ohono fel bwlch mewn capasiti.

Mae yr effaith a gaiff ymwneud â'r celfyddydau o ran dysgu, sgiliau meddal a chaled, dewis o ran gyrfaoedd, a'r dewisiadau mewn bywyd eisoes wedi'u dogfennu'n dda. Fel rhan o'i adolygiad, nododd yr Athro Smith dystiolaeth ymchwil gref i gefnogi hyn: *gwelodd nifer o astudiaethau bod cyfraniad y celfyddydau wedi helpu i hyrwyddo llwyddiant academaidd y bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.* Mae gwaith ymchwil yn dangos y gall hyn fod yn rhan o broses o newid a allai hefyd gynnwys elfennau pwysig eraill fel amgylchedd y cartref a'r ysgol sy'n gwerthfawrogi'r celfyddydau, yn ogystal ag athrawon ac unigolion sy'n gallu ysgogi ac ysbrydoli.

*'gwelodd nifer o astudiaethau bod cyfraniad y celfyddydau wedi helpu i hyrwyddo llwyddiant academaidd y bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.'*

~ Yr Athro Dai Smith

Mae'r honiad bod diwylliant a threftadaeth yn ehangach yn creu yr un effaith hefyd yn un cryf. Yr hyn sydd ei angen yw sicrhau y gall mwy o bobl gael mynediad i'r gorau o'r hyn sydd eisoes ar gael, ac i weithio allan sut y gellir ei ddsbarthu'n decach,

cael mynediad iddo'n haws, ei ddeall yn well, ac felly, ei gyllido'n strategol. Ond yr her mwyaf un yw sut i sicrhau ei fod yn cael yr effaith mwyaf ar ddysgu ac ar fywydau a rhagolygon pobl drwy ehangu gorwelion ac uchelgeisiau, a gwella sgiliau a safonau cenedlaethol mewn llythrennedd, rhifedd, sgiliau TGCh, cyfathrebu a sgiliau personol. O'r rhain, mae'r gallu i ddarllen a chyfathrebu'n rhugl, a chyda hyder, boed fel plentyn neu oedolyn, yn agor y drws i bopeth arall. Gall dod o hyd i ffyrdd o arwain plant ac oedolion i ddod yn ddarllenwyr hyderus, ac weithiau i wneud hyn 'yn ddistaw bach' helpu ysgolion i gau'r bwlch cyrhaeddiad, ac i oedolion gael mynediad i hyfforddiant a gwaith pellach. Mae'r adroddiad hwn yn ailadrodd drwyddo draw y ffyrdd y gellid gwneud hyn yn effeithiol.

Ar y lefel uchaf mae angen i'r rhaglen ar gyfer newid sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn gael ei hegluro a'i gyrru gan argyhoeddiad gwleidyddol ac arweiniad clir, a drwyddi draw, gyda chymelliannau ymarferol ar gyfer datblygu drwy bartneriaeth. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud rhai awgrymiadau o ran sut y gellid cael mwy o gydlyniaeth a thegwch, heb haenau costus o fiwrocratiaeth. Mae'r bennod olaf yn pennu yr hyn yr wyf i yn gredu yw'r prif gynhwysion ar gyfer 'un drafodaeth' fydd yn egluro beth yw arweinyddiaeth gydlynol i gysylltu diwylliant gyda chyfiawnder cymdeithasol, ar sail rhaglen o waith ymchwil, datblygu a gwerthuso fydd yn rhoi dulliau newydd i weithwyr cymunedol a sefydliadau diwylliannol gydweithio'n llwyddiannus.

Drwy gydol yr adroddiad, mae argymhellion penodol eraill ar gyfer ysgolion a sefydliadau lleol. Bwriad nifer o'r argymhellion yw creu gallu lleol, i greu cyfleoedd i bobl ddod i adnabod ei gilydd yn lleol, ac i rannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth fel y gall y gymuned fanteisio'n well ar yr hyn y mae'r

sefydliadau diwylliannol a'r ysgolion eisoes yn eu gwneud. Mae'n bosib i nifer o'r argymhellion hyn gael eu treialu a'u teilwra fel eu bod yn addas ar gyfer uchelgais ac amodau lleol. Mae rhai elfennau hefyd fydd yn gyrru'r mesurau hyn ac yn gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i gael effaith hirdymor.

Bydd gyrru rhaglen newid ar draws y sectorau a nodwyd yn golygu cydlynu arfer gorau a sefydlu rhai **strategaethau gwahanol** ar gyfer ysgolion, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau. Ond mae rhai **gyrwyf cyffredin** fydd yn galluogi newid. Maent yn cynnwys:

- mwy o allu strategol ar y pen uchaf i wneud y gorau o wybodaeth ac adnoddau;
- cyfeiriad polisi cliriach i yrru'r bwriad ar lawr gwlad;
- integreiddio ffynonellau cyllido i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosib;
- platfform cyffredin ar gyfer gwybodaeth i'w gwneud yn haws i athrawon, trefnwyr cymunedol a theluoedd wybod beth sydd ar gael;
- mynediad haws a mwy priodol i fwy o amrywiaeth o gyfleoedd gan ddeall mwy ar effeithiau a manteision;
- mentrau hyfforddi cyffredin i gyfnewid sgiliau proffesiynol; a
- chysylltedd ymarferol: partneriaethau'n cael eu harwain yn lleol a chysylltu y prif bobl yn y maes diwyllannol, y bobl sy'n dysgu a phobl yn y gymuned.

Mae themâu **cyffredin a chyson** eraill hefyd sy'n rhedeg drwy'r adroddiad hwn ac sy'n cynnig camau gweithredu ledled Cymru gyfan:

- Pwysigrwydd rhoi profiad, dysgu a mwynhad o fewn cyrraedd pobl, yn lleol;
- Yr angen i gyfuno dysgu yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol a'i wneud i gyfrif tuag at ddyhead a chyrhaeddiad;

- Yr angen i ddeall beth yw 'llwyddiant' o ran dysgu, sgiliau bywyd a newid ymddygiadol – sef, beth sy'n gweithio'n dda – a'r hyn y mae gwaith ymchwil yn ddweud wrthym eisoes;
- Yr angen i anwybyddu ffiniau ac adeiladu cysylltiadau, gan ddefnyddio a gwella modelau llwyddiannus sydd eisoes yn y gymuned; a
- Chydnabod bod gan bawb, pob teulu, a phob cymuned, hanes a diddordeb mewn adrodd straeon.

Mae her hefyd o ran hydreddedd yr iaith rydyn ni'n ei defnyddio. Mae'r 'celfyddydau' yn cwmpasu, er enghraifft, bopeth a olygir gan y termau perfformiad a mynegiant; mae ein diwylliant yn cael ei amlygu mewn gwybodaeth a iaith ond hefyd ym myd amgueddfeydd a henebion; mae ein treftadaeth yn disgrifio etifeddiaeth ein diwylliant, lle a thirlun. Mi wyddom yr hyn a olygir gan y termau gwahanol, ond yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, rwyf wedi benthyca gan Raymond Williams ei hun a defnyddio'r term cyfunol 'diwylliant' os nad yw'n bwysig i wneud y gwahaniaeth rhwng swyddogaeth unigryw y celfyddydau, neu dreftadaeth yr amgylchedd adeiledig.

Mae'r Gymraeg, fel profiad diwylliannol ac fel arwydd diwylliannol ohoni ei hun, wrth gwrs, o bwysigrwydd mawr i Gymru. Rwy'n cymryd yn ganiatol y bydd sefydliadau diwylliannol, Llywodraeth a phartneriaid eraill fydd, gobeithio, yn gweithredu'r argymhellion hyn, yn sicrhau bod anghenion lleol o ran amrywiaeth ieithyddol a ffurfiau eraill ar amrywiaeth yn cael eu hystyried wrth gynllunio rhaglenni a gweithgarwch diwylliannol.

**Mae'r adroddiad hwn yn pennu ein canfyddiadau, sy'n adlewyrchu yr hyn sydd wedi'i ddweud wrthym a'r hyn rydyn ni wedi ei glywed a'i weld. Cymaint ohono sy'n wirioneddol ysbrydoledig, yn ein sbarduno, ein nerthu ac sy'n gyffrous. Mae'n bosib i gymaint sydd wedi'i gydnabod y gellir ei wneud yn wahanol, gael ei wneud gyda'n gilydd.**

## Tlodi ac Eithrio Diwylliannol yng Nghymru Heddiw

Mae'r bennod hon yn gysylltiedig ag effaith tlodi ei hun, strategaethau gwrth-dlodi presennol ar lawr gwlad fel y maent yn cysylltu â diwylliant, a sut y gallent gael mwy o ddylanwad ac effaith drwy bartneriaethau cyson, cynaliadwy, llawn dychymyg a thrwy rannu gwybodaeth, offer a hyfforddiant.



Prosiect Graffiti Treftadaeth Cadw – ymateb creadigol troseddwy'r ifanc i dreftadaeth © Llywodraeth Cymru – Cadw

Mae Cymru yn wlad falch ac mae pobl yn teimlo'n agos at ble y maent yn byw a'r cymunedau y maent yn byw yn eu plith. Mae'n bwysig cydnabod yr egni, y doniau, a'r awydd sydd gan gymunedau am newid, ac i adeiladu ar hynny, yn hytrach na chadarnhau synnwyr o fethiant. Ond ni ddylem wrthod pobl rhag cael mynediad i rhywbeth a allai eu hysbrydoli, magu balchder yn lleol a rhoi sgiliau allweddol i bobl nad yw eu profiadau personol yn cynnig y profiadau diwylliannol y mae pobl eraill yn ei gymeryd fel hawl. Y bwlch hwn rhwng yr hyn sydd gan Gymru o ran ei chyfoeth diwylliannol, a'r angen sydd gan gymunedau tlotach am y cyfoeth hwnnw, sy'n rhaid ei gau. Mae gwaith ymchwil ymhlith ymwelwyr yn dangos yn gyson fod y tebygolrwydd fod pobl sy'n mynychu neu'n cymeryd rhan yn y celfyddydau wedi'i gysylltu'n agos o hyd â statws economaidd-gymdeithasol. Yn 2013, bu i 43% o oedolion yn y grŵp ABC1 (gweithwyr proffesiynol, cymwys a gweithwyr nad ydynt yn gweithio

â llaw) yng Nghymru gymeryd rhan yn y celfyddydau o gymharu â 29% o'r rhai hynny yn y grŵp C2DE (y gweithwyr crefftus, lled-grefftus a'r gweithwyr llaw heb sgiliau a phobl nad ydynt yn gweithio) (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2014).

Mae gan Gymru y diffiniad ofnadwy o gael rhai o'r lefelau uchaf o dlodi yn y DU. Wedi costau tai, mae gan Gymru yr ail gyfradd uchaf o dlodi plant o unrhyw ardal yn y DU, gyda Llundain yn unig â thlodi gwaeth. Mae hanner y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn byw mewn cartrefi heb waith. Mae nifer o ardaloedd De Cymru a'r Cymoedd ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU, gyda, er enghraifft, mwy nag un allan o bump o'r boblogaeth o oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau mewn nifer o ardaloedd yr awdurdod lleol (Comisiwn ar Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, 2013).

Mae effaith tlodi ar eithrio cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, ac ar gyrhaeddiad addysgol, uchelgais, hyder, a dewis, yn ddifrifol iawn.

Mae tua 24% o boblogaeth Cymru yn byw yn y 52 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf – ffocws y strategaethau gwrth-dlodi lleol mwyaf dwys yng Nghymru. Cymunedau yw'r rhain, sydd fel arfer yn cynnwys oddeutu 10,000 i 15,000 o breswylwyr, sydd angen gofal a sylw arbennig o ran cymorth ar gyfer plant a'r mamau ieuengaf, y plentyn ifanc nad yw mewn hyfforddiant nac addysg, a theuluoedd heb waith.

Mae tlodi yn cael effaith ar iechyd ac yn lleihau disgwyliad oes. Mae rhai o'r lefelau uchaf o forbidrwydd a marwolaeth yng Nghymru, yn ogystal â gordewdra ac afiechyd cronig. Ond, yn hollbwysig mewn cyfnod ble yr ymddengys bod Cymru ar ei hôl hi o ran codi cyrhaeddiad ar gyfer rhai o'r plant tlotaf, mae tlodi yn anorfod yn cael effaith ar uchelgais, hyder a chyrhaeddiad mewn ysgolion. Mae'n rhwystro dysgu llwyddiannus. Mae cartref heb lyfrau yn ddechrau gwael i unrhyw blentyn. Mae cartref ble nad oes lle na chefnogaeth ar gyfer gwaith cartref yn golygu bod plant dan anfantais mawr. Nid yw cartref ble nad yw'r rhieni wedi profi llwyddiant yn yr ysgol nac mewn gwaith yn ysbrydoli'r plant y gallant lwyddo yn y naill faes na'r llall. Mae'n hollol hanfodol bellach fod y cysylltiad hwn rhwng cenedlaethau o ymddieithrio rhag addysg a methiant, sgiliau a chyflog isel, yn cael ei dorri.

Mae adrannau'r Llywodraeth wedi ymateb i'r her o helpu i liniaru a lleihau tlodi mewn gwahanol ffyrdd. Mae angen i Adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru, a'i Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, ddangos sut y mae'n cyfrannu tuag at y nod ehangach hon, sydd wedi'i gynnwys yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-16* a'r cynllun *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen* â'r Cynllun *Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*. Mae'r ddogfen ddiweddaraf yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn

*ceisio 'adeiladu ar y gwaith yr ydym eisoes yn ei wneud i ddod â phlant o deuluoedd incwm isel i gysylltiad â'r celfyddydau, diwylliant, llenyddiaeth a chwaraeon, gan ehangu eu gorwelion a'u dyheadau.'*

Mae nifer o gyrff cyhoeddus wedi ymateb yn broactif i'r agenda hon eisoes: mae Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi datblygu eu strategaethau eu hunain sydd wedi eu teilwra yn nodi sut y byddant yn cefnogi'r ymdrechion ehangach i gael gwared ar dlodi plant. Maent pob un ohonynt yn ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o ddenu teuluoedd incwm isel a helpu i wella eu dysgu, eu sgiliau a'u hiechyd.

Mae'n glir, fel y mae llawer o'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy'r adolygiad hwn yn ei bwysleisio, er mwyn cael newid fesul cam, dylai Llywodraeth Cymru ei hun barhau i ddwysau ei hymdrechion i roi proffil a blaenoriaeth newydd i ddiwylliant o ran y frwydr yn erbyn tlodi. Mae eisoes wedi gwneud datganiadau o fwriad o ran hyn, a chomisiynu'r adroddiad hwn yn un ohonynt, a hoffwn i Lywodraeth Cymru yn gyfan barhau i gymeryd pob cyfle i wneud mwy o'r ymrwymiad hwnnw i bwysleisio pwysigrwydd a gallu diwylliant i frwydro yn erbyn anfantais yn ein cymunedau.

## 2.1 Ymrwymadau

Mae gan Gymru rwymedigaethau ehangach hefyd – ac ymrwymiad cryf i hawliau positif. Mae Erthygl 31 Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn ei wneud yn glir fod gan blant *'yr hawl i ymlacio a chwarae, ac ymuno mewn ystod eang o weithgarwch diwylliannol, artistig ac eraill'*. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i ystyried yr hawliau a'r ymrwymadau yn y Confensiwn wrth wneud penderfyniadau.

Mae bodloni'r rhwymedigaethau hyn, a chael llawer mwy o effaith na'r hyn sy'n



cael ei gyflawni nawr drwy'r rhaglenni sydd wedi'u sefydlu, yn anodd. Mae dwy elfen i'r dasg: cadw'r genhedlaeth nesaf allan o dlodi drwy sicrhau bod ganddynt olwg ehangach ar y byd, yr uchelgeisiau, y creadigrwydd a'r cyfrifoldeb dinesig, yn ogystal â'r ystod o sgiliau sydd eu hangen arnynt i sicrhau bywyd llawn; a rhoi i'r genhedlaeth bresennol sy'n byw mewn cymunedau tlawd fywyd cyfoethocach, a'u gwneud yn fwy hyderus a chryfach, drwy roi swyddi a gyrfaedd o fewn eu cyrraedd, o leiaf. Mae'n rhaid sicrhau bod ehangu mynediad i'r profiadau a'r wybodaeth gyfoethocaf y gall diwylliant ei gynnig chwarae rhan fwy mewn dyfodol llwyddiannus.

---

*'yr hawl i ymlacio a chwarae, ac ymuno mewn ystod eang o weithgarwch diwylliannol, artistig ac eraill*  
~ *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

---

Nid yw hyn yn hawdd. Nid oes amheuaeth gan neb o raddfa'r her. Mae prif strategaeth gwrth-dlodi Cymru wedi'i hanelu at y 52 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn anelu at gyfrannu at leihau'r bylchau addysgol, economaidd a iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a mwy llewyrchus, ac, i gyflawni'r canlyniadau hynny, mae tair amcan – *cymunedau llewyrchus, cymunedau dysgu a chymunedau iachach*. Mae'r rhaglenni eu hunain yn cael eu penderfynu'n lleol drwy asesu anghenion plant a theuluoedd, pobl ifanc y tu allan i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a chartrefi heb waith.

Mae'n ymddangos bod ad-drefnu cynllun Cymunedau yn Gyntaf yn y flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud rhai gwelliannau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth amrywiol gan ymatebwyr hefyd yn awgrymu bod cael sefydliadau diwylliannol i gysylltu â'r rhaglen ar lefel strategol yn anodd. Yn wir, roedd un ymatebwr, a oedd yn adlewyrchu barn nifer o bobl, yn disgrifio problemau yn

ymwneud â diwylliant fel a adlewyrchir yn y ffaith nad oes gan Cymunedau yn Gyntaf 'un model gweithredu'. I ryw raddau mae hyn yn anorfod: mae'n rhaid i Cymunedau yn Gyntaf wreiddio mewn cymunedau lleol a chael ei deilwra ar eu cyfer. Mae pob rhaglen felly yn lleol iawn ac yn wahanol iawn. Fodd bynnag, mae tarfu ar y broses o gysylltu sefydliadau diwylliannol gyda gweithwyr cymunedol ar lawr gwlad oherwydd nad oes canllawiau canolog na chyingor ar yr hyn a allai fod ar gael, ar gyfer beth, ac i bwy, a dim gwybodaeth ar sut i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau diwylliannol. Mae'r nod 'cymunedau dysgu' yn cynnig y posibiladau mwyaf i gymunedau a sefydliadau diwylliannol gysylltu â'i gilydd, ond mae ffrydiau 'iechyd' a 'llewyrch' hefyd yn cyflwyno cyfleoedd.

Mae nifer o'r rhaglenni lleol yn canolbwyntio ar ddysgu a hyfforddiant ac, yn ôl un lluniwr polisiau, 'er nad gweithgareddau diwylliannol fyddai'r peth cyntaf i glystyrau fynd i'r afael â hwy yn naturiol... mae Llywodraeth Cymru yn annog clystyrau i edrych ar ffyrdd eraill arloesol o gysylltu â'r gymuned yn y rhaglen'. Y clystyrau eu hunain sydd i benderfynu sut i ddefnyddio eu cyllidebau ar gyfer rhaglenni neu weithgareddau y maent yn teimlo fyddai yn rhoi y cymhelliant a'r manteision mwyaf. Fel y dywedodd un lluniwr polisiau: 'Gallai'r clystyrau benderfynu mai'r dull gorau o gyflawni iddynt hwy fyddai cysylltu gyda rhaglenni celfyddydol, llyfrgelloedd, amgueddfeydd neu ganolfannau treftadaeth'. Beth fyddai heb amheuaeth yn cryfhau'r ddarpariaeth yn lleol fyddai **cyngor, canllawiau ac arfer da cyfunol mwy canolog** ar gyfer clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a sut y gall partneriaethau eu helpu i gyflawni eu canlyniadau eu hunain.

Ond, ochr yn ochr, o fewn y clystyrau Cymunedau yn Gyntaf eu hunain, mae asiantaethau eraill yn y gymuned, sydd hefyd yn gweithio gyda plant a theuluoedd sydd angen help ychwanegol. Mae creadigrwydd y cymdeithasau tai yng Nghymru, er enghraifft, wedi creu argraff arnaf, sydd nid yn unig

yn rhoi gofal i denantiaid ac yn darparu tai newydd, ond hefyd yn gysylltiedig â chefnogi llythrennedd a grwpiau hanes lleol a threftadaeth, i helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau, a chefnogi oedolion i ddatblygu llythrennedd. Mae nifer o bobl yn gwybod erbyn hyn am waith unigryw Plant y Cymoedd, a llwyddiant eu 'cwrwclwm' celfyddydol i sicrhau manteision cymdeithasol i rai o'r cymunedau sydd wedi eu herio fwyaf yn y wlad. Yna mae cyfoeth y sector gwirfoddol, nid dim ond y sefydliadau cymunedol sefydledig sy'n adnabod Cymru yn dda – megis Barnardo's neu Groundwork – ond y sefydliadau llai, lleol sy'n gweithio mewn pocedi o'r gymuned sy'n dioddef y caledi gwaethaf, a swyddogaeth allweddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n cynnig cymorth strategol ac arweiniad i'r sector.

## 2.2 Cyfleoedd

Mae'r adolygiad hwn yn gysylltiedig ag atal A lliniaru tlodi. Ein diwylliant a'n treftadaeth sy'n ein gwneud ni y bobl rydym ni. I blant a phobl ifanc, mae cymeryd rhan yn y celfyddydau, ymweld ag amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, theatrau, a deall hanes a threftadaeth, yn hollbwysig ar gyfer eu datblygiad fel pobl ystyriol, lwyddiannus sy'n gallu gweithredu'n ddigymell, ac sy'n ddinasyddion gweithredol. Er ei bod yn anodd darparu cysylltiadau uniongyrchol rhwng cyfranogiad ac effaith, mae tystiolaeth o'r astudiaeth achos, sydd wedi'i ddogfennu'n dda, i raddau helaeth gan yr Athro Dai Smith yn ei adroddiad, y gall cyfranogi yn y celfyddydau yn benodol helpu i ddatblygu dealltwriaeth bersonol ac emosiynol. Gall hefyd gyflymu, a hyd yn oed ddarparu'r cychwyn allweddol i gaffael iaith, llythrennedd, rhifedd, a rhoi diddordebau a gyrfaoedd i bobl ifanc gydol eu bywydau (MLA Renaissance North West, 2011). I bobl ifanc yn eu harddegau, sydd yn y perygl mwyaf o gael eu dadrithio, gall y celfyddydau eu

cadw mewn cysylltiad â dysgu yn ystod y blynyddoedd pontio anoddaf – ar ba bynnag ffurf y bydd eu cyfranogiad yn y celfyddydau, o ffotograffiaeth i ddawns i ddylunio nofelau graffig a rapio. Roedd rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru o gyfranogi yn y celfyddydau, rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru, Cyrraedd y Nod, a ddarparwyd rhwng 2007 a 2013, yn canolbwyntio ar y posibilrwydd cyfoethog hwn (gweler yr astudiaeth achos ym Mhennod 4).

I oedolion sydd heb sgiliau sylfaenol, ond sydd ddim yn barod i wynebu'r stigma o orfod mynychu dosbarthiadau dysgu ffurfiol, gall y celfyddydau creadigol a mynegiannol ddarparu 'dysgu yn ddistaw bach', drwy waith creadigol yn y celfyddydau, a all, yn ei dro, gefnogi mynediad i lythrennedd gwell ac i ddysgu cynyddol (gweler Pennod 6).

Pan ddaw i dreftadaeth leol Cymru – a dealltwriaeth o hanes cymdeithasol, crefyddol, diwydiannol, ac economaidd trefi, dyffrynnoedd, a phentrefi – mae mantais bositif arall hefyd, wedi'i hadlewyrchu mewn balchder mewn lle, yn y gorffennol a'r dyfodol, a dinasyddiaeth weithredol. Mae gwaith ar y gweill o ran adennill adeiladau hanesyddol ac adfywio tirluniau hanesyddol a allai fod yn addawol iawn yn ei gyfanrwydd o ran adfywio cymdeithasol yn ogystal ac economaidd, drwy ddiwylliant a threftadaeth (Pennod 6).

Mae nifer o enghreifftiau gwych o bartneriaethau i dynnu arnynt yn yr adolygiad hwn. Mae sefydliadau cymunedol yn adnodd presennol o bwys a gallant fod yn bartneriaid posib pwerus i sefydliadau diwylliannol, ac yn wir yn ffordd o gyrraedd calon y gymuned. Maent yn gyfoethog o ran arbenigedd a phrofiad i alluogi plant a theuluoedd i oroesi rhai o'r anfanteision mwyaf sylfaenol, ac yn rhoi gobaith a gorwelion newydd iddynt yn ogystal â sgiliau newydd ar gyfer gwaith (Pennod 4).

## Ehangu Mynediad a Chwalu Eithrio Cymdeithasol

Mae penodau 3 a 4 yn delio â'r ffyrdd cyflenwol y gall asedau diwylliannol Cymru fod yn fwy cyffrous yn ogystal â bod yn addas i blant a theuluoedd, a sut y gallent gael eu defnyddio'n well ar gyfer ein cymunedau.

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael mynediad i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru fel hawl sylfaenol. Mae penderfyniad pob sefydliad diwylliannol i gymeryd eu cyfrifoldeb dros gysylltu'n effeithiol â'r gymuned, fel eu prif bwrpas, yn ogystal â'u gallu i arloesi, wedi creu argraff arnaf yn gyson. Mae felly yn llawer mwy arwyddocaol fod pob un ohonynt, mewn gwahanol ffyrdd, wedi pwysleisio'r angen am fwy o gyfleoedd i gydweithio ar lefel genedlaethol a lleol ac i weithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol fel bod modd cael mwy o effaith ar y cymunedau hynny, a defnydd mwy effeithiol o wybodaeth ac adnoddau.

Mae ein sefydliadau diwylliannol eisoes yn cynnig amrywiol gyfleoedd dysgu ar eu safleoedd eu hunain. Amgueddfa Cymru yw'r darparwr mwyaf un o ran profiadau addysgol y tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru, gyda dros 200,000 o ysgolion yn ymweld yn flynyddol; rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2013 roedd 65,000 o ymweliadau dysgu â henebion Cadw. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion mawr i agor eu drysau'n ehangach, mae sefydliadau diwylliannol yn parhau i'w chael yn anodd i ddenu pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

Mae nifer o'r argymhellion yn y bennod hon felly yn gysylltiedig â gwella mynediad, drwy ddileu ble yn bo'n bosibl rai o'r rhwystrau sy'n ei gwneud mor anodd i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig i fwynhau ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol eu hunain.

Mae dau brif rwystr sy'n ymddangos yn amlwg iawn:

- Y cyntaf yw'r rhwystrau seicolegol i ymweld â sefydliad sy'n ymddangos yn waharddedig ac yn sy'n codi ofn – boed yn amgueddfa, archif, llyfrgell, heneb neu eiddo hanesyddol.
- Yr ail yw mynediad corfforol ohono ei hun – yr anawsterau a'r costau o ymweld i bobl sydd ddim yn byw o fewn y dalgylchoedd.

Mae rhan o'r adroddiad hwn hefyd yn edrych ar y ffyrdd y gallai'r sefydliadau cenedlaethol fynd â'u hadnoddau, eu harbenigedd a'u casgliadau yn uniongyrchol i'r cymunedau eu hunain, ac i ddefnyddio eu dychymyg wrth wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys gwneud y gorau o'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio gan Cadw fel 'treftadaeth carreg y drws'

### 3.1 Chwalu'r Rhwystrau Seicolegol

Un o'r rhwystrau mwyaf a chymhlethaf oll, wrth gwrs, yw'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â'r ddelwedd a'r eirfa o 'ddiwylliant' a'i sefydliadau. Mae nifer o argymhellion yr adroddiad hwn yn gysylltiedig â'r gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael â hyn, yn enwedig deall pam ei bod mor anodd i bobl fynd i amgueddfa neu gôr lleol yn y lle cyntaf. Pan fydd amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, orielau, theatrau, henebion a thai hanesyddol yn teimlo'n bell ac yn codi ofn, nid dim ond colled bersonol yw hon. Dyma leoedd ble y gall cymunedau cyfan ddod at ei gilydd a dathlu.

Nid oes, fodd bynnag, unrhyw ffordd hawdd o gynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch diwylliannol. Mae'n her gymhleth, yn enwedig yn yr ardaloedd difreintiedig iawn. Fel y mae'r dystiolaeth rydym wedi ei chlywed yn nodi, yn gyson, mae disgwyliadau is, materion yn gysylltiedig â symudedd corfforol, diwylliannol ac economaidd – a'r pellter rhwng yr hyn y mae'r 'celfyddydau' a 'diwylliant' yn ei gynnig ac 'ofni'r hyn na wyddom ddim amdano' fel y dywed trefnwyr Cymunedau yn Gyntaf – yn enfawr. *'Nid yw'r celfyddydau a diwylliant yn cael eu hystyried fel rhan o fywyd cyffredin pob dydd'* oedd un datganiad a glywais yn ystod seminar gyda chynrychiolwyr Cymunedau yn Gyntaf oedd yn arbennig o arwyddocaol. Dywedodd Canolfan Mileniwm Cymru bod nifer o bobl yn byw o fewn milltir i'r Ganolfan sydd erioed wedi bod yno. A hyd yn oed pan fydd plentyn wedi'i gyffroi gan y syniad, mae'r teulu ar brydiau yn *'rhwystr i gyfranogiad os nad ydynt yn cynnal neu yn cydnabod diddordeb y plentyn'*, yn ôl siaradwr yn seminar Amgueddfa Cymru ar dlodi plant ym mis Hydref 2013. Mae'r risgiau emosiynol y mae person ifanc yn ei gymeryd wrth ymwneud am y tro cyntaf â rhywbeth newydd, wedi ei fynegi'n dda gan Opera Genedlaethol Cymru: *'gall y celfyddydau ehangu meddylfryd pobl ifanc i feddwl yn wahanol, ond mae'n rhaid i rhywun fod yno i ddal eu dwylo pan fyddant yn neidio allan!'*

Mae ceisio cyrraedd y rhai hynny sydd ddim yn ystyried diwylliant fel 'rhan o fywyd pob dydd', ac sy'n gweld profiadau newydd yn llawn risg a hyd yn oed yn destun sbort, yn broblem fawr i nifer o sefydliadau diwylliannol eisoes. Mae protocolau ac arferion mynychu'r theatr, er enghraifft yn ei gwneud yn anodd i rai. Mae llawer o waith da eisoes ar y gweill i ddeall natur ymgysylltiad yr ymwelydd, ond mae angen o hyd i ddeall yn well y bobl hynny sy'n ymweld a'r rhai nad ydynt yn ymweld. Mae nifer o sefydliadau yn ymdrechu'n galed i agor eu drysau'n ehangach – o leiaf i ardaloedd y dalgylch dinesig lleol ble y mae'r profiad

yn un dieithr i nifer o deuluoedd. Mae gan Amgueddfa Cymru amrywiaeth trawiadol o raglenni a phartneriaethau arloesol ledled Cymru. Mae rhai o'r rhai amgueddfeydd lleol mwyaf arloesol, hefyd, yn gweld eu hunain yn ymwneud â mwy na dim ond cyfranogi, ond fel asiantaethau gweithredol ar gyfer newid cymdeithasol.

Mae llawer o sefydliadau eisoes wedi sefydlu cynlluniau arloesol i gysylltu â phlant a theuluoedd. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn un enghraifft wych o ble y mae cysylltiadau agos iawn â chymunedau ac ysgolion cyfagos wedi'u llunio. Mae Theatr lolo yn gwmni theatr adnabyddus sy'n creu gwaith yn benodol ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd. Ond mae mwy y gallai'r sector diwylliant ei wneud i gysylltu â'r gymuned leol ac i sicrhau bod sefydliadau celfyddydol, amgueddfeydd, archifau neu orielau yn fwy na phrofiad unigryw ar ddiwedd tymor, ond yn adnodd gwych ac yn 'bartner parhaus' yng ngwaith a bywyd yr ysgol. Dylent fod yn rhywle ble y gall y plant lleol ddisgwyl bod yn guradurwyr neu yn archifwyr ifanc eu hunain, ardangos eu gwaith celf eu hunain, ysgrifennu a pherfformio eu storïau eu hunain, perfformio eu cerddoriaeth eu hunain, a hyd yn oed ddod o hyd i leoedd ac adnoddau ar gyfer gwaith cartref. Mae nifer o sefydliadau yn amlwg yn chwilio am ffyrdd arloesol o newid eu delwedd.

---

*'gall y celfyddydau ehangu meddylfryd pobl ifanc i feddwl yn wahanol, ond mae'n rhaid i rhywun fod yno i ddal eu dwylo pan fyddant yn neidio allan!'*  
~ Opera Cenedlaethol Cymru

---

Y cam cyntaf ddylai fod yw rhannu arfer da o'r hyn y gellir ei wneud i ddenu plant a theuluoedd o bob math – ac mae rhywfaint o lwyddiant i'w weld yma y gellir ei ddefnyddio'n ehangach ledled Cymru. Un rhaglen ddiweddar sy'n datblygu'n gyflym

# ASTUDIAETH ACHOS: Canolfan Eifftaidd, Abertawe

Amgueddfa fach wedi'i hachredu sy'n cynnwys hynafiaethau'r Aifft yw y Ganolfan Eifftaidd. Prifysgol Abertawe sy'n ei rhedeg. Mae'r amgueddfa yn annog symudedd cymdeithasol drwy raglen weithredol o ehangu cyfranogiad, ethos sydd i'w weld drwy bopeth y mae'r amgueddfa yn ei wneud ac sy'n rhan o'i Blaengynllun.

Mae'r amgueddfa'n anghyffredin yn y DU am ei rhaglen wirfoddoli ar gyfer plant. Mae'r rhaglen yn agored i blant dros 11 oed. Mae'r rhaglen yn cynnwys plant ag amrywiaeth o alluoedd, grwpiau ethnig a phlant o wahanol gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd. Mae llawer o blant wedi dod i'r Amgueddfa â diffyg hunan-gred, ar ôl cael problemau gyda'r system addysg draddodiadol, ond eto i gyd, mae llawer o'r plant wedi mynd ymlaen i addysg uwch. Mae plant sy'n gwirfoddoli yn ennill credydau drwy Brifsgol Plant a Phobl Ifanc Abertawe.



© Prifysgol Abertawe

Mae'r oedolion sy'n gwirfoddoli hefyd yn amrywio ac yn cynnwys pobl â phroblemau cymdeithasol a iechyd meddwl a phobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Mae gan yr Amgueddfa gyfran uwch o bobl sy'n ystyried eu hunain yn anabl yn gwirfoddoli na'r ganran sy'n ystyried eu hunain yn anabl yn y boblogaeth gyffredinol. Mae llawer o wirfoddolwyr wedi cael swyddi, a chymwysterau uwch, rhai yn dilyn lleoliadau profiad gwaith, ac eraill drwy'r prif gynllun gwirfoddoli. Mae'r Amgueddfa hefyd wedi cyflogi 3 o bobl ifanc fel curaduriaid dan hyfforddiant drwy gynllun Gweithlu Cymru; mae pob un wedi cael swyddi erbyn hyn, dau ohonynt yn y sector treftadaeth.

Mae'r staff cyflogedig yn cynnwys person ag anawsterau dysgu a adawodd yr ysgol heb unrhyw gymwysterau. Mae'r person hwn yn helpu i redeg y gweithdai bob dydd Sadwrn, mae'n addysgu gwirfoddolwyr eraill, ac yn helpu myfyrwyr Prifysgol gyda'u hastudiaethau, yn ogystal â bod yn dywysydd orielau gwerthfawr ac yn arweinydd gweithgareddau cyffredinol i ysgolion.

Mae gweithdai dydd Sadwrn yr amgueddfa wedi'u hanelu at blant difreintiedig yn nhermau cymdeithasol ac economaidd, yn enwedig y rheini mewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Amcan y gweithdai yw gwella llythrennedd a rhifedd, datblygu hyder a meithrin awydd i ddysgu. Yr ysgolion sy'n dewis y plant, ac maent yn dod i'r Amgueddfa am ddau ddydd Sadwrn yn olynol i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog. Darperir trafndiaeth a chinio am ddim. Mae'r Amgueddfa wedi casglu tystiolaeth anecdotaidd o lwyddiant y gweithdai hyn o ran goresgyn rhwystrau i symudedd cymdeithasol a gwella hunan-gred a meithrin agwedd bositif tuag at ddysgu. Mae'r plant sy'n cymryd rhan yn y gweithdai ar ddydd Sadwrn a'r cynlluniau gwirfoddoli yn ennill credydau drwy Brifysgol Plant Abertawe.

Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn rhoi'r profiad dysgu wrth wraidd yr hyn y mae'n ei gynnig; felly, er enghraifft, caiff nwyddau'r siop eu dewis a'u harddangos gyda'r nod o addysgu yn ogystal â chreu incwm, ac mae adnoddau ysgolion yn cael eu paratoi'n ofalus a'u teilwra i fodloni gofynion allweddol y cwricwlwm fel cyflwyno rhifedd drwy fathemateg Eifftaidd. Mae'r wybodaeth hon yn hawdd dod o hyd iddi, mae wedi'i strwythuro'n dda ac mae'n darparu gwybodaeth ymarferol gynhwysfawr ar gyfer athrawon ynghylch sut i gael y mwyaf o'u hymweliad.

yw *Kids in Museums*, elusen sy'n anelu at wneud y profiad o ymweld ag amgueddfeydd yn fwy cyfeillgar, ac yn fwy o hwyl, i blant a'u teuluoedd. Mae Sefydliadau yng Nghymru wedi ymuno'n frwdfrydig â galwad *Kids in Museums* i feddwl sut y caiff yr amgueddfa ei chyflwyno a'i threfnu i groesawu y teulu cyfan, a phlant yn benodol. Mae *Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd* yn ddiwrnod pryd y caiff pobl ifanc swyddogaethau gwirioneddol, gan gydweithio â staff a gwirfoddolwyr i gymeryd rhan ym mywyd yr amgueddfa. Cymerodd 30 o sefydliadau ledled Cymru ran yn 2013, i fyny o 17 yn 2012, gyda dros 700 o bobl ifanc yn cymeryd rhan.

Mae llwyddiant y *Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd* eisoes yn dystiolaeth o'r ymrwymiad i amgueddfeydd Cymru, ond mae'n bosib gwneud mwy i gynnal yr ysbryd hwnnw o gysylltu â phlant fel 'esbonwyr ifanc' a 'churadwyr ifanc' mewn ffyrdd normadol. Mae Kids in Museums, gan gydweithio â Llywodraeth Cymru, yn arwain yr ymgyrch i roi plant yn gyntaf mewn amgueddfeydd, a hoffwn annog pob amgueddfa yng Nghymru i fanteisio ar y syniadau hyn. Mae dau o wasanaethau archif a dau eiddo Cadw eisoes wedi cymeryd rhan yn y dyddiau Meddiannu Amgueddfeydd a hoffwn weld hyn yn parhau ac yn ehangu gan adeiladu ar y gwaith llwyddiannus mewn amgueddfeydd. Y cam nesaf yn amlwg fyddai i Gymru arloesi gyda diwrnod 'Meddiannu Cestyll', neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i roi plant 'yng ngofal' un o'u hadeiladau yng Nghymru!

#### ARGYMHELLIAD 1

Y sector diwylliant a threftadaeth yn ehangach i sefydlu dulliau o wneud eu sefydliadau eu hunain yn fwy cyfeillgar i blant megis y **model 'Diwrnod Meddiannu'**, a arloeswyd gan *Kids in Museums*.

### 3.2 Chwalu'r Rhwystrau Trafnidiaeth

Ond i nifer o deuluoedd, mae'r rhwystrau seicoleg yn cael eu cymhlethu gan y ffaith syml

ei bod yn anodd ac yn ddrud i fynd i sefydliad cenedlaethol. Thema gyffredin oedd yn codi o'n hymgyngoriad – ac yn wir mater sy'n mynd y tu hwnt i'r adroddiad hwn – oedd y diffyg o ran trafndiaeth fforddiadwy. Mae hyn wrth gwrs o fewn y cyd-destun cyffredinol bod Cymru yn wlad wledig, ble y mae'n anodd iawn – yn wir yn amosibl i nifer o bobl – gael mynediad i leoliadau diwylliannol heb gar. I bobl sy'n byw filltiroedd i ffwrdd o'r canolfannau dinesig mawr, mae ymweliad ag amgueddfa genedlaethol, theatr neu gyngerdd yn anodd, hyd yn oed pan fyddant yn awyddus i wneud hynny.

Er bod mynediad am ddim i nifer o sefydliadau cenedlaethol a lleol yn dileu un rhwystr ariannol, gall costau trafndiaeth, boed ar gyfer teuluoedd sy'n teithio o'r Cymoedd i sefydliadau mawr Caerdydd, neu gostau teithio ar fws i nifer o ysgolion o ardaloedd difreintiedig, rwystro nifer o bobl rhag mwynhau'r profiadau gwych hyn.

Roedd bron bob corff oedd wedi ymateb i'r adolygiad hwn wedi tynnu sylw at y ffaith fod diffyg trafndiaeth, yn ogystal â'r costau ychwanegol a ddaw o fynd ar ymweliad, yn broblem allweddol. Wedi blynyddoedd o ddiffinio'r broblem fel un nad oedd modd ei datrys, mae'n rhaid i'r mater o ddod o hyd i ateb i'r broblem drafndiaeth fod yn flaenoriaeth os nad yw'r profiadau hyn sy'n newid bywydau pobl i barhau'n fraint. Mae rhai modelau fydd o gymorth ond gwahanol yn cael eu datblygu. Maent yn cynnwys:

- Archifau Morgannwg, yn ogystal â gwasanaethau archifau eraill, wedi cynnal nifer o brosiectau gyda chyllid grant gan CyMAL ble y mae'n cynnig taliadau llogi bws i ganiatáu i ysgolion o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf y tu allan i Gaerdydd fynd i adeilad a defnyddio gwasanaethau;
- Y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru, gan ddefnyddio eu cyllid eu hunain, wedi gallu darparu trafndiaeth am ddim i rai grwpiau sy'n cymeryd rhan mewn prosiectau; ac

- Yn 2013, cymerodd 40 o fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru o Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch, (ardal Cymunedau yn Gyntaf), ran mewn taith treftadaeth Cadw o amgylch henebion ac amgueddfeydd lleol Ynys Môn. Roedd y gweithareddau ar y safleoedd yn cynnwys defnyddio sgiliau fel llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu, gwaith grŵp a TGCh.

Mae enghreifftiau o'r fath yn dangos yr hyn y gellir ei wneud mewn rhai lleoedd a chan rai sefydliadau, ac yn bendant byddai'n bosibl eu gwneud eto, ond maent wedi eu trefnu'n benodol ac maent wedi eu cyfyngu o ran pwy all fod yn rhan o'r fenter. Mae angen ymyrraeth mwy radical – er enghraifft, cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer ymweliadau yr ysgol a'r gymuned yng nghontractau y bysiau ysgol, gan drafod ymhlith awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau. Byddai achos cryf hefyd o ran rhesymeg a chanlyniad, dros dargedu cronfeydd presennol megis y Grant Amddifadedd Disgyblion neu gyllid Cymunedau yn Gyntaf (er enghraifft) tuag at raglenni o weithgareddau sydd â chostau trafniadaeth wedi'u cynnwys, ac wedi'u cysylltu â chanlyniadau sy'n cael eu diffinio gan amcanion Cymunedau yn Gyntaf. Hoffwn argymhell sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, gan gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol, darparwyr trafniadaeth, a sefydliadau diwylliannol, i ganfod atebion posibl, wedi'u treialu mewn ardaloedd difreintiedig, i broblem sydd wedi'i defnyddio fel esgus am fethu â bodloni rhai cyfleoedd a phrofiadau sylfaenol am amser maith.

## ARGYMHELLIAD 2

Llywodraeth Cymru i sefydlu **Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gael atebion i rwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth** wrth i bobl o ardaloedd difreintiedig ymweld â safleoedd a mynychu digwyddiadau diwylliannol.

### 3.3 Cysylltiadau Agosach

Mae chwalu'r rhwystrau sy'n atal y sefydliadau cenedlaethol ledled Cymru rhag cael ymwelwyr neu gynulleidfaoedd newydd yn gam cyntaf tuag at ehangu 'perchnogaeth' y sefydliadau

hyn i gynulleidfa ehangach. Mae'r 'ofn' o fynd i amgueddfa neu theatr am y tro cyntaf, yn ddim ond un o'r rhwystrau emosiynol sy'n dal pobl yn ôl rhag gwneud hynny, ac mae'n rhaid bod yr ateb yn y cyngor sy'n cael ei roi gan y cyrff mwyaf awdurdodol yn y gymuned, fel Plant y Cymoedd – sef bod yn rhaid i'r sefydliadau diwylliannol '*fynd â'r celfyddydau a diwylliant at y bobl*'.

Yr allwedd i lwyddiant yw i greu llawer mwy o gyfleoedd a chymhellion i sefydliadau diwylliannol ddysgu gan yr arbenigwyr cymunedol ar lawr gwlad. Ond er bod parodrwydd mawr mewn egwyddor, dengys tystiolaeth bod magu cysylltiadau ar lawr gwlad rhwng sefydliadau diwylliannol a chymunedol yn rhy anodd i'w wneud am ddau reswm sy'n gorgyffwrdd: yn gyntaf, yr anhawster y mae'r asiantaethau celfyddydol wedi'i gael i nodi pwy, ar lefel y clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ei hun, all gomisiynu a gyrru'r broses o ymgysylltu ar ran y gymuned, ac yn ail, o'r ddwy ochr, natur ysbeidiol a gwasgareddig yr hyn sy'n cael ei gynnig yn ddiwylliannol.

Mae angen mwy o eglurder ynghylch yr amcanion a'r canlyniadau sy'n cael eu pennu gan glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac mae angen rhannu'r rhain gyda'r sefydliadau diwylliannol. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar ganiatáu i'r cymunedau eu hunain benderfynu ar eu blaenoriaethau; ac rwy'n derbyn yn llawn ei bod yn anodd i lywodraeth gael cydbwysedd rhwng darparu canllawiau canolog ar ddrafftio'r fframwaith canlyniadau sydd i'w ddefnyddio, a'r cynlluniau cyflenwi unigol sy'n cael eu datblygu. Fodd bynnag, pe byddai cydddealltwriaeth gliriach o'r broses o bennu amcanion lleol, byddai'n haws gweld sut y gallai sefydliadau diwylliannol helpu i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae problemau ymarferol hefyd sy'n gwneud partneriaethau yn fwy anodd na sydd rhaid. Mae rhwystrau o'r ddwy ochr. Mae natur anghyson, ddigyswllt ac anweledig ar brydiau y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ar lawr gwlad wedi ei gwneud yn

# ASTUDIAETH ACHOS: Plant y Cymoedd

Elusen yn Ne Cymru yw Plant y Cymoedd. Mae wedi bod yn gweithio gyda plant a theuluoedd difreintiedig ers 35 o flynyddoedd. Mae'n gweithio mewn cymunedau lle y mae gan lawer o bobl – hen ac ifanc – ddiffyg uchelgais, disgwyliaid isel ac incwm isel.

Sefydlwyd Prosiect Cymunedol Penygraig ym 1977, sef menter i ddatblygu'r gymuned gyda 2 aelod staff a grŵp bach o wirfoddolwyr, yn gweithio'n bennaf gyda phobl yn eu harddegau sydd wedi'u dadrithio. Roedd y gymuned leol yn awyddus i ddatblygu gweithgareddau ar gyfer plant iau ac felly trowyd at y prosiect am gymorth. Datblygodd hyn yn ystod eang o wasanaethau cymorth a gynhelir gan y gymuned leol ar eu cyfer.

Rhodddwyd Capel y Bedyddwyr Soar yn rhodd ym 1980 ac fe'i agorwyd fel adnodd cymunedol a chelfyddydol 7 mlynedd yn ddiweddarach. Daeth y prosiect yn enwog am ei agwedd o ddatblygu'r gymuned ar lawr gwlad, ac fe wahoddwyd y Prosiect i gymunedau heriol eraill yn y Rhondda. Ym 1999 cafodd y prosiect yr enw Plant y Cymoedd i adlewyrchu'r ffaith ei fod yn tyfu'n ddaearyddol, ac o ran ei faint. Mae'r corff yn gweithio mewn partneriaeth agos â phob cymuned i nodi anghenion penodol ac er mwyn mynd i'r afael â hwy gyda'i gilydd.



© Glenn Edwards

Erbyn hyn, mae gan y prosiect 40 o aelodau staff amser llawn, 9 o aelodau staff rhan-amser a dros gant o wirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau cymunedol, chwarae, gwasanaethau i bobl ifanc a gwasanaethau celfyddydol i bobl ifanc. Mae'r prif Brosiect yn darparu sesiynau chwarae cyn-ysgol a thu allan i'r ysgol, clybiau ieuencid, grwpiau i bobl 16+, gweithdai drama, theatr ieuencid, digwyddiadau dawnns creadigol, theatr, cerddoriaeth a dawnns i blant. Mae pedair Canolfan Cymunedol a Theuluol yn ogystal â'r Prosiect Cywaith, y Prosiect Mynediad Cymunedol i Dechnoleg, Prosiect Allgymorth Cymunedol a Theuluol a Phrosiect Rygbi Ysgol Gymunedol. Menter ddiweddaraf Plant y Cymoedd yw 'Y Ffatri', sef hen ffatri diodydd ysgafn ym Mhorth sydd wedi'i haddasu. Prynodd Plant y Cymoedd yr adeilad eiconig yn 2011, ac mae'r elusen yn datblygu'r adeilad fel canolbwynt i'r diwydiannau diwylliannol gyda'r nod o annog pobl ifanc sy'n awyddus i weithio yn y diwydiant diwylliannol i fagu profiad a hyfforddiant.

Mae'r tîm Cywaith yn rhan annatod o'r gwaith datblygu cymunedol a gynhelir yn Plant y Cymoedd ac mae'n gweithio gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gan ddefnyddio technegau creadigol mae'r plant a'r bobl ifanc yn edrych ar wahanol agweddau ar eu bywydau a bywydau eraill mewn modd positif. Mae canlyniad i'r gweithgarwch fel arfer, megis drama wedi'i hysgrifennu a'i pherfformio gan y bobl ifanc, darn o gelf gweledol neu ymweliad â chynhyrchiad proffesiynol. Yn ddiweddar, lanswyd ei raglen newydd ar gyfer pobl 16-25 oed, sef Flight Wings, sy'n cynnig gwasanaethau mentora; cymorth; lleoliadau i fyfyrwyr a gwirfoddolwyr; digwyddiadau hyfforddi a phrosiectau creadigol dan arweiniad cyfoedion yn y diwydiannau creadigol. Mae'r rhain ar gael i bobl ifanc sydd â diddordeb yn y celfyddydau.

Mae Plant y Cymoedd yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a chyrrff eraill sydd o'r farn fod cydweithio yn sicrhau'r cyfleoedd gorau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.



anodd i'r trefnwyr cymunedol, sy'n gweithio gyda chymunedau lleol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, neu gymdeithasau tai lleol, sy'n gweithio gyda grwpiau tenantiaid, neu weithwyr datblygu cymunedol mewn cymunedau eraill cymharol ddifreintiedig, wybod ble i ddechrau.

O gael eu hwynebu gyda phwysau pob dydd i gefnogi cymunedau difreintiedig, mae trefnwyr cymunedol angen mynediad cyflym, hawdd ac effeithiol i'r hyn a wyddant sy'n gweithio o ran codi ysbryd a sgiliau. Fodd bynnag, y gwir sefyllfa o ran gweithio gyda sefydliadau diwylliannol, o'r hyn yr wyf i wedi'i glywed, yw nad oes:

- un ffordd hawdd, o ddod i wybod beth sydd ar gael yn lleol. Nid oes un porthol ar gael sy'n rhoi gwybodaeth ar sut i ymwneud â diwylliant;
- mae diffyg rhwydweithiau, pecynnau cymorth, tystiolaeth o effaith neu hyfforddiant i gadarnhau'r rhesymau dros wneud y cysylltiad â'r cyhoedd yn flaenoriaeth; ac
- ychydig iawn o bartneriaethau parhaus sydd wedi'u sefydlu; ac mae dibyniaeth gref ar weithgareddau achlysurol sy'n seiliedig ar brosiectau, yn aml ar hap.

Dywedwyd wrthyf, er enghraifft, mewn seminar yn Abertawe gan gynrychiolydd Cymunedau yn Gyntaf, bod *'y problemau mwy yn gysylltiedig â 'llunio pont' gyda phartneriaid [diwylliannol] posibl. Nid oedd bob amser yn amlwg ar unwaith ble oedd y cysylltiadau neu'r synergedd, gyda chysylltiadau rhwng Cymunedau yn Gyntaf a diwylliant yn aml yn ddamweiniol neu'n achub ar gyfle.'*

O safbwynt sut y gallai cyrff diwylliannol gydweithio'n effeithiol gyda threfnwyr cymunedol, mae rhwystrau hefyd:

- nid yw bob amser yn glir pwy yn y clwstwr Cymunedau yn Gyntaf i gysylltu â hwy neu pwy yw'r prif berson 'ar lawr gwlad';
- mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol bod angen mwy o gymorth ar sefydliadau

diwylliannol, yn enwedig y rhai llai, o ran sgiliau a gallu, i weithredu yn y ffordd iawn neu i gynnig y prosiectau iawn;

- mae cyfyngiadau ymarferol i'r hyn y gellir ei wneud wrth fynd â chasgliadau i gymunedau;
- nid oes un model gweithredol o fewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf: caiff popeth ei benderfynu yn lleol;
- nid oes dull o gael y sefydliadau diwylliannol lleol neu genedlaethol i nodi asiantaethau eraill sydd hefyd yn gweithio gydag elfennau gwahanol o'r gymuned, fel cymdeithasau tai, a allai fod yn gyfranogwyr posibl mewn rhaglenni partneriaeth; ac
- nid oes ffordd amlwg i'r partneriaid parhaus ar lawr gwlad i ymwneud ag unrhyw waddol sy'n cael ei greu gan brosiectau ar wahân, ac i'w datblygu.

---

*'y problemau mwy yn gysylltiedig â 'llunio pont' gyda phartneriaid [diwylliannol] posibl. Nid oedd bob amser yn amlwg ar unwaith ble oedd y cysylltiadau neu'r synergedd, gyda chysylltiadau rhwng Cymunedau yn Gyntaf a diwylliant yn aml yn ddamweiniol neu'n achub ar gyfle.'*  
- Rheolwr Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf, Abertawe

---

Er gwaethaf yr anawsterau, mae enghreifftiau llwyddiannus o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf sydd wedi llwydo i gysylltu ag adnoddau diwylliannol lleol. Mae prosiect y 'Tri G' ar ystad y Gurnos, Merthyr Tudful, wedi defnyddio'r celfyddydau a diwylliant i alluogi pobl i fynegi eu teimladau am eu cymunedau, tra bod prosiect archaeoleg cymunedol parhaus o amgylch bryngaer Caerau yng Ngorllewin Caerdydd, wedi gweld pobl yn ymwneud â'u treftadaeth leol, gyda rhai yn mynd ymlaen i ddysgu wedi'i achredu. Mae nifer o enghreifftiau lleol eraill. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, bu'r rhain dros y tymor byr, gan achub ar gyfle i raddau. Roedd

un rhaglen gan Amgueddfa Cymru, *Bling!*, yn cyflwyno model mwy strategol o weithio ac mae'n un yr hoffwn ei gweld yn cael ei gwneud eto.

Ond un canlyniad o fethiant y sefydliadau diwylliannol i gael cynlluniau a blaenoriaethau i gyd-fynd yw ymddengys bod rhai ardaleodd ble y gwelir gweithgarwch mawr ac eraill lle nad oes llawer yn digwydd. Mae nifer o gyrff cenedlaethol o Gaerdydd, er enghraifft, yn ymddangos fel petaent yn canolbwyntio ar eu gwaith allgymorth mewn ychydig o leoliadau penodol, yn aml ar eu trothwyon eu hunain, mewn mannau fel Butetown ac Threlai, neu, ymhellach, fel ym Merthyr Tudful a Wrecsam. Ymddengys nad yw llawer o'r wlad yn dod i gysylltiad ag ymyriadau o'r fath, ac, yr hyn sydd hefyd yn peri pryder, yw mai ychydig o'r gyrff hyn sy'n cyd-weithio i gyflwyno rhaglenni ar y cyd pan fyddant yn gweithio yn yr un lleoliadau.

### 3.4 Casgliad

Mae'r bennod hon wedi nodi rhai ffyrdd y gellir ehangu y mynediad i'r rhai sy'n cynhyrchu diwylliant Cymreig, ac wedi edrych ar rai o'r heriau a ddaw o gydweithio â'r cymunedau eu hunain ar lefel leol a chenedlaethol. Mae hefyd wedi nodi'r rhwystrau cyffredin

sy'n ei wneud mor anodd i sefydliadau cymunedol a diwylliannol gydweithio'n agos: diffyg gwybodaeth gan gyrff o amcanion, canlyniadau, adnoddau ac arferion eu gilydd, dim un pwynt cyswllt, diffyg cyfle i adeiladau ar bartneriaethau, a diffyg ffyrdd o rannu gwybodaeth a hyfforddiant.

Mae'r rhain yn heriau y gellir eu datrys, a bydd y penawdau canlynol yn edrych ar ffyrdd o wneud hynny. Yn amlwg, er mwyn i gyfleoedd diwylliannol weithio i bobl – ac iddynt hwy gael eu hyrwyddo gan drefnwyr Cymunedau yn Gyntaf ar lawr gwlad, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau polisiau strategol, a rhaglenni lleol sy'n cael eu llunio'n benodol ar gyfer anghenion lleol. Mae gan y gyrff diwylliannol swyddogaeth i'w chwarae wrth hysbysu'r ddwy ochr, ond mae angen cadw golwg manwl ar y cydbwysedd sydd rhwng yr hyn sy'n cael ei benderfynu'n genedlaethol a'i weithredu'n lleol. Golyga hyn bod y drafodaeth rhwng yr asiantaethau diwylliannol a chymunedol yn agored ac yn hyderus, bod yr achos am ragor o gyfleoedd diwylliannol yn cael ei gefnogi gan ganllawiau clir canolog i drefnwyr, a bod polisiau y gymuned ei hunan yn hyblyg ynghylch y ffyrdd y gall diwylliant helpu i wasanaethu'r amcanion ehangach a chanlyniadau fel llewyrch, iechyd a dysgu.

## ASTUDIAETH ACHOS: *Bling!*

Datblygwyd y rhaglen hon gan Swyddog Cymunedol Amgueddfa Cymru. Cafwyd arian cyfatebol yn uniongyrchol drwy Gronfa Ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf, a weinyddir gan Gyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cymru. Datblygwyd y cais yn fewnol, gan adeiladu ar waith prosiectau blaenorol fel Ar Dir Cyffredin. Amgueddfa Cymru a gyflwynodd y prosiect, gan gynnwys cyfranogwyr a grwpiau o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf drwy bartneriaethau a oedd eisoes yn bodoli a rhai newydd. Roedd cyfanswm o 20 o Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Yn ei hanfod, roedd *Bling!* yn cyfuno'r celfyddydau a'r amgueddfeydd i ddarparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc drwy edrych ar sut y caiff metalau gwerthfawr, trysorau ac addurniadau eu defnyddio i fynegi chwaeth, delwedd a statws personol. Gwnaeth y bobl ifanc ddatganiad am eu cefndir, eu ffordd o fyw neu eu dyheadau drwy greu eu 'bling' eu hunain. Gweithiodd y grwpiau gydag artistiaid a oedd yn gallu cynnig gwybodaeth a sgiliau arbenigol i helpu'r bobl ifanc i wireddu eu syniadau. Amcan y prosiect oedd annog creadigrwydd, ennyn diddordeb mewn dysgu, gwella cyrhaeddiad ac ysgogi'r dychymyg.

Ymwelodd y grwpiau ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i edrych ar yr arddangosfeydd, i weithio gyda churaduriaid a mynd tu ôl i'r llen i weld y gemwaith, yr arteffactau a'r gemau yn eu casgliadau. Drwy'r ymweliadau hyn, cafodd y grwpiau flas ar y gwahanol syniadau o'r hyn y gallai 'bling' ei olygu – modrwy? Tarian Rufeinig? Llun eiconig? Gall 'bling' fod yn rhywbeth sy'n dangos cyfoeth, statws, aelodaeth o grŵp penodol, neu gall fod yn wrthrych ac iddo werth personol, yn drysor teuluol neu'n addurn.

Cynhyrchodd y bobl ifanc waith ar gyfer arddangosfa grŵp Bling yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe yn ogystal â darnau i'w harddangos yn eu Hamgueddfa Genedlaethol leol. Roedd yr arddangosfeydd yn arddangos gwaith bywiog a lliwgar y grŵp gan wneud cysylltiadau rhwng 'bling' y bobl ifanc a gwrthrych yr amgueddfa a ysbrydolodd y bobl ifanc a'u cymuned.

Roedd ymrwymiad i herio rhwystrau wrth wraidd pob un o'r prosiectau, yn rhai go iawn neu'n rhai dychmygol, sy'n atal pobl ifanc rhag gwireddu eu potensial ac rhag newid pethau yn yr ardal maent yn byw ynddi. Roedd sgiliau craidd iaith, llythrennedd a rhifedd yn ogystal â sgiliau allweddol ehangach fel TG, datrys problemau, gweithio gydag eraill a gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain yn sail i bob prosiect.

Roedd y rhaglen wedi'i hachredu drwy weithgareddau'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu (ASDAN). Corff datblygu cwricwlwm a dyfarnu yw ASDAN. Mae'n cynnig rhaglenni a chymwysterau wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau ar gyfer dysgu, cael swydd a bywyd yn gyffredinol. Mae Gweithgareddau Cwrs Byr ASDAN yn achredu hyd at 60 o oriau o weithgareddau amrywiol. Gellir ei ddefnyddio yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, ond mae'n arbennig o addas ar gyfer achredu gweithgareddau a gynhelir mewn prosiectau i bobl ifanc nad ydynt yn ffitio'n syml i heriau penodedig a gwaith sy'n seiliedig ar weithgareddau. Cafodd 74 o bobl ifanc ddyfarniadau ASDAN.

Yn gyffredinol, nododd Amgueddfa Cymru fod gweithio gyda thimau Cymunedau yn Gyntaf yn brofiad sy'n rhoi boddhad, gan nodi ymrwymiad clir ganddynt i wrando ar y bobl ifanc, ymwneud â hwy, eu hannog a'u helpu i wneud cyfraniadau positif i'w cymuned.



© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## Gweithio'n Lleol: Mwy o Gyfraniad yn Lleol

Mae'n rhaid i unrhyw ymgais i ddod â buddiannau diwylliannol a chymunedol at ei gilydd ar lawr gwlad ddod o hyd i ffyrdd newydd y gallai y sefydliadau cenedlaethol alluogi a chefnogi partneriaid lleol ar lawr gwlad i sicrhau bod asedau cyfalaf lleol yn gweithio'n galetach ar gyfer y gymuned. Ar yr un pryd, mae angen cymorth ar y bobl sydd eisoes yn gweithio'n galed yn lleol i gyd-gysylltu eu buddiannau cyffredin.

Mae'r strategaethau sy'n cael eu hawgrymu yn y bennod hon yn gysylltiedig â thri model o ymgysylltu i roi cyfalaf ac adnoddau dynol at ei gilydd yn fwy effeithiol;

- sefydlu diwylliant yn well o fewn y gymuned;
- cyflymu'r broses sy'n ei gwneud yn bosibl i sefydliadau cenedlaethol 'weithredu'n lleol'; a
- rhannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau

Er bod rhaglenni ledled Cymru megis *Cyrraedd y Nod*, neu *Bling*, mae rhan fwyaf y profiadau diwylliannol sy'n cael eu datblygu gan y cyrff cenedlaethol sy'n targedu ardaloedd neu bobl o gefndiroedd difreintiedig yn benodol yn cael eu darparu drwy brosiectau bach lleol. Mae teimlad yn aml bod y rhain, i ryw raddau, wedi eu trefnu o'r tu allan i'r ardal, ac nad ydynt yn gadael unrhyw waddol hirdymor. Pa mor dda bynnag ydynt – ac mae nifer ohonynt yn wych – maent yn aml yn manteisio ar gyfle penodol, ac nid ydynt yn gynaliadwy.

Mae'r manteision yn amlwg i drefnwyr Cymunedau yn Gyntaf, pan fyddant yn rhan o'r trefniadau. Dywedodd un rheolwr clystyrau wrthym *'gall y celfyddydau...pan gaiff ei ddarparu'n lleol mewn amgylchiadau lleol helpu i osgoi unigedd a magu hyder'*. Yn wir, pan gynhelir rhaglenni 'blasu', boed yn adeiladu mosaic, greu cerddoriaeth, neu glybiau llyfrau, maent yn llwyddiannus iawn pan fyddant yn cael eu cynnal mewn lleoliadau cyfarwydd o fewn y gymuned,

boed yn neuadd y gymuned, neu yn y clwb rygbi lleol. Gallant hyrwyddo mwy o berchnogaeth a mwy o gynhwysiant cymdeithasol.

Ni all Plant y Cymoedd, sydd wedi mynd yn enghraifft o waith neilltuol a chynaliadwy gyda'r gymuned, bwysleisio digon pa mor bwysig oedd i unrhyw beth sy'n cael ei gynnig i gymunedau lleol gael ei berchnogi a'i lunio ganddynt, a'i fod i barhau.

*'gall y celfyddydau...pan gaiff ei ddarparu'n lleol mewn amgylchiadau lleol helpu i osgoi unigedd a magu hyder'*  
~ *Rheolwr clwstwr Cymunedau yn Gyntaf*

Mae'n hollbwysig bod y gwersi yn cael eu dysgu o'r hyn sydd eisoes yn gweithio. Mae rhai mentrau yn cael eu cynnal fel elusennau ac yn tynnu ar arweinyddiaeth garismataidd. Mae canu, wrth gwrs, wedi bod yn hynod bwerus erioed fel gweithgarwch cymunedol yng Nghymru. Fel y mae'r rhaglen boblogaidd *CânSing*, a gynhelir gan CAST Cymru, yn ei awgrymu, gall ganu helpu i wella sgiliau iaith yn ogystal â hyder. Un o'r mentrau mwyaf llwyddiannus yn ddiweddar yw *Only Boys Aloud*; tra bod *Live Music Now* wedi bodoli ers amser hwy ac mae'n cyrraedd cynulleidfa wahanol. Mae'r ddwy fenter yn dystiolaeth wych o bŵer canu a cherddodriaeth i gysylltu â phobl ifanc (gweler yr astudiaeth achos).

# ASTUDIAETH ACHOS: Asiantaeth Ffilm Cymru – Ffilm yn Afan

Asiantaeth Ffilm Cymru sy'n rhedeg prosiect Ffilm yn Afan ar gyfer ardal ddifreintiedig iawn yng Nghymru ac fe'i ariennir gan grant gwerth £250,000 gan gynllun Pobl a Lleoedd y Gronfa Loteri Fawr. Un o sbardunwyr y prosiect oedd diffyg gweithgareddau dilwylliannol ar gyfer llawer o'r bobl a oedd yn byw yn yr ardal.

Gan weithio gyda phartneriaid fel Cymunedau yn Gyntaf, Canolbwynt Ysgolion Ffederal Afan Uchaf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, a Chanolfan Celfyddydau Pennod, mae'r prosiect wedi creu sinema symudol y mae'r gymuned yn ei rhedeg a'i rhaglennu. Yn ogystal â hynny, mae'r prosiect yn cynnal gweithdai cynhyrchu ffilmiau a gweithdai llythrennedd ynghyd â mentora mewn busnes a marchnata i greu sgiliau newydd a chyfleoedd ar gyfer profiad gwaith.



© Asiantaeth Ffilm Cymru

Law yn llaw â'r prosiect, mae hen neuadd lesiant y glowyr ym Mlaengwynfi wedi ail agor ei drysau i gynulleidfa oedd ffilm ar ôl mwy na hanner canrif. Ail-enwyd y neuadd yn ddiweddar yn Neuadd Gymunedol Glowyr Gwynfi ar ôl i bentrefwyr Abergwynfi a Blaengwynfi gymryd rheolaeth ohoni. Mae'r lleoliad yn cynnal sinema Ffilm yn Afan fel rhan o fenter adfywio cymdeithasol sydd hefyd yn cynnwys campfa, clwb llyfrau a chyfarfodydd pensïynwyr, ac erbyn hyn mae'n ganolbwynt i'r gymuned gyfan unwaith eto.

Mae Asiantaeth Ffilm Cymru yn credu'n gryf fod prosiectau fel Ffilm yn Afan, lle mae'r gymuned yn flaenllaw iawn wrth drefnu rhaglen o weithgareddau, yn fodel pwysig o gynnwys y gymuned. Mae'n enghraifft o sut y gall cymuned ailgydio yn ei hasedau diwylliannol a'u hail-ddefnyddio mewn modd sy'n berthnasol iddynt hwy, drwy weithdai dysgu gydol oes, dangos ffilmiau'n gyson a chynnal gweithgareddau cymdeithasol. Gall aelodau o'r gymuned sy'n cael eu mentora mewn meysydd fel marchnata a datblygu mentrau fynd ymlaen i ddatblygu eu sgiliau ymhellach drwy lwybrau i ddysgu wedi'u hachredu ac mewn rhai achosion, symud ymlaen i addysg bellach.

Mae nifer o gymunedau'n manteisio llawer hefyd ar effaith bwerus ond dros dro fel arfer sefydliadau cenedlaethol sy'n darparu prosiect lleol gyda phartneriaethau lleol, ysgolion yn aml, a sefydliadau gwirfoddol. Mae rhai yn fwy strategol ac yn parhau'n hwy nag eraill: Mae Asiantaeth Ffilm Cymru yn torri tir newydd drwy sefydlu prosiect, gyda chefnogaeth Y Gronfa Loteri Fawr, Ffilm yn Afan (gweler yr astudiaeth achos).

Mae sefydliadau cenedlaethol eraill wedi datblygu modelau unigol o allgymorth. Er enghraifft, mae Opera Genedlaethol Cymru wedi cyrraedd yn ddwfn i mewn i ardaloedd o amddifadedd yn Wrecsam yn ystadau Caia Park a Phlas Madoc. Fel a ddywedwyd, *'er bod opera yn rwystr ohono ei hun... Mae hefyd yn bwerus iawn... mae'n ffordd o edrych ar storïau lleol a phersonol, ac o roi syniadau am yrfaedd.* Mae Llenyddiaeth Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru a National

Theatre Wales wedi datblygu dulliau penodol o gysylltu â'r gymuned, o adeiladu ar brosiectau a pherfformiadau sy'n anelu at adael effaith barhaus ar fywydau pobl ifanc. Mae'r rhain yn enghreifftiau gwych o waith cymunedol llwyddiannus- – gan ddod â phobl i mewn i ddod yn artistiaid eu hunain, cantorion, neu storiwyr, yn ogystal â chynulleidfaoedd. Mae gan bob un o'r prosiectau hyn rhywbeth i'w rannu ag eraill, a gyda chymunedau eraill.

Mae pob un o'r prosiectau hyn yn cynnig modelau gwahanol a phwerus o arfer da: wedi'u lleoli'n ddwfn yn y gymuned, a'u hysbrydoli gan yr hyn y mae'r gymuned yn ddweud ei bod eu hangen ac a ddaw i'w gweld! Ymateb i storïau y gymuned ei hun; defnyddio technoleg newydd i gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosib; mentora a chynnwys pobl ifanc, yn benodol, ar eu telerau eu hunain; dathlu a dangos llwyddiant. Dyma wersi y gall pob un o'r sefydliadau diwylliannol a chymunedol sydd eisio cydweithio eu dysgu. Dylid lledaenu'n eang yr arloesedd a'r arfer da ynghylch pam y mae rhai prosiectau'n gweithio'n dda.

## 4.1 Sicrhau bod Diwylliant yn Rhan o'r Gymuned

Yr hyn sy'n amlwg am y prosiectau hyn yw eu bod yn rhagorol, ac yn lleol – ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i fod yn brosiectau dros dro. Maent yn mynd i'r cymunedau, yn cymeryd y bobl ifanc ac yn eu cael i ymwneud â gweithgareddau amrywiol. Pan mae modd iddynt gynnig cysylltiad mwy hirdymor, mae'r canlyniadau – cynnydd gwirioneddol mewn ymgysylltu a sgiliau – i'w gweld yn amlwg.

Fodd bynnag, y gŵyn fawr yw nad yw'r cysylltiadau yn cael eu cynnal, mai 'prosiect' ydynt yn hytrach na 'rhaglen' neu 'bartneriaeth'. Ychydig ymdrech sy'n cael ei wneud i gysylltu â phartneriaid lleol posibl a allai gynnwys llyfrgelloedd, archifau neu amgueddfeydd a allai barhau â'r gwaith da yn yr hirdymor. I aralleirio Archifau Morgannwg yn un o'r seminarau a gynhaliwyd gennym rhwng y sefydliadau diwylliannol: *'ni yw'r partneriaid parhaol: dylem fod yn gweithio gyda chi i ddatblygu pethau'*.

## ASTUDIAETH ACHOS: Only Boys Aloud a Live Music Now

Sefydlwyd *Only Boys Aloud* (sy'n rhan o elusen ALOUD) gan Tim Rhys-Evans ar ôl llwyddiant ysgubol *Only Men Aloud* wrth ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y BBC ar gyfer y DU gyfan, Last Choir Standing. Mae *Only Boys Aloud* yn defnyddio pŵer cerddoriaeth a chanu i drawsnewid bywydau bechgyn yng nghymoedd y De; i roi cyfle iddynt fod yn rhan o'r traddodiad corau sydd gennym yng Nghymru ac i feithrin ethos o uchelgais ymhlith bechgyn yn eu harddegau yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn nhermau economaidd a chymdeithasol yn y wlad.

Sefydlwyd *Only Boys Aloud* yn ystod gwanwyn 2010. Erbyn hyn mae'n cynnwys 10 o gorau rhanbarthol sy'n cynnwys dynion ifanc rhwng 14 a 19 ar draws y De gan ymestyn o Gwambrân i Cross Hands. Yn 2013 sefydlwyd dau gôr newydd yng Nghaerdydd ac yn Abertawe ar ôl sicrhau cyllid gan Gelfyddydau a Busnes Cymru yn sgil y nawdd gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality.

Caiff aelodau *Only Boys Aloud* eu mentora a'u hyfforddi gan aelodau o *Only Men Aloud* ac maent yn cael cymorth gan arweinwyr cymunedol gwirfoddol. Mae eu calendr yn llawn digwyddiadau ar lefel genedlaethol fel côr llawn o 170 o aelodau ac mewn grwpiau llai ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Ers ymddangos yn y rownd derfynol yn sioe ITV Britain's Got Talent fis Mai 2012, mae'r rhaglen wedi'i chydabod yn rhyngwladol.

Mae *Only Boys Aloud* yn rhoi cyfleoedd sy'n gallu newid bywydau ei aelodau gan ddefnyddio canu i annog hunanhyder a lles tra'n rhoi sgiliau newydd i bobl ifanc – sgiliau cerddorol, sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd cyffredinol – yn ogystal â'u hannog i fod yn rhan o'r gymuned.

Dywedodd un o'r aelodau: "Mae *Only Boys Aloud* wedi newid fy mywyd yn llwyr. Mae wedi rhoi

*cyfeiriad i'm bywyd ac mae wedi rhoi hyder imi gredu ynof i fy hun ac mae wedi fy helpu i sylweddoli bod unrhyw beth yn bosibl a bod cyfleoedd ar gael i bob math o bobl o bob math o gefndiroedd"*

Luke Depace, *Only Ebbw Vale Boys Aloud*

Elusen a sefydlwyd ym 1977 yw *Live Music Now*, ac mae ganddi gangen yng Nghymru er 1990. Mae'n cynnal rhyw 250 o gyngherddau bob blwyddyn ledled Cymru. Prif ffocws y cynllun yw cartrefi gofal ac ysgolion arbennig. Mae hefyd wedi partneru gydag awdurdodau lleol i ddarparu cyngherddau yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Yn ogystal â darparu rhaglen o ryw 250 o gyngherddau y flwyddyn ledled Cymru, mae hefyd wedi profi ei gwerth wrth ddatblygu doniau cerddorol Cymry ifanc o bob cefndir.



© Nick Treharne

Mae'r byrhoedledd hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y cysylltiadau gydag ysgolion. Ble y mae cysylltiadau cynaliadwy maent yn tueddu i ganolbwyntio ar yr un ysgol ffodus, neu glystyrau o ysgolion. Roedd cyllido tymor byr, a darpariaeth anghyson sy'n codi disgwyliadau, yn creu brwdfrydedd dros dro, na ellir ei feithrin, a hyn yn gŵyn gyffredin.

Y lle rhesymegol i ddechrau felly yw beth sydd ar gael a'r hyn sy'n cael ei wneud eisoes, ac i geisio cynnwys partneriaid parhaus lleol i sicrhau effaith cynaliadwy.

Mae tair strategaeth sydd yn fy marn i yn barod i'w datblygu ymhellach ac i weithio arnynt ar y cyd:

- Gwneud y gorau o arfer da sy'n cael ei ddefnyddio eisoes, a ddaw i'r amlwg yn benodol yn y ffordd y mae'r llyfrgelloedd mwyaf arloesol yn dod yn ganolfannau cymunedol a diwylliannol;
- Gwneud y gorau o'r cymorth a'r cymelliannau sydd ar gael i 'ganolfannau

cymunedol' fel amgueddfeydd ac archifau lleol, fel y gallant chwarae mwy o ran yn y gymuned fel partneriaid parhaus ar gyfer rhaglenni dysgu a rhaglenni diwylliannol; a

- Gwneud y gorau o gyfleoedd i sefydliadau cenedlaethol rannu lleoliadau yn lleol, ac i fynd ag arbenigedd a chasgliadau i gymunedau, gan ddefnyddio llai ar leoliadau cymunedol confensiynol.

## 4.2 Llyfrgelloedd ar Gyfer y Dyfodol

Mae llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd mae'n debyg yn un o'r pethau amlycaf sy'n **'angori' diwylliant yn lleol** – ac mae nifer eisoes yn gwthio'r ffiniau o ran yr hyn y gellir ei wneud i groesawu ac i ofalu am ymwelwyr, ac i gymeryd eu casgliadau gwerthfawr allan i'r gymuned.

O'r rhain, mae rhai o'r datblygiadau mwyaf arloesol bellach yn digwydd yn y llyfrgell leol, sydd, mewn rhai ardaloedd yn fwy na dim ond lle i fenthyca llyfrau, ond yn ganolfan gwybodaeth, canolfan hyfforddiant TGCh, dysgu i'r teulu, oriel gelf, lle i ddangos ffilmiau, a lleoliad ar gyfer mentrau cymdeithasol. Mae nifer wedi cymeryd y cam nesaf – lleoli gwasanaethau ar yr un safle fel y gall benthyca llyfr fod un cam i ffwrdd o ddelio â mater sy'n gysylltiedig â budd-daliadau.

Mae'r llyfrgelloedd cymunedol hynod arloesol hyn – sy'n ganolfan dysgu yn rhannol, a hefyd yn ganolfan ddiwylliannol ar gyfer y gymuned – yn allweddol i'r hyn y gellir ei wneud yn y dyfodol. Maent yn arloesol, ond nid oes amheuaeth, wedi ymgymryd â gwasanaeth rheng flaen o ran TGCh, gwasanaethau gyrfaoedd a budd-daliadau, y byddant yn dod o dan straen cynyddol yn y dyfodol, hefyd. Gyda nifer o wasanaethau, fel budd-daliadau, yn mynd fwyfwy ar-lein, yn hytrach na thorri lawr ar

lyfrgelloedd a'u cau, dylent gael eu hystyried fel y canolfannau dysgu a gwasanaethu amlwg ar gyfer cymunedau lleol.

Mae rhaglen gyfalaf Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol wedi ei harwain, mewn steil, gan CyMAL, gan drawsnewid y ddarpariaeth llyfrgelloedd a'r hyn y mae pobl yn ei feddwl o lyfrgelloedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2010). Mae'n amlwg y dylai'r rhaglen hon barhau i fod yn flaenoriaeth, gyda'r math hwn o effaith. Ond dylid hefyd ledaenu'r arfer neilltuol sydd wedi datblygu, i ragor o lyfrgelloedd lleol, fel bod modd iddynt hwy hefyd wasanaethu at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol ehangach. Mae'r hyn sydd wedi'i gyflawni yng Nghaerffili yr un mor berthnasol i arweinyddiaeth a gweledigaeth ag ydyw o ran adnoddau.

Rwyf wedi gweld nifer o enghreifftiau, mewn llyfrgelloedd yn bennaf, ond nid yn y manau hyn yn unig, o gyd-leoli gwasanaethau, gyda darpariaeth

## ASTUDIAETH ACHOS: Gwasanaethau Llyfrgell Caerffili

Er 2006 mae £2.5 miliwn wedi ei wario ar ailwampio 11 o 18 o gyfleusterau Llyfrgell y Bwrdeistref Sirol. Mae cyllid grant Llywodraeth Cymru, drwy Raglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol CyMAL, wedi helpu gyda'r adnewyddu a'r ailwampio, ac mewn rhai achosion, ail-leoli 8 o'r cyfleusterau hyn, gan sicrhau gwerth £1.1 miliwn o'r cynllun cyllid cystadleuol hwn. Mae cyfanswm y gost o'r gwaith diweddar o wella adeiladau'r llyfrgell, gan gynnwys yr hyn y bwriedir ei wario ar y datblygiad newydd yn nhref Caerffili, gan gynnwys yr holl grantiau a buddsoddiadau Datblygwyr/Cymdeithasau Tai, yn dod i fwy na £12 miliwn.

Mae'r cynnydd sylweddol yn y lle sydd ar gael i'r bobl leol grwydro Llyfrgelloedd y Cyngor yn 2012-13 yn dangos effaith buddsoddiad y Bwrdeistref Sirol o'i gymharu â 2006-07. Mae angen lle ar gyfleusterau llyfrgell modern i greu amgylchedd cyhoeddus croesawgar, i gadw llyfrau a deunyddiau eraill mewn modd a fydd yn denu ymwelwyr, i ddarparu gwasanaethau ychwanegol gan gynnwys ardaloedd dysgu, lle i gynnal cyfarfodydd, a llefydd i brynu bwyd a diod. Yn ystod y chwe mlynedd ddiwethaf, mae cynnydd o 33% yn y lle sydd ar gael mewn cyfleusterau llyfrgell y Cyngor ar gyfer cwsmeriaid. Bydd 65% rhagor o le i'r cyhoedd grwydro'r cyfleusterau ar ôl cwblhau y gwaith ar Lyfrgell a Chanolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Caerffili o'i gymharu â'r lle a oedd ar gael iddynt yn 2006.



© Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili



Yn ogystal â hynny, mae 11% rhagor o ymwelwyr wedi ymweld â Llyfrgelloedd dros y pedair blynedd ddiwethaf a chynnydd cymesur yn nifer y benthyciadau llyfrau yn ystod yr un cyfnod. Gellir olrhain y cynnydd hwn yn uniongyrchol i'r adeiladau gwell a'r gwasanaethau gwell sydd ar gael i'r bobl leol. Rhaglwelir y bydd y duedd hon yn parhau wrth i Gapel Bargoed a Phalas Risga sefydlu ymhellach tra y bydd Llyfrgell newydd Aberbargoed, Trecelyn, Bedwas a Chaerffili yn barod yn 2013.

Adnabyddir y Gwasanaeth yng Nghymru am fod yn Awdurdod blaenllaw yn nhermau cronni Gwasanaethau Llyfrgell gyda phartneriaid ategol eriall. Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft Capel Hanbury ym Margoed, mae'r Gwasanaethau Llyfrgell wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, aelodau'r capel lleol, a siop goffi sy'n fenter gymdeithasol i ddarparu cyfleuster o'r radd flaenaf i'r cyhoedd. Roedd hwn yn gynllun uchelgeisiol gwerth £3.4 miliwn i drawsnewid ac ymestyn Capel y Bedyddwyr ar Hanbury Road, adeilad rhestredig dwy seren, i fod yn ganolbwynt i'r adfywio pellach sy'n digwydd ym Margoed. Cyflenwyd y cynllun mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai United Welsh. Mae'r prosiect wedi arwain at gynnydd o 133% yn y lle sydd gan y cyhoedd i grwydro o amgylch gwasanaethau'r Llyfrgell gan eu bod bellach wedi'u rhannu ar draws tri llawr gan gynnwys Canolfan Hanes Teuluol a Lleol, lle i ddysgu, Llyfrgell Fenthyg ar gyfer plant ac oedolion a darpariaeth eang ar gyfer oedolion ifanc – gan gynnwys lolfa gydag offer Xbox a Wii.

Mae 40,000 o eitemau ar gael i'w benthycio neu i gyfeirio atynt ynghyd â 22 o gyfrifiaduron ar gyfer y cyhoedd ym Margoed, a cysylltiad di-wifr â'r we drwy'r cyfleusterau. Mae lle i addoli o hyd yn yr adeilad a chaiff ei ddefnyddio bob dydd Sul gan Fedyddwyr Hanbury Road – gan gynnwys y pulpud, a'r seddi gwreiddiol a phwll bedyddio newydd.

Mae Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid yn yr adeilad sy'n rhannu ei phrif dderbynfa gyda'r Llyfrgell. Denodd y cyfleuster newydd 164,000 o ymwelwyr yn ei flwyddyn gyntaf, sef cynnydd o 134% yn nifer yr ymwelwyr a gafwyd y flwyddyn flaenorol. Cafwyd 49,000 o fenthyciadau llyfrau a llyfrau clyweledol yn ystod ei blwyddyn gyntaf, sef cynnydd o 95% ar y flwyddyn flaenorol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a phartneriaid allweddol gan gynnwys Cymunedau 2.0 a Dewch ar-lein Caerffili wedi bod yn rhagweithiol o ran darparu sgiliau digidol i'r bobl leol, gan arwain y ffordd gyda menter Dydd Gwener Digidol yn llawer o brif lyfrgelloedd y Bwrdeistref, gan gynnwys Bargoed. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle i'r bobl leol gael cymorth gyda sgiliau digidol a chyda gwasanaeth Universal Jobmatch a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â chwilio am swydd. Hyd yn hyn, mae mwy na 650 o bobl leol wedi defnyddio gwasanaeth Dydd Gwener Digidol sy'n rhan o gynllun peilot credyd cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Gwasanaethau'r Llyfrgell yn gweithio'n agos â Choleg Ystrad Mynach, sydd erbyn hyn yn rhan o Goleg y Cymoedd, i helpu myfyrwyr i ddarllen yn eu hamser hamdden drwy gasgliad arbennig o ddeunydd y mae'r bobl ifanc wedi eu dewis eu hunain.

Mae Clwb Ffilm ar gyfer Pobl Ifanc a ariennir gan Lywodraeth Cymru (CyMAL) yn ceisio cysylltu â phobl ifanc y bwrdeistref drwy'r sinema a thrwy gynhyrchu ffilmiau. Mae'r cynllun yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Palas Risga, hen sinema restredig, lle mae Gwasanaethau'r Llyfrgell yn cydweithio ag Adran Datblygu'r Celfyddydau yr Awdurdod ac mae Zoom Cymru i gynnal nosweithiau ffilm bob mis a grŵp ffilm creadigol bob wythnos.

ddiwylliannol yn cael ei chynnig ochr yn ochr â gwasanaethau cymunedol eraill. Gall cyd-leoli gwasanaethau fod yn ffordd hynod effeithiol o amddiffyn y gwasanaethau hyn drwy leihau'r adnoddau sy'n cael eu dyblygu.

Rwy'n credu bod posibilrwydd hefyd o edrych ar ymestyn y model ar gyfer buddsoddi mewn llyfrgelloedd ymehllach, drwy o bosib gynnwys amgueddfeydd lleol mewn rhaglen fel hon neu raglenni tebyg.

### ARGYMHELLIAD 3

Llywodraeth Cymru, drwy CyMAL, i **barhau i gefnogi llyfrgelloedd cyhoeddus i'w trawsnewid yn ganolfannau diwylliannol cymunedol**, gan gynnwys rhannu safleoedd gyda gwasanaethau cymunedol eraill ble y bo'n briodol, ac **edrych ar y posibilrwydd o ehangu'r dull hwn o weithio i sectorau eraill fel amgueddfeydd lleol.**

## 4.3 Gwneud Mwy o Ddefnydd o Bartneriaid Diwylliannol Lleol

Mae'r ail strategaeth yn mynd i'r afael â phroblem gysylltiedig – sef sut i gyfuno'r elfennau diwylliannol yn y gymdeithas gydag anghenion y gymuned. Mae profiad ac adnodd helaeth yn yr amgueddfeydd, y llyfrgelloedd, yr archifau a'r canolfannau celfyddydol lleol – adnodd nad yw yn cael ei werthfawrogi mewn nifer o fannau. Gallai creu partneriaethau lleol gyda ysgolion, er enghraifft, dynnu sylw at yr adnoddau hyn mewn dull newydd; mae angen lle ar blant i wneud gwaith cartref, ac ar bobl ifanc ar gyfer astudio ac arddangos eu gwaith eu hunain; mae angen cornel dawel ar grwpiau darllen; ac mae angen lle ar gyfer dangos ffilmiau a phrosiectau yn lleol. Caiff adnoddau lleol eu hanwybyddu yn aml fel posibiladau ond mae nifer ohonynt yn addas i gynnal y gweithgareddau hyn, ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli er mwyn cynyddu eu capasiti eu hunain.

Gall archifau fod yn adnodd sy'n cael ei anwybyddu – sy'n drist iawn o ran yr hyn sydd ganddynt, a'r diddordeb presennol mewn

hanes personol a theuluol, ac o ran, hefyd, eu prif swyddogaeth fel ffynhonell gwybodaeth ynghylch hanes eu cymuned. Gallant hefyd chwarae rôl yn datblygu ac yn cefnogi dysgu a sgiliau (gweler astudiaeth achos prosiect CLOCH ym mhennod 6).

I wneud y mwyaf o amgueddfeydd lleol, yn benodol mae gan Amgueddfa Cymru a CyMAL gyfle i ymateb yn bositif i'r hyn y mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd ei hun eisoes yn galw amdano. Mae'r Gymdeithas yn gwybod mai'r cam pwysicaf mae'n debyg y gall amgueddfeydd ei gymeryd i leihau tlodi yw i gael mwy o bobl sydd mewn tlodi i fynychu amgueddfeydd. Maent yn dadlau y gall amgueddfeydd hefyd wasanaethu fel asiantwyr cynhwysiant. Mae ganddynt le gwerthfawr yn ogytal ag adnoddau. Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd felly yn gryf o'r farn y dylai pob amgueddfa yng Nghymru bennu ac adrodd yn ôl ar dargedau ar gyfer cynyddu'r cyfraniad gan bobl o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf. Er mwyn gwneud hyn, mae angen mwy na dim ond anogaeth a chefnogaeth ar gyfer y gwaith hwn, ond ffrydiau cyllido wedi'u diffinio, neu, yn fwy realistig yn yr hinsawdd bresennol, amodau sy'n gysylltiedig â ffrydiau presennol i gynnal a rhannu arfer da. Byddai hyn nid yn unig yn adeiladau ar gysylltiadau lleol ond gallu hefyd.

O ran hyn mae'n creu argraff mawr bod Pontio, y ganolfan gelfyddydau newydd yn Bangor, sy'n addo pethau mawr yn ddeallusol ac yn gelfyddydol, yn cael ei ddatblygu a'i lywio o'r cychwyn gan bobl lleol, eu hanes personol a'u dyheadau. Adeiladu ar y cysylltiad lleol o'r cychwyn cyntaf yw y ffordd ymlaen, mae'n amlwg.

Dylai'r sector diwylliannol yn ei gyfanrwydd gael ei herio a'i alluogi i ymestyn ei waith i'r gymuned leol. Rwy'n argymhell bod CyMAL, er enghraifft, yn sicrhau bod ei Strategaeth Amgueddfeydd newydd sy'n cael ei datblygu ar gyfer ei gweithredu o 2016 ymlaen, yn dangos yn benodol sut y bydd yn cefnogi amgueddfeydd lleol i ddod yn fwy arloesol drwy roi safleoedd ac adnoddau yn nwylo'r gymuned leol. Dylai strategaethau newydd

sydd wedi eu datblygu ar gyfer y celfyddydau, sectorau yr archif a'r llyfrgell, yn naturiol, adlewyrchu'r flaenoriaeth hon.

#### ARGYMHELLIAD 4

Llywodraeth Cymru i herio'r sector diwylliant, trwy gyfarwyddyd strategol a chyllidol a chymorth arall, i ehangu ymdrechion **i wneud eu sefydliadau yn ganolfannau cymunedol ac ehangu mynediad i bawb.**

### 4.4 Mynd â Diwylliant i Galon y Gymuned

Gall y newidiadau hyn helpu'n rhannol i fodloni'r corws o alwadau am *'gyfres o bartneriaethau mwy hirdymor, mwy eang'* a mwy o gyfraniad gan y gymuned wrth greu'r partneriaethau hynny. Ond mae rhwystredigaeth cyffedinol hefyd bod casgliadau gwych y genedl ond ar gael ac yn gyfarwydd i'r lleiafrif o bobl sy'n gallu ymweld â hwy.

Mae CyMAL, y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a Cadw eisoes yn dod o hyd i ffyrdd newydd o fynd â chasgliadau cenedlaethol allan i gymunedau, ac o gael cymunedau lleol i ymwneud â'r dreftadaeth ddiwylliannol. Mae'r cynllun Cyfoeth Cymru Gyfan, partneriaeth rhwng CyMAL, Amgueddfa Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac amgueddfeydd lleol yn rhaglen arbennig o nodedig i wneud hyn. Rwy'n cael fy nghalonogi o weld y Llyfrgell Genedlaethol yn dangos ei brwdfrydedd fwyfwy dros fynd â chasgliadau allan i wahanol leoliadau a chymunedau, gyda'r posibilrwydd o gydweithio â Merthyr Tydful ar y gweill. Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd yn fodel arloesol gydag amgueddfa ac oriel newydd ym Mangor yn cynnal pump o leoliadau llai ledled y sir sy'n gallu arddangos casgliadau pwysig yn rhanbarthol ac yn lleol. Bydd y strwythur yn cael ei gefnogi gan gynllun gwirfoddolwyr newydd cryfach.

Mae nifer o amgueddfeydd a gwasanaethau archif eraill yn mynd â'u casgliadau allan i leoliadau yn y gymuned. Mae nifer mwy ohonynt yn awyddus i ddod o hyd i ffyrdd o wneud hynny – ac yn wir i ddysgu o arfer da ac ehangu fel eu bod yn cyrraedd manau cymharol 'ddieithr' – fel cartrefi preswyl lleol, ysbytai, canolfannau cymunedol, meddygfeydd teulu ac ysgolion lleol. Dylai'r sector diwylliant yn bendant edrych ar sut y gellid gwneud hyn – er bod yn rhai cydnabod nad yw hyn yn gynnig hawdd. O ystyried pa mor fregus a gwerthfawr yw'r casgliadau mae anawsterau gwirioneddol yn gysylltiedig â chadwraeth ac yswiriant. Ond mae ffyrdd arloesol yn gysylltiedig â hyn, fel defnyddio'r cyfrwng digidol, copïau, neu arteffactau nad ydynt yn fregus, y gellid eu hastudio.

Mae heriau penodol ar gyfer rhai etholwyr a gwobrau penodol i'w hennill o ymwneud â'r rhain. Mae'n aml yn anodd iawn ennyn diddordeb pobl ifanc sydd wedi dadrithio, a dyna pam y mae prosiectau fel y rhai a gynhelir gan Amgueddfa Cymru yn ei rhaglen allgymorth gymunedol amrywiol, a Cadw gyda rhaglenni fel *Mortaria* yn gweithio gyda throseddwy'r ifanc, yn werth eu hefelychu.

O'r dechreuad hwn, byddem yn gobeithio y gall y cyrff cenedlaethol roi mwy o flaenoriaeth i brosiectau ar y cyd mewn cymunedau lleol drwy ddod o hyd a defnyddio safle ar y cyd i arddangos a dehongli casgliadau sy'n gysylltiedig â lle neu thema ddiwylliannol.

#### ARGYMHELLIAD 5

Sefydliadau diwylliannol i **'weithio'n lleol'** a **'bod yn sefydlog'** drwy roi mwy o flaenoriaeth i brosiectau ar y cyd mewn cymunedau lleol a rhannu lleoliadau ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau.

Mae un enghraifft o hyn eisoes yn digwydd, gydag Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol yn llunio partneriaeth gydag Amgueddfa Wrecsam i hyrwyddo mynediad i'r casgliadau cenedlaethol. Hoffwn weld y model

hwn yn cael ei ehangu i gael y posibilrwydd cyfoethog o gydweithio'n ehangach gyda chyrrff celfyddydol cenedlaethol a lleol fel bod modd casglu y celfyddydau, cerddoriaeth, archaeoleg, yr archifau, a storïau at ei gilydd i adrodd stori'r lle. Yn wir, gallai hyn fod yn ysbrydoliaeth pe gallai'r asiantaethau celfyddydol, gan adeiladu ar lwyddiant yr arddangosfa gydweithredol o ddiwylliant Cymreig yn Washington (Arddangosfa Smithsonian), gynllunio yn yr hirdymor am fersiwn genedlaethol neu lleol o'r Ddinas Ddiwylliant' – Gŵyl Ddiwylliant leol – a fyddai'n dod ag ystod lawn o ddigwyddiadau a phrofiadau diwylliannol at ei gilydd a hefyd i arddangos yr adnoddau digidol ar wefan Casgliad y Werin Cymru.

Mae posibilrwydd hefyd i adeiladau ar fenter bresennol Agor Drysau, rhaglen sy'n cael ei hariannu gan Cadw a'i threfnu gan yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, sy'n hyrwyddo mynediad i eiddo hanesyddol. Mae hyn yn gyfle amlwg, tra bod pobl yn rhan o'r cyffro o ddarganfod diwylliant yn lleol sy'n gysylltiedig â'r adeiladau a'r manau sy'n gyfarwydd iddynt, ond fel arfer ar gau iddynt – i ychwanegu cyfleoedd ar gyfer cerddoriaeth, theatr, a llenyddiaeth. Mae fframwaith cynllunio Dehongli Treftadaeth Cymru gyfan yn edrych am ffyrdd o harneisio cysylltiadau rhwng lleoedd, arteffactau ac archifau, a storïau pobl, yn lleol ac mae'n ymddangos bod posibilrwydd o ragor o gydweithio wrth fywiogi'r fframwaith hwn gyda gweithgarwch lleol. Mae'r posibilrwydd hefyd, rwy'n deall, o ddatblygu 'gŵyl lle' gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a byddem yn annog trafodaethau er mwyn gweld ble y gellid cydweithio.

## 4.5 Rhannu Gwybodaeth a Sgiliau

Gyda'r math hwn o bartneriaeth, byddai'n llawer haws hyrwyddo'r angen am wybodaeth, sgiliau ac adnoddau, ac i gynnal y cysylltiad hwnnw.

Ond un o'r cwynion mwyaf cyson, ac un o'r pwysicaf yw'r rhwystrau sy'n cael eu nodi

gan y diffyg cyfleoedd i gyfarfod, cyfathrebu a rhannu, ac i gydweithio. Yr allwedd yw cyfathrebu, ar y ddwy ochr – yn gymunedol ac yn ddiwylliannol. Pwysleisiodd y seminar cyntaf a gynhelais yn Abertawe rhwng clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a sefydliadau diwylliannol mai'r hyn oedd ei angen mewn gwirionedd oedd *'fod pawb yn gwella o ran dosbarthu gwybodaeth a datblygu cysylltiadau'*. Roedd nifer o ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith, er eu bod yn gweithio o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, bod y newidiadau i'r drefn, wrth i strwythur Cymunedau yn Gyntaf gael ei hadlinio o amgylch clystyrau, ac nad oedd un pwynt cyswllt, bod hynny'n gwneud cynllunio a chyflenwi rhaglenni yn anodd iawn. Roedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ein hymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Dywedodd Theatr Genedlaethol Cymru ei bod *'yn anodd iawn ar hyn o bryd i ddod o hyd i'r cyswllt i personél cywir i weithio gyda hwy ym mhob clwstwr Cymunedau'n Gyntaf. Byddai'n dda i gael person cyswllt ym mhob ardal sydd â dyletswydd i gydweithio gyda sefydliadau yn y sector diwylliannol a threftadaeth. O ganlyniad, byddai'n bosib creu ymlyniad mwy hirdymor a chydweithio'n well i gynig mwy o gyfleoedd'*.

Mae gan pob un o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf arweinydd dysgu wedi'i enwebu, sy'n galonogol, a hoffwn argymhell bod y person hwn yn cael ei enwi, a'u bod yn dod yn hysbys, fel y pwynt cyswllt i sefydliadau diwylliannol gysylltu â hwy ar gyfer partneriaethau posibl.

### ARGYMHELLIAD 6

**Arweinwyr Dysgu Cymunedau yn Gyntaf i'w nodi fel pwyntiau cyswllt,** a'r wybodaeth hon i gael ei dosbarthu'n glir, i ysgolion a sefydliadau diwylliannol sy'n ceisio datblygu rhaglenni ar y cyd â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf

Yn yr un ffordd mae angen i'r sefydliadau diwylliannol eu hunain fod yn glir pwy sy'n arwain ar gysylltu â'r gymuned ac i'w galluogi i gael mynediad i'r sgiliau angenrheidiol i wneud hynny.

Roedd cyfeiriad cyson hefyd at yr angen i ddeall sut i gysylltu â phobl leol – sut i dorri rhwystrau o ran canfyddiad pobl yn benodol. Fel y dywedodd un gymdeithas Dai: *‘ni allwn ddisgwyl i’r cymunedau hyn gysylltu’n broactif heb yn gyntaf dorri rhwystrau a herio camsyniadau’* – ond i wneud hynny’n iawn, meddai Cymdeithas yr Amgueddfeyd wrthym, *‘mae’n rhaid i sefydliadau diwylliannol weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sydd eisoes â’r sgiliau i weithio’n effeithiol gyda grwpiau o gleientiaid allweddol sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi’.*

Mae angen cael gwybodaeth glir a hygyrch am arferion enghreifftiol, prosiectau lleol a chenedlaethol, cyfleoedd ar gyfer cyllido a chyngor. Mae’r trefnwyr cymunedol eu hunain wedi ei gwneud yn glir mai yr hyn yr hoffent i’r asiantaethau diwylliannol ei wneud yw cynnig marchnata gwell a gwybodaeth mwy hygyrch. Un ffordd o weithio yn erbyn y diffyg cyd-ddealltwriaeth hwn fyddai cael cynllun cyfnewid ar gyfer rhoi trefnwyr Cymunedau yn Gyntaf ochr yn ochr â’r sefydliadau diwylliannol am gyfnodau byr – yn lleol ac yn genedlaethol – i ddod yn gyfarwydd ag adnoddau a dulliau o weithio gyda theuluoedd a phlant; ac i guraduron/ arweinwyr dysgu dreulio amser ochr yn ochr â threfnwyr cymunedol a theuluoedd.

## ARGYMHELLIAD 7

**Cyfnewidiadau/lleoliadau tymor byr** i gael eu hannog rhwng staff Cymunedau yn Gyntaf a staff o sefydliadau diwylliannol.

Bu awgrymiadau hefyd y dylid rhoi blaenoriaeth i swyddi penodol sy’n ymwneud â’r gymuned. Un datblygiad positif iawn yw bod Cadw yn gweithio gyda rhai awdurdodau lleol i gynnwys swyddogion datblygiadau treftadaeth mewn cymunedau, ac mae eisoes yn ariannu swydd o’r fath yng Ngwynedd, fel rhan o raglen Archaeoleg Cymunedol; mae Amgueddfa Cymru wedi creu Rheolwr Cyfranogi ac Ymgysylltu â’r Gymuned i gydlynu gweithgarwch ar draws ei holl safleoedd. Fodd bynnag, nid yw nifer o sefydliadau llai yn gallu

cyflogi staff penodol yn y maes hwn ac felly mae gwybodaeth am sut i gydweithio yn ymarferol yn dod hyd yn oed yn fwy angenrheidiol.

*‘mae’n rhaid i sefydliadau diwylliannol weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sydd eisoes â’r sgiliau i weithio’n effeithiol gyda grwpiau o gleientiaid allweddol sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi’*  
~ Cymdeithas yr Amgueddfeydd

Gan adeiladu ar y consensws hwn ynghylch yr angen am bwyntiau cyswllt wedi’u henwi a’r angen i gyfnewid gwybodaeth, adnoddau a sgiliau, nodwyd bod angen hefyd i drefnwyr cymunedol ei chael hi’n haws cael gafael ar wybodaeth fel y clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ar fanteision a phosibiliadau cysylltu gyda sefydliadau diwylliannol. Rwyf felly’n argymhell bod sefydliadau diwylliannol yn datblygu ‘pecyn offer’ o ddeunyddiau ar gyfer trefnwyr cymunedol i’w galluogi i gynllunio ar gyfer effaith ymwneud â diwylliant a’i ddeall, ac i’w galluogi i flaenoriaethu neu fywiogi eu rhaglenni diwylliannol. Mae Cadw eisoes yn bwriadu datblygu pecyn offer o’r fath o’u fframwaith Archaeoleg Cymunedol, fydd yn rhoi’r dulliau ymarferol a’r wybodaeth i grwpiau cymunedol gynnal prosiectau treftadaeth.

Dylai adnoddau gwybodaeth gael eu hategu gan raglenni hyfforddi byr, ar y cyd, a fydd yn dod â’r gweithwyr proffesiynol gwahanol at ei gilydd, ac yn rhannu gwybodaeth, technegau ac arfer gorau.

## ARGYMHELLIAD 8

Llywodraeth Cymru a sefydliadau diwylliannol i ddatblygu **pecyn o ddeunyddiau dysgu**, gyda chymorth rhaglenni hyfforddi penodedig, ar gyfer trefnwyr cymunedol, i’w cynorthwyo i ymwneud â diwylliant **ac i’w darparu drwy un porthol**.

Mae rhai systemau wedi’u sefydlu eisoes i hwyluso partneriaethau y gellid eu defnyddio

eto. Un dull o gysylltu darpariaeth gelfyddydol yr Awdurdod Lleol, er enghraifft, yw ClymuCelf – sy'n rhoi cyfle i'r gwasanaethau celfyddydol gydweithio ar draws y pump awdurdod lleol yn ne Cymru. Mae'n darparu gwasanaethau drwy leoliadau y mae'r cyngor yn berchen arnynt, a lleoliadau y trydydd sector, gan gynnwys darpariaeth wedi'i dargedu ar gyfer oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o gyrff gan gynnwys sefydliadau diwylliannol, clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a'r trydydd sector. Gyda'r math hwn o ffocws, ac economi maint, gall darpariaeth gelfyddydol wedi'i thargedu wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Er nad yw'r model hwn yn datrys rhai o broblemau gallu a mynediad, mae'n ymdrech ddewr i ffocysu'r ddarpariaeth ac i'w wneud ar gael mewn ffordd decach.

Mae'r gwasanaethau archif lleol, yn gynyddol, hefyd yn cydweithio ar draws ffiniau, ac yn ne Cymru mae ganddynt wasanaethau rhanbarthol eisoes sy'n rhoi mwy o gyfle i arloesi. Dylid cymell ac annog gweithredu o'r fath. Rwyf hefyd wedi sylwi ar ddatblygiad partneriaethau mwy cydweithredol rhwng amgueddfeydd yr awdurdodau lleol, sy'n cael eu hannog gan CyMAL. Yn y de-orllewin, roedd amgueddfeydd yr awdurdod lleol yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe yn ymdrechu gyda diffyg gallu i ddarparu adnoddau dysgu hunangyfeiriedig i ysgolion ac roeddem yn ymwybodol bod dyblygu gwaith sylweddol. Gyda'i gilydd, fel Amgueddfeydd De Cymru, cawsant gyllid CyMAL i gyflogi ymgynghorydd addysg dwyieithog fu'n cysylltu ag ysgolion ar draws y rhanbarth, wedi'i ddatblygu gan frand 'Medwyn y Twrch Daear' ar gyfer eu rhaglen addysg a chreu adnoddau dysgu y gellid eu defnyddio gan bob amgueddfa yn y bartneriaeth. Er i'r cyllid ddod i ben yn 2013, mae Amgueddfeydd De Cymru yn parhau i gyfarfod.

Byddem felly'n argymhell, yn enwedig o dan yr amgylchiadau ariannol presennol, a chan ystyried Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus gan Syr Paul

Williams, y dylai awdurdodau lleol edrych ar y posibiladau ar gyfer cymorth trawsffiniol a rhannu gwasanaethau, o bosib drwy drefniadau ffurfiol megis consortia, i alluogi sefydliadau sydd â phroblemau gallu rannu adnoddau er mwyn cael mwy o effaith ar addysg a gwaith cymunedol.

## ARGYMHELLIAD 9

Llywodraeth Cymru i gymell ac annog **awdurdodau lleol i edrych ar y posibiladau o gael cymorth ar draws ffiniau ac i rannu gwasanaethau**, er enghraifft amgueddfeydd, llyfrgelloedd, y celfyddydau ac archifau i ategu'r pwyslais cynyddol ar waith cymunedol ac addysgol.

### 4.6 Partneriaethau ar Lawr Gwlad

Mae'n rhesymol o hyn, bod un cyswllt hanfodol i'w wneud yn y gadwyn bartneriaeth. Cafodd hyn ei ragweld eisoes yn rhannol gan yr argymhelliad yn adroddiad yr Athro Smith ar gyfer *Rhwydweithiau Dysgu Creadigol* i gysylltu ysgolion ac asiantaethau diwylliannol.

Rydym wedi clywed ar sawl achlysur bod angen i sefydliadau diwylliannol sy'n gweithio'n lleol gael un pwynt cyswllt gyda'r gymuned i sicrhau eu bod yn gwybod beth sydd ar gael, a'r hyn sydd ei angen fwyaf, i alinio blaenoriaethau.

Yn ogystal â'r argymhellion sydd wedi'u gwneud eisoes yn y bennod hon, mae galwad hefyd am ddulliau mwy ffurfiol sydd wedi'u ffocysu o rannu gwybodaeth ac adnoddau a chyfleoedd, arferion da, dulliau newydd a hyfforddiant ar y cyd. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn ystod y camau ymgynghori o blaid y farn y gallai *'fforwm neu rwydwaith fod yn ddull da o rannu'r wybodaeth hon... Byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau ac asiantaethau rannu eu cynlluniau yn y dyfodol, er mwyn cydlynu gweithgarwch, dod o hyd i ffyrdd o weithio mewn partneriaeth a sicrhau bod y gweithgarwch wedi'i ledaenu'n deg'*. Yn wir, cynhelais ddwy seminar yn Abertawe i ddod â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf, yr awdurdod lleol a sefydliadau diwylliannol y ddinas at ei gilydd, a oedd yn gynhyrchiol ac yn hynod ysbrydoledig o ran syniadau ar gyfer cydweithio.

Rydym yn cynnig, yn ogystal â chynnwys sefydliadau diwylliannol a threftadaeth o fewn Rhwydweithiau Dysgu Creadigol yr Athro Dai Smith, y dylid ystyried hwyluso'r rhwydweithiau ar wahân rhwng Cymunedau'n Gyntaf a'r cyrff diwylliannol yn benodol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg diwylliannol o fewn cymunedau Cymunedau'n Gyntaf. Byddai hyn yn ymateb i angen clir a nodwyd yn ystod fy ymgynghoriad ac sy'n ddull sydd eisoes yn cael ei dreialu o fewn Dinas a Sir Abertawe. Gallai'r model optimaidd fod yn un rhwydwaith i ddatblygu ar draws pob clwstwr Cymunedau yn Gyntaf o fewn ardal ddaeryddol benodol. Mae dadl gref o blaid datblygu'r rhwydweithiau hyn fesul cam. Byddai angen 'brocer' ac neu gynullydd i ddechrau partneriaethau ac i'w cynnal, ac i sicrhau bod yr adnoddau a'r mentrau wedi'u sefydlu.

#### ARGYMHELLIAD 10

**Datblygu rhwydweithiau cymunedol a diwylliannol**, gan gysylltu sefydliadau cymunedol a diwylliannol ar lefel leol, i rannu gwybodaeth ac adnoddau a chynllunio mentrau ar y cyd i fynd i'r afael â'r diffyg diwylliannol o fewn cymunedau.

### 4.7 Casgliad

Mae nifer o syniadau a mentrau dewr a llwyddiannus eisoes ar waith ledled Cymru i ehangu mynediad, cyfranogiad a dysgu rhwng y gymuned ddiwylliannol a gweithwyr cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig. Mae ymwybyddiaeth o'r manteision a allai cyfranogiad diwylliannol ei greu, a pharodrwydd ymysg llunwyr polisiâu i ystyried sut y gallai hyn ddigwydd yn fwy effeithiol. Yn wir, ers dechrau'r adolygiad hwn, bu ymgysylltu ar bolisiâu eisoes rhwng adrannau gwahanol y llywodraeth sy'n newyddion tu hwnt o dda. Y cam rhesymegol yw i ystyried sut y gellid defnyddio cyllid cymunedol yn fwy strategol ar gyfer gweithgarwch diwylliannol i gefnogi amcanion Cymunedau yn Gyntaf.

Mae teimlad mewn ffordd bod angen hyblygrwydd newydd i gyflawni mwy. Er bod yr hinsawdd ariannol presennol yn rhoi pwysau

mawr ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru, o Lywodraeth Cymru i lawr, mae cyfleoedd, heb amheuaeth, i ddefnyddio'r ffrydiau ariannu presennol yn fwy creadigol a strategol. Mae ffrydiau cyllido penodol ar gyfer clystyrau Cymunedau yn Gyntaf eu hunain, cyllid strategol Cymunedau yn Gyntaf, a chyllid penodol ar gyfer clystyrau i ategu'r Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n cael ei dalu i ysgolion. Mae'r rhain yn ychwanegol i'r Grant Amddifadedd Disgyblion ei hun, ble y caiff ysgolion lawer o ymreolaeth o ran gwariant.

Mae'r cyfleoedd hyn yn llunio argymhelliad ar wahân, ond mewn ffordd mae'n tanategu nifer o'r argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn. Hoffwn argymhell bod ffrydiau cyllido Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu hystyried fel dull o ryddhau cyfleoedd, yn enwedig o ran goresgyn rhwystrau trafndiaeth; a ffyrdd y cytunwyd arnynt ac a hysbyswyd yn glir o ran sut y gellid defnyddio cyllid o'r fath ar gyfer gweithgarwch diwylliannol mewn amrywiol leoliadau. Dylid egluro amcanion y ffynonellau cyllido hyn a'r Grant Amddifadedd Disgyblion hefyd a hysbysu'r sefydliadau diwylliannol ohonynt a'u halinio fel y gellid datblygu rhaglenni ar y cyd a allai gysylltu gweithgareddau yn y gymuned a'r ysgol. Hoffwn awgrymu mai un dull cychwynnol o fynd i'r afael â phethau fyddai cynhyrchu nodyn canllaw gan Gyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cymru, ar y cyd â sefydliadau diwylliannol gan ddefnyddio astudiaethau achos ac arfer gorau fel enghreifftiau, ar sut y gallai clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ddefnyddio diwylliant a threftadaeth yn fwy effeithiol, ac, yn hollbwysig, pa ffrydiau cyllid y gellid o bosib eu defnyddio i wireddu hyn.

#### ARGYMHELLIAD 11

Llywodraeth Cymru i egluro a chyfathrebu sut y mae defnyddio ffrydiau ariannu cymunedol ac amddifadedd disgyblion yn y ffordd orau er mwyn cyfoethogi diwylliannol, ac edrych ar y **posibilrwydd o sicrhau cyllid Cymunedau yn Gyntaf a Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi y broses o ddatblygu** rhaglenni penodol o weithgarwch sy'n cysylltu cymunedau ac ysgolion.

## Codi Uchelgais a Chodi Safonau: Diwylliant a Dysgu

Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru yw'r angen i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng pobl ifanc o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd tlotach a'r rheini sy'n fwy cyfoethog. Nid yw'n annisgwyl bod tyfu i fyny mewn tlodi, mewn cartrefi lle mae gwaith wedi bod yn anodd dod o hyd iddo ers cenedlaethau, efallai, ac addysg uwch yn rhywbeth dieithr, yn cael effaith uniongyrchol ar hyder, uchelgais a chyrhaeddiad.

Roedd adroddiad Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU, *State of the Nation 2013: Social Mobility and Child Poverty* yn nodi *'in England, over two-thirds of children eligible for free school meals [a common measure for child poverty] sitting GCSEs in 2010 did not achieve five good GCSEs including English and maths, and there are similar problems of low educational attainment for children from disadvantaged backgrounds in Wales.'*

Yn achos y plant hynny, fel y dywed yr adroddiad, mae angen rhywbeth ychwanegol. Canfu'r adroddiad *"There is an opportunity for Wales to focus more on closing the gaps in educational achievement beyond the 'basics' in pre-school and compulsory school. As is the case elsewhere in the UK, it is clear that academically able children from disadvantaged backgrounds in the UK are less likely to achieve good A levels, enter higher education [or] to access the professions. If the [Welsh Government Child Poverty] strategy is to achieve its ambition of breaking the link between educational attainment and poverty, it is essential that these 'disadvantage gaps' are tackled as well as the gaps in the basics."*

Rwyf innau o'r farn bod y 'bylchau anfantais' hynny yn cynnwys profiadau diwylliannol yn eu cyfoeth a'u hamrywiaeth. Er ei bod yn anodd profi'r cysylltiad rhwng profiadau diwylliannol ac effaith hirdymor, mae Cooley (2003) yn tynnu sylw at y ffaith bod y celfyddydau yn gallu bod yn gyfrwng i'r rheini sydd ar ymylon cymdeithas

gyfrannu at gymunedau, integreiddio'n gymdeithasol a mynegi eu pryderon, ac mae Goodlad, Hamilton a Taylor (2003) yn nodi bod profiadau celfyddydol yn gallu gwella cyfleoedd bywyd.

Mae'r Athro Smith hefyd wedi nodi eisoes yn ei adroddiad ar y Celfyddydau mewn Addysg yr effaith y mae profiadau celfyddydol, cymryd rhan mewn perfformiadau, arddangos gwaith, a datblygu creadigrwydd o bob math, yn ei chael ar ddisgyblion ac athrawon fel ei gilydd. Mae wedi casglu'r dystiolaeth o gorff cynhwysfawr o ymchwil academaidd, ac enghreifftiau concrit fel yr Ysgol Gelf Arbenigol yn un o wledydd mwyaf llwyddiannus y byd, Singapôr, wrth geisio profi pŵer y celfyddydau yn wybyddol i godi lefel cyrhaeddiad o bob math.

Yn y rhan hon, felly, yr hyn rwyf wedi ceisio'i wneud yn bennaf yw adeiladu ar ei argymhellion a'u datblygu ymhellach i'r graddau y gellir gwneud hynny y tu hwnt i'r celfyddydau ac i fyd ehangach diwylliant a threftadaeth. Rwyf wedi chwilio am ffyrdd y gallai partneriaeth agosach arwain at fwy o ysgogiad i ddysgu, mwy o ysbrydoliaeth i addysgu, defnydd mwy proffidiol o amser y tu allan i'r ysgol, a gwell canlyniadau, yn enwedig mewn perthynas â sgiliau sylfaenol ac allweddol i bobl ifanc.

Mae llawer o athrawon eisoes yn gwbl ymwybodol o bŵer profiadau celfyddydol a gweithgareddau diwylliannol. Byrdwn llawer o'r rhwystredigaeth yw gwybod cymaint mwy y gellid ei gynnig, ac eto mor anodd yw



hi i ddod o hyd i'r amser neu'r adnoddau. Bydd llawer o'r awgrymiadau mewn penodau eraill, ynddynt eu hunain, yn gwella ansawdd bywydau plant a theuluoedd y tu allan i'r ysgol, gan ddylanwadu, yn ei dro, ar fywyd yr ysgol. Os gall Cymru fuddsoddi mewn ffordd fwy strategol mewn adnoddau diwylliannol cymunedol, bydd ysgolion ac athrawon yn gallu manteisio, yn y tymor hirach, ar ffynonellau cyfoethog o wybodaeth, syniadau ac adnoddau dysgu a fydd yn nes atynt, ac yn fwy defnyddiol iddynt.

Er bod y bennod hon yn ategu'r hyn y gellir ei wneud o fewn ac o amgylch yr ysgol, mae hefyd yn ymwneud â sut gall partneriaethau rhwng ysgolion a darparwyr eraill ymestyn ac ategu'r dysgu a chyflymu'r broses y tu allan i'r ysgol, a sut gall hyn hefyd gynnwys dysgu teuluol a chymunedol yn ogystal â datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol. Yn y bennod olaf, trafodir partneriaethau dysgu eraill sy'n ymwneud â'r syniad penodol o Cynefin. Mae'r bennod hon yn dilyn y llwybr datblygiad, felly, o'r blynyddoedd cynnar a chyfleoedd i deuluoedd ddysgu gyda'i gilydd a'r syniad o genedl ddarllen, i'r angen i gydweithio a threfnu'n decach beth all ddigwydd o fewn ac o amgylch y diwrnod ysgol, yn enwedig mewn perthynas â disgyblion 9-13 oed, sydd yn y cyfnod pontio. Mae'r bennod yn ystyried sut gall strategaethau ysgol a strategaethau y tu allan i'r ysgol hybu lefelau cyrhaeddiad; mae'n trafod hefyd y cyfleoedd newydd a ddaw yn sgil y fframwaith Ymgysylltu leuenctid newydd a'r syniad o 'Wirfoddolwyr Creadigol' a allai, o drefnu'r peth yn iawn, greu llwybr o weithgarwch gwirfoddol i brentisiaethau a diwydiannau creadigol. Yn hyn oll, mae'r angen i ysbrydoli a chefnogi athrawon a staff ysgolion yn flaenoriaeth.

Yn bennaf oll, fodd bynnag, mae'r bennod hon yn trafod yr angen i integreiddio'r hyn a ddarperir: naill ai rhaglenni sydd eisoes yn gweithio ar lawr gwlad ar gyfer teuluoedd a phlant (Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf) ac ar draws dysgu teuluol ac

oedolion; rhwng nifer o wahanol fentrau darllen ac asiantaethau ledled Cymru; rhwng yr arian a roddir i gynnydd profiadau ychwanegol a dysgu â chymorth y tu allan i'r ysgol a'r ymdrechion enfawr a wneir o fewn ysgolion; a'r mentrau ar gyfer oedolion ifanc NEET, a chamu ymlaen mewn gyrfa. Ar hyn o bryd, mae yna lawer o 'fylchau anfantais', 'bylchau darpariaeth' a 'bylchau meddwl'. O'u cau, gellid gwella'r hyn a gynigir a'i effaith.

## 5.1 Y Blynyddoedd Cynnar a Datblygiad Plant: Teuluoedd Heb Sgiliau

Erbyn i blant bach gyrraedd yr ysgol, mae yna fwch enfawr eisoes rhwng y rheini sy'n gallu dysgu'n gyflym a'r rheini sy'n cael trafferth gyda sgiliau cymdeithasol, iaith, darllen, ysgrifennu a rhifedd. Mae dal plant bach yn gynnar yn hanfodol, ac yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyrraedd teuluoedd a chymunedau a all elwa ar gymorth.

Dechrau'n Deg yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, i deuluoedd â phlant o dan 4 oed yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n cynnig gofal plant am ddim i blant 2-3 oed, gwasanaeth gwell o ran ymweliadau iechyd, canllawiau rhianta a rhaglenni Datblygiad Iaith Cynnar. Yn y rhaglenni Datblygiad Iaith Cynnar, rwyf o'r farn y gall y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wneud gwir wahaniaeth unigryw.

Mae yna rai enghreifftiau rhagorol o ganolfannau Dechrau'n Deg yn gweithio ochr yn ochr â rhaglenni a chyrrff diwylliannol i gyfoethogi'r ddarpariaeth i blant bach iawn; mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, er enghraifft, yn cynnal sesiynau rheolaidd i blant o ganolfannau Dechrau'n Deg lleol. Yn fwy strategol, mae cynllun Dechrau Da i feithrin brwdfrydedd am lyfrau mewn plant yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o ganolfannau Dechrau'n Deg a llyfrgelloedd lleol.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen sy'n pwysleisio gweithredu i atal problemau ac ymyrraeth gynnar mewn teuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tldi. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Dechrau'n Deg a Cymunedau'n Gyntaf ac yn ategu eu gwaith.

Gall yr ymyriadau strategol hyn fod yn sefyllfaoedd naturiol a phwerus lle gellir dod i gysylltiad â phlant a rhieni ar yr un pryd, yn enwedig rhieni nad ydynt am gyfaddef bod ganddynt anawsterau darllen ac ysgrifennu. Gall dod o hyd i ffyrdd a llefydd i deuluoedd ddysgu gyda'i gilydd, yn hyderus, wneud y gwahaniaeth a rhoi dechrau cadarn i'r plentyn yn yr ysgol. Mae yna enghreifftiau o arfer rhagorol hefyd, fel Llyfrgell Abertawe a llawer o lyfrgelloedd eraill, sy'n trefnu sesiynau dweud stori a gweithgareddau iaith a darllen ar gyfer plant a'u teuluoedd.

Yr hyn nad oes gennym, fodd bynnag, yw ffordd hawdd i'r cyrff diwylliannol gael gwybod sut y gallent gyfrannu'n effeithiol, neu sut i dynnu ynghyd beth arall y gallent ei gynnig i raglen Dechrau'n Deg neu raglenni dysgu cynnar eraill, a fyddai'n cyfoethogi'r profiad i blant neu ofalwyr. Byddwn yn argymhell felly y dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid nodi a rhannu arferion da ac ymchwilio i ffyrdd y gellid cyflwyno rhaglenni sy'n cyfoethogi datblygiad iaith cynnar mewn canolfannau Dechrau'n Deg drwy ddefnyddio adnoddau diwylliannol mewn ffordd fwy strategol a thrwyadl.

## ARGYMHELLIAD 12

Llywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o ymestyn a sefydlu gweithgareddau cyfoethogi diwylliannol i gefnogi deilliannau dysgu ar draws rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

## 5.2 Darllen: Blaenoriaeth i Bawb

O holl wledydd y DU, Cymru ddylai fod fwyaf teilwng o'r teitl Cenedl Ddarllen.

Mae gennym wreiddiau dwfn mewn iaith, barddoniaeth a drama, a diwylliant byw o ysgrifennu cyfoes. Mae Gwyl y Gelli yn rhywbeth byd-eang bellach. Mae darllen yn hollbwysig i berson chwilfrydig ac i'w gyrhaeddiad gydol oes. Rhaid i ddarllen fod yn ganolog i bob strategaeth ddysgu.

Ar hyn o bryd, mae yna ferw o weithgarwch ac ewyllys da, ond mae modd gwneud mwy. Yn wir, mae'n rhaid gwneud mwy i sefydlu a datblygu'r gwaith da hwn. Mae Cyngor Llyfrau Cymru, yr Asiantaeth Ddarllen, a llawer o lyfrgelloedd ledled Cymru eisoes yn gweithio'n galed i'w gwneud yn haws i blant ac oedolion, fel ei gilydd, ddarllen. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gwneud gwaith rhagorol i ddarparu gweithgareddau creadigol ar gyfer grwpiau lle mae darpariaeth o'r fath yn *'frawychus o isel'*. Maent yn trefnu ymweliadau gan awdurdon, prosiectau ffilm a sain, sesiynau darllen, cystadlaethau ysgrifennu a pherfformiadau – ac mae'n gweithredu ar yr hyn y mae'n ei wybod mewn egwyddor, sef ei bod yn annhebygol disgwyl i bobl o gefndiroedd difreintiedig ddod atyn nhw, felly bod yn rhaid i'r peth ddigwydd o fewn eu cymunedau nhw. Ynghyd â gwaith Asiantaeth Ffilmiau Cymru, i bob golwg mae'r rhaglenni cymunedol hyn yn arloesol ac yn bwerus.

Mae cyrff eraill yn canolbwyntio ar blant ac oedolion mewn ffyrdd mwy traddodiadol. Mae'r Asiantaeth Ddarllen yn trefnu Sialens Ddarllen yr Haf i blant 6-12 oed, sy'n cynnwys holl awdurdodau Cymru. Gall y rhain gael effaith aruthrol amlwg ar oedran darllen y plant (gweler yr astudiaeth achos ar Lyfrgelloedd Sir Ddinbych).

Efallai bod Sir Ddinbych ar y blaen i lawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Ond fe all y lleill gau'r bwlch. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sicrhau bod Sialens Ddarllen yr Haf yn cael ei sefydlu o leiaf ym mhob ardal Cymunedau'n Gyntaf, pob ysgol a phob llyfrgell, a bod yr hyn sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus yn

# ASTUDIAETH ACHOS: Llyfrgelloedd Sir Ddinbych: Llythrennedd wrth wraidd Addysg a'r Gymuned

Mae cyfran uwch (88%) o ddisgyblion sir Ddinbych yn gadael yr ysgol gynradd gyda'r hyn y mae Estyn yn ei ystyried yn lefel ymarferol o lythrennedd na'r cyfartaledd yng Nghymru (80%). Mae gwasanaeth cymorth ymroddedig gwasanaethau llyfrgell yr awdurdod wedi helpu i gyfrannu at hyn, ac mae eu cyfoedion yn eu hystyried yn un o'r gwasanaethau mwyaf arloesol ac ymroddedig yng Nghymru ar gyfer gwaith ym maes llythrennedd.

Yn ôl Bethan Hughes, Rheolwr Gwasanaethau Darllen yr awdurdod, *"Mae llythrennedd yn allweddol yn yr her i drechu tlodi, ac mae'r rhan fwyaf o ymchwil yn dangos, er bod gan ysgolion a'r system addysg gyfrifoldeb i addysgu sgiliau llythrennedd, y gyfrinach yw darllen y tu allan i'r ystafell ddosbarth – darllen er pleser neu ddarllen creadigol – a dyna pam mae mynediad i lyfrgelloedd cyhoeddus yn allweddol"*.



© Llywodraeth Cymru – Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli

Ym mhrofiad Sir Ddinbych, mae rhywbeth a ddechreuodd yn rhywbeth ychwanegol erbyn hyn yn rhan allweddol o'r gwasanaeth. Mae 48% o blant 4-11 oed y sir yn cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf – mwy na dwywaith cymaint ag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru. Yr Asiantaeth Ddarllen sy'n trefnu'r sialens fel rhan o brosiect a gynhelir ledled y DU ac mae Llywodraeth Cymru yn ei noddi yng Nghymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Mae'r prosiect yn annog plant i ymweld â'r llyfrgell a darllen llyfrau yn ystod gwyliau'r haf.

Mae sicrhau cysylltiadau da gyda darparwyr addysg yn sicrhau bod ysgolion yn gwneud ymrwymiad parhaus i'r agenda, drwy gynnwys y rhaglenni ar y cyd o fewn cynlluniau ar gyfer gwella ysgolion. Mae staff y gwasanaeth yn buddsoddi llawer o'u hamser, gydag ysgolion yn cael eu hannog i ddod â dosbarthiadau i ymweld â'r llyfrgell leol yn aml ac mae staff yn ymweld â phob ysgol gynradd o leiaf ddwywaith y flwyddyn, er mwyn cadw a gwella'r ymrwymiad hwn y mae ysgolion wedi'i wneud. Yn amlwg, mae cael cymorth y rhieni yn hollbwysig, yn enwedig yn yr haf.

Mae rhaglen Dechrau Da Sir Ddinbych wedi cyfoethogi'r rhaglen rhoi llyfrau'n rhodd drwy ddarparu rhaglen wedi'i thargedu mewn cymunedau difreintiedig fel rhan o raglen datblygiad iaith cynnar yr awdurdod o dan Dechrau'n Deg. Mae'n datblygu sgiliau a hyder rhieni i helpu datblygiad iaith a chymdeithasol eu plant drwy rannu rhigymau, caneuon a llyfrau.

Mae Sgwadiâu 'Sgwennu yn cynnig cyfleoedd i ysgrifenyddyr ifanc talentog weithio gydag awduron proffesiynol i ddatblygu eu sgiliau. Mae gan Sir Ddinbych bedwar Sgwad 'Sgwennu, a gynhelir gan Wasanaethau'r Llyfrgell. Maent yn cynnig y rhaglen unigryw hon i 100 o blant bob blwyddyn.

Mae'r llyfrgelloedd hefyd yn cynnal 15 o grwpiau darllen ar gyfer oedolion, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan roi cyfle iddynt rannu eu profiadau darllen ag eraill mewn cyd-destun cymdeithasol cefnogol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig, o fewn yr awdurdod ond hefyd gyda chyrrff ac elusennau allanol fel yr Asiantaeth Ddarllen, The Reader Organisation, Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a Booktrust Cymru. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu datblygu'r cynlluniau hyn ymhellach yn y dyfodol, a denu rhagor o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli.

Sir Ddinbych ac mewn llyfydd eraill yn cael ei efelychu. Yn benodol, rwyf am annog pob awdurdod i ddenu mwy i gymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath, a gwneud y fenter yn rhan o gynlluniau ysgolion. Byddwn yn gefnogol iawn, felly, i weld arferion da awdurdodau fel Sir Ddinbych yn cael eu lledaenu.

Yn sicr mae rhywfaint o botensial i fwy o waith partneriaeth ag asiantaethau cyllido annibynnol fel y Gronfa Loteri Fawr er mwyn ychwanegu at adnoddau prin. Mae yna bartneriaethau amlwg gyda llyfrgelloedd, ond mae angen eu teilwra i ddilyn model Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych, gan sicrhau partneriaeth reolaidd ag ysgolion gydol y flwyddyn. Ond nid wyf yn gweld unrhyw reswm pam na ellir trefnu gweithgareddau i ategu rhai o weithgareddau darllen llyfrgelloedd – gweithgareddau mewn amgueddfeydd, archifdai, orielau celf, campysau prifysgol a, fel y bo'n briodol, safleoedd henebion cenedlaethol neu henebion yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan ddefnyddio treftadaeth fel cyd-destun ychwanegol ar gyfer darllen ac i gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Ac o bosibl, gellid comisiynu awduron ifanc i adrodd straeon.

Bydd llawer o'r syniadau hyn o fudd i blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Ond fe fydd yna bob amser bwysau i wneud mwy yn y dosbarth hefyd. Am y tro cyntaf, mae ffrydiau cyllid yn cael eu cyfuno i gydgyssylltu strategaethau i helpu plant difreintiedig: gan gynnwys arian cyfatebol y Grant Amddifadedd Disgyblion drwy Cymunedau'n Gyntaf. Hoffwn weld y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, i wneud y mwyf o'r cyfle sydd gennym mewn Clybiau Brecwast, sydd wedi hen ennill eu plwyf mewn llawer o ardaloedd ond y gellid eu datblygu. Nid yw cynllun Breakfast with Books yn syniad newydd, lle adroddir straeon a llyfrau'n cael eu darllen yn uchel, ond byddai ei gyflwyno ledled Cymru yn gam rhesymegol a gellid cael gwirfoddolwyr lleol i'w cynnal yn

rheolaidd. Dylid gwneud pob ysgol yn Ysgol Ddarllen a dylai pob aelod o staff, gan gynnwys staff nad ydynt yn addysgu, gael cyfle i fod yn rhan o'r ymgyrch.

Mae cynnig mwy o gyfleoedd i'n plant gael defnyddio eu llyfrgell gyhoeddus yn allweddol. Byddai annog CyMAL i fwrw ymlaen â'i nod o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn aelod o lyfrgell yn gam cyntaf. Yna gallwn ddatgan bod Cymru yn 'Genedl Ddarllen'.

---

### ARGYMHELLIAD 13

Llywodraeth Cymru, drwy CyMAL, i barhau â'i hymrwymiad i roi **aelodaeth i'r llyfrgell i bob plentyn ledled Cymru.**

Ochr yn ochr â rhaglenni sy'n targedu plant, mae yna ddau gynllun arall: yr Her Ddarllen i Oedolion – sy'n dilyn yr un trywydd â'r heriau i blant – a'r cynllun Cymunedau Darllen. Cyllidwyd Cymunedau Darllen gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru, gan sefydlu cymuned ddarllen ym mhob ardal adfywio strategol. Mae gan bob cymuned ei chydgyssylltydd ei hun sy'n trefnu gweithgareddau lleol i hyrwyddo darllen a llythrennedd ymhlith plant ac oedolion. Cymerodd dros 5,000 o blant ran mewn gweithgareddau yn 2012–13, a 1300 o oedolion, mewn dros 250 o ddigwyddiadau. Mewn rhai achosion, roedd y cydgysylltydd lleol yn gweithio mewn llyfrgell, roedd rhai mewn ysgolion a rhai mewn corff trydydd sector. Rwy'n argyhoeddedig bod y cynlluniau hyn yn dod â budd aruthrol ac mae angen eu cryfhau. Mae Cyngor Llyfrau Cymru a'r Asiantaeth Ddarllen – a'r gwasanaeth llyfrgell – am weld mwy o fuddsoddi a gwaith partneriaeth yn targedu'r ardaloedd hynny'n benodol lle mae'r angen mwyaf i helpu pobl i ddarllen neu i ddarllen yn annibynnol. Ond mae'n amlwg y gallai pethau godi i rwystro sefydliadau rhag cymryd rhan, gallai'r cysylltiad ag ysgolion fod yn wan, a'r adnoddau yn ddiffygiol.

Byddai'r elfennau hyn i gyd yn dal y cynllun gwych hwn yn ôl. Ymddengys fod hyn yn ddigon o flaenoriaeth i'w rangyllido o leiaf drwy gyllid Cymunedau'n Gyntaf, ac o bosibl drwy arian cyfatebol ar sail strategol drwy un o'r cyrff loteri.

#### ARGYMHELLIAD 14

Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y ffordd orau i **gydgrynhoi a datblygu mentrau llythrennedd i blant ac oedolion sydd eisoes yn bodoli** ledled Cymru, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, a sut i fanteisio ar gysylltiadau â sefydliadau diwylliannol i sbarduno a chyfoethogi'r rhaglenni hynny.

### 5.3 Cynlluniau Haf a Dysgu y Tu Allan i'r Ysgol

Dim ond un o'r cyfleoedd dysgu ychwanegol y gellid eu datblygu dros y gwyliau ysgol yw'r cynlluniau darllen – yn enwedig yn yr haf ac i'r grŵp penodol hwnnw o bobl ifanc sy'n gadael diogelwch yr ysgol gynradd ac sy'n symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Dyma pryd mae eu hyder a'u lefelau cymhelliant yn gostwng a phwysau cyfoedion yn tueddu i gynyddu. Eisoes mae yna draddodiad cryf o gynlluniau haf ar gyfer sgiliau penodol, a grwpiau penodol o bobl ifanc, fel y rhai a gynigir gan yr Urdd neu'r rheini sy'n dalentog, neu y mae eu rhieni'n gallu eu fforddio. Ond nid yw'r rhain ar gael ym mhobman, ac yn aml maent y tu hwnt i gyrraedd llawer. Mae angen mynd ati'n systemataidd i ddelio â'r dadrithiad sy'n gallu codi ar ôl symud i'r ysgol uwchradd a'r pwysau cynyddol ar bobl ifanc oddi wrth eu cyfoedion. Mae cynlluniau haf, boed yn gynlluniau arloesol i ategu llythrennedd, yn canolbwyntio ar wyddoniaeth neu'n herio plant talentog, i gyd yn gallu cryfhau a hybu dysg, a chefnogi teuluoedd sy'n gweithio. Mewn rhai awdurdodau lleol, maent yn rhan o'r gefnogaeth arferol a gynigir i ysgolion.

*'Drwy ddarparu cyfleoedd dysgu haf mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifdai a thrwy'r celfyddydau, rydym yn ceisio lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndir difreintiedig a'u cyfoedion. Rydyn ni'n gwybod bod y bwlch hwn yn tyfu adeg gwyliau ysgol, yn enwedig yn ystod yr haf. Gall diwylliant chwarae rôl bwysig mewn partneriaeth ag ysgolion.'*

~ Cyngor Sir Penfro

Roedd yn galonddid imi glywed bod Cyngor Sir Penfro yn ystyried gweithredu cynllun o'r fath yn 2014: *'Drwy ddarparu cyfleoedd dysgu haf mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifdai a thrwy'r celfyddydau, rydym yn ceisio lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndir difreintiedig a'u cyfoedion. Rydyn ni'n gwybod bod y bwlch hwn yn tyfu adeg gwyliau ysgol, yn enwedig yn ystod yr haf. Gall diwylliant chwarae rôl bwysig mewn partneriaeth ag ysgolion.'*

Mae RCT Homes, cymdeithas dai fawr, eisoes yn cynnal gwersylloedd a chynlluniau haf i blant. Rhaid bod yna ffordd i gyrff diwylliannol bartneru â'r rhaglenni hyn a'u cyfoethogi.

Yn union fel mae'r ddarpariaeth o gynlluniau haf sydd ar gael yn anghyson iawn, mae'r un peth yn wir am weithgareddau a chlybiau y tu allan i'r ysgol. Yn rhyfeddol, mae pobl ifanc yn treulio llai nag 20% o'u hamser yn yr ysgol. Ond mae'r amser y tu allan i oriau craidd yr ysgol yn gallu bod yn llawn cyfleoedd i ddysgu – gan ddefnyddio safle'r ysgol a safleoedd eraill. Mae'r mudiad cymorth astudio wedi hen ennill ei blwyf – yr her yn aml yw dod o hyd i safle a chymorth ar gyfer y mwyaf anghenus, a'i ddarparu'n barhaus. Mae cynlluniau cymorth astudio adeg gwyliau'r Pasg yn arbennig o bwysig.

Mae'n eithriadol o anodd cael darlun clir o'r hyn y mae ysgolion yn ei gynnis ar hyn o bryd, naill ai o ran gweithgareddau ysgol neu ddarpariaeth gwyliau, sut mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu darparu, a beth yw'r problemau. Mae'n bosibl iawn y bydd modd datrys rhai o'r problemau hynny yn y dyfodol, o ddenu darparwyr diwylliannol lleol i gymryd rôl fwy, edrych ar ffyrdd mwy creadigol o ddefnyddio safleoedd lleol, boed yn llyfrgelloedd, amgueddfeydd neu ganolfannau cymunedol lleol, ac o drefnu ystod ehangach o raglenni gweithgarwch.

Byddai datblygu dysg y tu allan i'r ysgol yn systematig yn dod â manteision anfesuradwy i bobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r sylfaen ymchwil wedi'i hen sefydlu ac yn gyson. Mae Estyn ei hun eisoes wedi'i gwneud yn glir ei fod yn ystyried dysgu y tu allan i'r ysgol yn adnodd hynod effeithiol ar gyfer pob ysgol; yn ei astudiaeth thematig Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion (2012), nododd 'Mae ysgolion llwyddiannus yn cynnig dewislen amrywiol o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol. Maent yn cynllunio ystod eang o wibdeithiau diwylliannol ac addysgol, ac yn cynorthwyo dysgwyr dan anfantais i gymryd rhan mewn teithiau preswyl. Maent yn mynd ati'n ofalus i arfarnu'r effaith a gaiff gweithgareddau y tu allan i oriau a gweithgareddau cyfoethogi ar eu dysgwyr sydd dan anfantais ac yn cynnwys y dysgwyr hynny a fyddai'n elwa fwyaf.'

Hoffwn weld Estyn yn ymchwilio ymhellach i'r maes astudio hwn drwy nodi ffyrdd o annog a galluogi ysgolion i gydweithio'n effeithiol â chyrrff diwylliannol, nid dim ond o ran gweithgareddau allgyrsiol ond hefyd o ran gwaith dosbarth.

#### ARGYMHELLIAD 15

Estyn i **gadarnhau pwysigrwydd gweithgarwch diwylliannol o fewn a thu allan i'r ysgol a thymor yr ysgol**, edrych ar arferion da, a chwilio am ffyrdd positif o annog a galluogi ysgolion i gydweithio mwy gyda sefydliadau diwylliannol.

Dylai'r consortia rhanbarthol newydd – er eu bod gam ymhellach oddi wrth ysgolion nag yr arferai'r cyngorwyr lleol fod – hefyd fod yn rhan o'r ymgyrch hon i sicrhau nad yw unrhyw ysgol na phlentyn y tu hwnt i gyrraedd rhaglen effeithiol y tu allan i'r ysgol. Yn sicr mae yna gyrff yng Nghymru, fel CAST Cymru (Cymunedau a 'Sgolion fel Tîm), sydd â blynyddoedd o brofiad o helpu ysgolion i gyflwyno rhaglenni y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys rhaglenni gwyddoniaeth, ar gael i helpu.

Rwyf hefyd am awgrymu bod angen ymrwymiad cenedlaethol a strategaeth glir ar gyfer dysgu y tu allan i'r ysgol, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i bartneriaid cyllido a dysgu gydgyllunio ar gyfer cynlluniau pontio a chynlluniau haf ac adeiladu ar gymeriad cymunedol ysgolion yng Nghymru. Gellid cynnwys llawer o bartneriaid, grwpiau gwirfoddol, asiantaethau cyllido a chyfranwyr preifat, ond mae angen cynllunio'r rhaglen yn iawn er mwyn ei chyflwyno yn deg ac yn llwyddiannus dros y pum mlynedd nesaf.

#### ARGYMHELLIAD 16

Llywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o sefydlu diwylliant yn fwy effeithiol o fewn **raglenni a strategaethau dysgu y tu allan i'r ysgol**.

### 5.4 Darpariaeth Ddiwylliannol o Fewn y Cwricwlwm

Fel y nododd yr Athro Smith yn ei adroddiad, mae yna wahanol gyfnodau o'r cwricwlwm pan all profiadau diwylliannol gael effaith arbennig o bwerus a phan all pobl ifanc ddarganfod uchelgais oes yn ogystal â'r hyn maent yn dda am ei wneud.

Rwyf eisoes wedi nodi pwysigrwydd y blynyddoedd pontio i'r ysgol uwchradd a'r drefn arholi gan mai'r oed lle mae dadrithiad yn dechrau yw 9-13. Cyfnod Allweddol 3 yw'r cyfnod pontio

ac mae'n amser pan fydd angen meithrin creadigrwydd a chwilfrydedd. Drwy weithio gyda chyrff diwylliannol, gall rhaglen gyfoethogi lywio diddordebau oes, a gyrfaedd hyd yn oed. Dros amser, efallai y gellid datblygu rhaglen systemataidd gyda pherfformiad terfynol, portffolio, prosiect neu gyflwyniad ar ddiwedd CA3, a fyddai'n tynnu ynghyd – naill ai yn unigol neu gydag eraill – yr hyn y mae'r person ifanc wedi'i gyflawni. Byddai'n dangos y talent sydd ym mhob plentyn ac ym mhob ysgol; byddai'n gyfle i longyfarch a dathlu, gan gynnwys teuluoedd a phartneriaid cymunedol, a gallai fod yn uchafbwynt i'r blynyddoedd heriol hyn. Byddai digon o le i'r partneriaid diwylliannol gydweithio ag ysgolion i geisio gweld pa fath o brofiadau a mesurau dysgu fyddai'n gweithio orau a sut gallai'r partneriaid helpu drwy lywio, darparu gofod ac adnoddau a chefnogi athrawon.

#### ARGYMHELLIAD 17

Llywodraeth Cymru i sefydlu dull o sicrhau bod **mwya o weithgareddau diwylliannol/treftadaeth o fewn CA3** i fynd i'r afael ag ymddieithrio, a chynnwys partneriaid diwylliannol wrth gynllunio a darparu'r cwricwlwm.

O'u meithrin, byddai'r diddordebau hyn yn cael eu cynnal drwy yrfa ysgol y disgybl, ac mae Bagloriaeth Cymru a'i phwyslais ar ddysgu annibynnol a dinasysddiaeth hefyd yn rhoi cyfle i bobl ifanc ehangu eu diddordebau a'u gweithgarwch – ee dod yn fentoriaid i artistiaid neu berfformwyr ifanc; gweithio ochr yn ochr â grwpiau cymunedol yn y celfyddydau; archaeoleg leol; neu wirfoddoli i wneud gwaith archifo. Mae'r posibiladau yn ddi-bendraw a byddent yn ychwanegu at y cyfoeth o brofiad ac aeddfedrwydd sy'n gwneud Bagloriaeth Cymru yn gymaint o welliant ar y profiad cul sy'n cael eu cynnig gan Lefel A – ac rwyf am awgrymu y dylid ymchwilio i'r posibiladau hyn i'w

datblygu. Rwyf am argymhell, felly, bod Bagloriaeth Cymru yn datblygu cyfleoedd dinasysddiaeth ddiwylliannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau diwylliannol ac ymwneud â diwylliant fel rhan o raglen gyfoethogi'r Fagloriaeth.

#### ARGYMHELLIAD 18

Llywodraeth Cymru i ddatblygu **cyfleoedd ar gyfer dinasysddiaeth ddiwylliannol fel rhan o raglen gyfoethogi Bagloriaeth Cymru.**

Mae yna angen hefyd a chyfle am raglen i Gymru gyfan sy'n canolbwyntio'n benodol ar y grŵp oedran hwn ac sy'n adeiladu ar yr hyn y gwyddom eisoes ei fod yn gweithio.

Er nad oedd y gwerthusiad terfynol o Cyrraedd y Nod yn gallu cynnig digon o dystiolaeth ar effaith gweithgareddau unigol ar bobl ifanc, yn sgil y diffyg data sydd ar gael ar gyfer yr asesiad hwn, canfu'r gwerthuswyr fod y gweithgareddau celfyddydol a ddarparwyd gan y Cyngor Celfyddydau wedi llwyddo i wella sgiliau personol a chymdeithasol ymhlith pobl ifanc (GHK Consulting Ltd, 2013).

#### ARGYMHELLIAD 19

Cyngor Celfyddydau Cymru i **edrych eto ar raglen cyfranogi yn y celfyddydau 'Cyrraedd y Nod'** i gynnig gweithgareddau diwylliannol y gall pobl ifanc 9-13 oed sydd mewn perygl o fynd yn NEET gymeryd rhan ynddynt.

Hoffwn weld y Cyngor Celfyddydau, drwy gysylltiad â chyrff diwylliannol eraill, yn dysgu o'r profiad hwn, yn enwedig o ran gwerthuso, ac yn ystyried ad-drefnu'r cynllun gan ganolbwyntio ar y grŵp oedran cynharach hwn, sy'n adeg allweddol pan fydd diddordebau oes yn datblygu. Yn hanfodol, roedd y rhaglen yn un hirach na llawer o'r prosiectau. Roedd y cyfnodau ymgynghori ynghylch yr adroddiad hwn yn nodi'n gyson rwystredigaethau ynghylch

# ASTUDIAETH ACHOS: Cyrraedd y Nod

Menter Llywodraeth Cymru â'r nod o leihau nifer y bobl ifanc 11-19 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET yw Cyrraedd y Nod. Cafodd gymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o Raglen Gydgyfeirio 2007-13 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Cynhaliwyd gwerthusiad o Cyrraedd y Nod gan ICF GHK ar ran Llywodraeth Cymru, ar sail ymchwil a gynhaliwyd rhwng Mehefin 2012 a Mehefin 2013.

Cyngor Celfyddydau Cymru oedd un o bartneriaid y fenter hon ac fe noddodd raglen i bobl ifanc gael cymeryd rhan yn y celfyddydau i gefnogi Cymal 1 a Chymal 2 rhaglen Cyrraedd y Nod.

Yng Nghyfnod 1 y rhaglen, cefnogodd Cyngor Celfyddydau Cymru 39 o brosiectau, gan weithio gyda mwy na 5000 o bobl ifanc ar draws ardal gydgyfeirio Cymru. Yng Nghyfnodau 2 a 3, cefnogodd Cyngor Celfyddydau Cymru 38 o brosiectau celfyddydol cyfranogol eraill a oedd yn cynnwys mwy na 4,000 o bobl ifanc, yn ogystal â 4 prosiect hyfforddi a oedd yn canolbwyntio ar gynig datblygiad proffesiynol i'r rheini oedd yn gweithio yn y celfyddydau a chyda phobl ifanc NEET. Darparwyd y rhaglenni gan ystod o gyrff ac asiantaethau fel Plant y Cymoedd, y Theatr Byd Bychan yn Aberteifi a Grŵp Gweithredu Ieuenctid Hafod yn Abertawe.

Nod y rhaglen a noddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru oedd darparu gweithgareddau celfyddydol creadigol i ddatblygu sgiliau meddal ymhlith ein pobl ifanc fwyaf difreintiedig. Roedd yr ystod o sgiliau meddal a ddatblygwyd yn cynnwys magu rhagor o hyder a chymhelliant, sgiliau cydweithio, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu.

Yn ogystal â datblygu sgiliau meddal, llwyddodd 953 o gyfranogwyr i gael cymhwyster Sgiliau Sylfaenol, Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gymryd rhan yn y rhaglen ac aeth 360 o bobl ifanc ymlaen i ddysgu pellach.

Un o nodau'r rhaglen o'r cychwyn cyntaf oedd datblygu partneriaeth agos rhwng prosiectau ac asiantaethau cyfeirio, elusennau a chyrrff perthnasol eraill fel y byddai'r cyfranogwyr yn parhau i gael cymorth ar ôl i gyllid y rhaglen ddod i ben.

Daeth y rhaglen i ben yn 2013 ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru wrthi'n ystyried rhaglenni strategaethol ehangach o bosibl ar gyfer y dyfodol, er mwyn cynnwys gweithgareddau diwylliannol eraill ac a fydd yn cael eu darparu ar y cyd â chyrrff eraill.



Prosiect Olion, Prifysgol Fetrapolitan Abertawe a'r YMCA, prosiect Cyrraedd y Nod

© Arts Council of Wales



pa mor fyr yw llawer o'r prosiectau a'r rhaglenni a gynigir gan gyrff diwylliannol sy'n ceisio sicrhau canlyniadau cymdeithasol. Drwy ganolbwyntio ar y blynyddoedd pontio, sef 9-13 oed, byddai rhaglen o'r fath yn ysgogi disgyblion ac yn eu hannog i gymryd rhan ym meysydd y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a'u darganfod.

## 5.5 Ysbrydoli'r Ysgol Gyfan

Roedd adroddiad yr Athro Smith yn ei gwneud yn glir mai ychydig a gâi ei gyflawni oni bai bod athrawon yn cael eu cyfleoedd cyfoethogi eu hunain drwy ddatblygiad proffesiynol, mewn ffyrdd oedd nid dim ond yn meithrin eu hyder yn y celfyddydau fel ffordd effeithiol o addysgu sgiliau sylfaenol ac allweddol, ond oedd yn meithrin eu creadigrwydd a'u proffesiynoldeb eu hunain. Rwyf innau hefyd wedi clywed sawl cyfeiriad at y ffaith bod llawer o athrawon, er yn deall gwerth profiadau diwylliannol, yn ddiffygiol eu hyder, ac mae eu diffyg cysylltiad â'r 'proffesiynolion diwylliannol' a chyrrff diwylliannol eu hunain yn gwaethygu hyn. Rwyf am awgrymu bod modd datrys hyn, drwy gynnig cyrsiau byr sy'n tynnu ynghyd athrawon, staff dysgu o'r asiantaethau diwylliannol, a'r trefnwyr cymunedol i feithrin cyd-ddealltwriaeth a phroffesiynoldeb.

Fel y nododd Asiantaeth Ffilm Cymru yn ystod ein hymgynghoriad:

*'Mae cydweithio ag ysgolion i gydnabod arferion gorau yn faes sydd angen cymorth pellach. Nid oes canllawiau cenedlaethol ac mae ysgolion yn aml yn nodi ei bod yn anodd dod o hyd i ddarpariaeth o safon uchel, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig o amddifadedd'.  
~ Asiantaeth Ffilm Cymru*

Y prif beth y mae angen ei wneud yw rhoi hyder i athrawon bod diwylliant yn gallu

eu helpu i gyflawni eu tasgau craidd – **gan wella safonau a sgiliau ar draws y cwricwlwm, ond yn benodol ym maes llythrennedd ei hun.** Efallai mai'r ffordd orau o ddatrys problem hyder athrawon a DPP yw bod sefydliadau allanol yn cymryd rhan fwy – a thrwy ddarparu'r dystiolaeth sy'n dangos yr effaith ar ddeilliannau. Gwnaed y sylw yn aml fod athrawon yn tueddu i ystyried treftadaeth fel pwnc hanes, pan fo ganddi gymaint mwy i'w gynnig i'r cwricwlwm ehangach – o ddaearyddiaeth i fathemateg i ddinasyddiaeth.

Cyfeiriodd yr Athro Smith yn helaeth at yr angen i ddatblygu rhaglenni DPP fel y gall athrawon weld cysylltiad clir rhwng profiadau a gweithgareddau diwylliannol a llwyddiant academaidd, ac **rwyf am ategu hynny'n llawn.** Byddai cyfleoedd DPP dan arweiniad artistiaid ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd hefyd yn gyfle gwerthfawr i weithio gydag athrawon drwy'r celfyddydau. Ond nid dim ond athrawon sydd â rôl; mae Cynorthwywyr Addysgu yn adnodd i'w ddefnyddio. Gallan nhw gymryd rhan lawn yn rhaglen greadigol yr ysgol gyfan, a chreu mwy o gapasiti i'r ysgol gyfan yn y broses. Dylai fod yna ddarpariaeth, felly, i gynnwys Cynorthwywyr Addysgu mewn DPP.

### ARGYMHELLIAD 20

Llywodraeth Cymru, consortia addysg, cyrff hyfforddi priodol a chyrrff diwylliannol i **ddatblygu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus** i'w gwneud yn bosibl i athrawon dan hyfforddiant, athrawon, a chynorthwywyr addysgu fanteisio i'r eithaf ar effaith addysgol profiadau a gweithgareddau diwylliannol ar gwricwlwm yr ysgol, yn enwedig o ran llythrennedd, i ysgogi a chreu llwyddiant.

Hefyd mae angen deunyddiau dysgu neu becynnau adnodd cliriach sy'n nodi beth yw'r cysylltiad o ran llythrennedd a rhifedd mewn ffordd fwy amlwg nag ar hyn o bryd, ac sy'n dangos y cysylltiad ehangach

â'r cwricwlwm. Er mwyn gwneud hyn, rwy'n awgrymu y dylai'r cyrff diwylliannol weithio gydag athrawon a'r consortia addysg rhanbarthol i ad-drefnu a symleiddio'r deunyddiau dysgu presennol, a gwneud hynny'n flaenoriaeth.

## ARGYMHELLIAD 21

Llywodraeth Cymru a sefydliadau diwylliannol i gydweithio i **gydgrynhai ac ail-ffocysu'r deunyddiau dysgu** i sicrhau bod cysylltiadau rhwng llythrennedd, rhifedd a dysg yn fwy cyffredinol yn glir, a'u darparu drwy un porthol sydd wedi'i gysylltu â'r Hwb.

Yn sicr, gydag ysgolion a chyrff diwylliannol yn rhannu eu harferion gorau ar rwydweithiau Dysgu Creadigol yn unol ag argymhelliad yr Athro Dai Smith, dylai fod yna ffyrdd o gyfoethogi a chynnal partneriaethau. Ond er mwyn gwneud y mwyaf o hyn, rhaid rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau iawn i athrawon. Dyma lle mae angen i ddarparwyr dysgu y tu allan i ysgolion ddod ynghyd i rannu'r hyn maen nhw'n ei wybod am y dulliau mwyaf effeithiol o ddysgu, sut i'w gwneud yn hawdd i athrawon gael yr wybodaeth hon, lle mae hawsaf cael gafael ar wybodaeth am gysylltiad â'r cwricwlwm ac adnoddau a pharai sydd fwyaf defnyddiol, a sut i 'lawrlwytho' neu wneud rhywbeth yn rhan o broses addysgu a dysgu, y cymorth a'r adnoddau cyfoethocaf sydd gan amgueddfeydd, yr amgylchedd hanesyddol, y celfyddydau a chyrff diwylliannol eraill. Dull arall o rwydweithio a lledaenu arferion gorau fyddai drwy ddigwyddiadau a gynhelir eisoes fel cynadleddau cenedlaethol i benaethiaid.

Yn olaf, mae yna alw cyson am fwy o gydlyniant a disgwyliadau cliriach o ran yr wybodaeth a ddarperir am yr elfen ddiwylliannol a'r hyn y gall ei gynnig i ysgolion (yn ogystal â chymunedau), yn enwedig y rheini mewn ardaloedd difreintiedig neu sydd dan anfantais. Rwyf o'r farn bod angen Un Porthol ar drefnwyr cymunedol, athrawon, a'r cyrff

diwylliannol eu hunain, a hynny ar frys. Byddai hwn, ar y lefel fwyaf sylfaenol, yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd diwylliannol sy'n bod eisoes ac sydd ar y gweill, a thystiolaeth gref o'r manteision all ddod yn sgil profiadau diwylliannol. Mae'n bosibl hefyd y gallai gyfeirio pobl at wybodaeth ac adnoddau am hyfforddiant a deunyddiau. Nododd yr Athro Dai Smith yr angen hwn yn glir iawn hefyd. Y flaenoriaeth yw sicrhau llwyfan amlycach i'r hyn y gall y cyrff diwylliannol ei gynnig a'r hyn y maent yn ei gynnig ar hyn o bryd. Ynndo'i hun, byddai'r 'marchnata' hwn yn cynyddu'r ymateb a'r ymgysylltiad ymhlith ysgolion a phobl sydd nawr ond yn cael gwybodaeth os ydynt yn digwydd dod ar ei thraws. Er y gallai fod yna oblygiadau o ran cost, dylid ymchwilio i'r opsiynau o ran integreiddio â phlatfformau ac adnoddau fel Hwb a Chasgliad y Werin Cymru. Gellid ymchwilio hefyd i opsiynau eraill, er enghraifft cytuno ar ddiffiniad cyffredin o dermau chwilio i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i adnoddau ar y we.

## 5.6 Casgliad

Yr allwedd i gynnal diwylliant effeithiol o ymgysylltu â phartneriaid allanol, integreiddio'r hyn a gynigir y tu allan i ysgolion ac o fewn ysgolion, cadw sgiliau yr athrawon yn ffres, a chanolbwyntio mewn ffyrdd creadigol ar ddarparu'r sgiliau allweddol y mae pobl ifanc eu hangen, wrth gwrs, yw sicrhau bod y newidiadau hyn yn dod yn rhan o DNA yr ysgol gyfan – yn rhan o gynlluniau cyflawni a gwella ysgolion. Dylai arweinwyr yr ysgol ddangos y ffordd, ac mae angen i bob athro, aelod staff, rhiant, llywodraethwr a disgybl wneud ei ran; dylid rhoi gwerth a phroffil ychwanegol iddynt drwy arweinyddiaeth genedlaethol a lleol. Drwy wneud hyn yn flaenoriaeth glir, bydd pob profiad o berfformiad, neu fynegiant o hanes a diwylliant lleol, neu ymgais i ymchwilio i'r hanes a'r diwylliant hwnnw yn dod yn rhan o bolisi dysgu effeithiol yr ysgol – yn elfen amlwg ym maes llythrennedd a rhifedd ac ym mhob rhan o'r cwricwlwm a phrofiad y plentyn fel dysgwyr annibynnol.

## Pwysigrwydd Lleoliad: Lle Am Sgiliau

Y themâu sydd wedi codi'n gyson drwy'r adroddiad hwn yw'r angen am integreiddio gwybodaeth, polisi, darpariaeth a chyllid. Rydym wedi trafod sut i ddod â diwylliant a threftadaeth yn nes at y bobl – a sut i wneud adnoddau lleol yn fwy hygyrch i bobl a sgiliau lleol. Mae'r bennod olaf hon yn cymhwyso'r un egwyddorion o ran dealltwriaeth, ennyn diddordeb a sgiliau am oes mewn perthynas â threftadaeth leol a chenedlaethol Cymru. Mae'n ymwneud â sut i greu lleoedd gwell i fyw a chymunedau mwy medrus a llwyddiannus.

Mae'r gymuned yr ydym yn byw ynddi yn dylanwadu ar bob un ohonom, ac mae pob cenhedlaeth yn ail-lunio'r gymuned honno. Mae Cymru yn llawn treftadaeth 'arferol' a henebion ac mae ein cymunedau yn gwerthfawrogi'r ddau fath. Yr her yw sicrhau bod digon o gapasiti i ofalu am y dreftadaeth honno ar gyfer y dyfodol ac i fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddi a'r swyddi yn y sector diwylliannol a threftadaeth a'r diwydiannau creadigol.

Mae'r bennod hon yn dilyn rhesymeg yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni hynny: i sicrhau bod plant ac oedolion yn deall ac yn gwarchod eu treftadaeth eu hunain, ac yn ei phasio ymlaen at y genhedlaeth nesaf, a hynny'n addas at y diben. A, lle bo'n bosibl, bydd yr asiantaethau diwylliannol a threftadaeth yn cydweithio i greu cyfleoedd newydd ar gyfer pobl leol i ddysgu ac i feithrin sgiliau perthnasol, a'u bod yn gwneud hynny mewn partneriaeth â'r gwasanaethau swyddi a gyrfaoedd, er mwyn achub bob cyfle i drosi'r cymhelliant i ddysgu a gweithio yn sgiliau go iawn a swyddi da drwy strategaethau cenedlaethol ar gyfer gwirfoddoli a phrentisiaethau 'creadigol'.

Mae bod yn ymwybodol o werthoedd a phosibiliadau treftadaeth yn golygu mwy na byw mewn cymunedau sy'n llawn cymeriad a bywyd ond hefyd mae'n golygu rhoi gwaith i deuluoedd di-waith. Mae iddo bwrpas cymdeithasol hyd yn oed ehangach: mae annog pobl i ddeall gwerth y dreftadaeth leol sydd gennym ar garreg ein drws yn ffordd arall o neidio'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn diwylliant ffurfiol.

Yn y fenter hon, y prif bartneriaid yw'r cyrff hynny sy'n ymwneud yn bennaf â'r cyfoeth o dreftadaeth yng Nghymru: ein hamgueddfeydd cenedlaethol a lleol, archifau, Cadw, yr ymddiriedolaethau archaeolegol, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a llawer o gyrff gwirfoddol fel cymdeithasau hanesyddol lleol. Mae ganddynt oll ran i'w chwarae mewn datblygu llif o ran sut y gall Cymru wneud y gorau o'i chyfoeth o dreftadaeth unigryw a chymeriad ei lle. Fel y mae Cadw yn nodi; mae cydnabod cymeriad hanesyddol y dirwedd cyn 1918 o ran y tai a'r strydluniau sy'n unigryw i Gymru, yn gallu arwain at wella ac adnewyddu sydd nid yn unig yn gwella'r stoc dai yn gyffredinol, ond sydd hefyd yn sensitif o gymeriad y tai, cynaliadwyedd a pherfformiad.

Nododd Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog, sy'n chwaraewr allweddol arall, y cyfleoedd sydd ar gael i adeiladau hanesyddol chwarae rhan yn yr agenda trechu tloedi drwy'r camau canlynol:

- Mynd i'r afael ag anghenion lleol penodol fel tai fforddiadwy drwy drwsio adeiladau hanesyddol;
- Adfywio canol trefi penodol sydd wedi dirywio, efallai drwy ganolbwyntio ar ail-feddiannu siopau lleol;
- Darparu cyfleusterau drwy gaffael adeiladau hanesyddol a'u haddasu; a
- Darparu hyfforddiant sgiliau drwy drwsio adeiladau hanesyddol mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o ddiweithdra.

Mae prinder o ran llawer o'r sgiliau hyn ac mae'r farchnad lafur yn galw amdany'n nhw.

Yng Nghymru, gyda'r her o helpu teuluoedd heb waith i feithrin sgiliau a sicrhau swyddi a gwella adeiladau a dyfodol ein cymunedau sydd wedi dirywio fwyaf, mae'r rhain yn bosibiliadau realistig.

Yn wir, maent eisoes wedi profi yn llwyddiannus. Roedd trefnwyr Cymunedau yn Gyntaf yn ein hymgyngoriad yn glir bod prosiectau sy'n cael eu harwain gan dreftadaeth neu'r amgylchedd a oedd yn cynnwys arolwg, ymchwil a gwaith ymarferol yn y gymuned, ynghyd â phrosiectau sy'n seiliedig ar yr amgylchedd, yn denu llawer o ddi-ddordeb ac ymrwymiad gan oedolion, yn enwedig os oedd canlyniadau clir o ran y sgiliau. Cafwyd nifer o enghreifftiau yn ystod ein camau ar gyfer casglu tystiolaeth.

O ran yr elfen amgylcheddol, mae gwaith Groundwork ledled Cymru yn dangos sut y gellir meithrin sgiliau a'u cymhwyso i drawsnewid mannau yn lleol. Gellir cymhwyso'r un model i'r amgylchedd hanesyddol, strydluniau a thirluniau, yn ogystal ag adeiladau neu henebion unigol. Yn wir, mae Groundwork yn dangos mai gwirfoddoli yn aml yw'r llwybr i sicrhau swyddi cynaliadwy. Pe bai rhwydwaith o brentisiaethau yn cefnogi'r broses wirfoddoli, gyda chymorth gan asiantaethau cymdeithasol, asiantaethau gyrfaoel ac asiantaethau diwylliannol yn cyd-weithio, gallai hyn fod yn fodel pwerus ar gyfer y dyfodol.

## 6.1 Pwysigrwydd Lleoliad: Cynefin a'r Gymuned

Nid oes term i gyfateb i 'cynefin' yn y Saesneg. Mae'n golygu naws am le ac amser; i fod yn ymwybodol o hunaniaeth a chael synnwyr o berthyn. Mae'n dderm sy'n cael ei ddefnyddio fwyfwy mewn testunau Saesneg er mwyn dangos bwriad a chymeriad rhaglenni cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'u hamgylchedd corfforol.

Mewn sawl rhan o Gymru, wrth i gyfnod y diwydiannau ymbellhau ac wrth i'r tirlun

newid, ac wrth i fywyd cyfoes dorri ar fywyd gwledig, nid yw llawer o blant yn gwybod hanes yr ardal maent yn byw ynddi, neu maent yn colli cysylltiad â'i hanes. Ar yr un pryd, er nad yw bob amser yn glir i'w weld, mae pob plentyn wedi etifeddu yr hanes cyffredinol y mae lleoedd, adeiladau, tirluniau ac atgofion yn cyfrannu ato. Nid yn unig mae'r rhain yn rhan o'r hanes lleol – boed hynny'n Neuadd lesiant leol y Glowyr neu Ogorff y Siartwyr – ond maent wedi cyfrannu at ddyfodol y byd hefyd. Mae llawer o Safleoedd Treftadaeth y Byd yma yng Nghymru, mewn tirluniau diwydiannol enfawr, fel tirlun llechi Gwynedd a gweddillion y Coporopolis yn Abertawe, yn llawn hanes cymdeithasol a diwylliannol pwysig i Gymru, Prydain Fawr a'r Byd.

Y Cwricwlwm Cymreig arfaethedig, sydd yn y camau cynnar o gael ei ail-ddylunio, yw'r cyfle perffaith i sicrhau bod plant ysgol yn meithrin dealltwriaeth o'u treftadaeth leol a'i phwysigrwydd, a thrwy hynny, yn datblygu'r wybodaeth a'r empathi ar gyfer bod yn ddinasyddion gweithgar. Gellir modelu'r rhaglen hon, sydd wedi'i threialu mewn ysgolion sydd wedi mabwysiadu'r cysyniad hwn o Gynefin mewn gwahanol rannau o Gymru, ar raglen Heritage Schools Lloegr a'i haddasu ar gyfer Cymru. Datblygodd y rhaglen yn Lloegr o ganlyniad i adroddiad Henley. Gallai canlyniadau cynllun o'r fath gynnwys:

- Plant sy'n deall eu treftadaeth leol a'r modd y mae'n ymwneud â'r stori genedlaethol a dod yn fwy balch ac ymwneud mwy â'r ardal maent yn byw ynddi;
- Athrawon yn dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio adnoddau treftadaeth lleol yn effeithiol wrth ddarparu'r cwricwlwm a gallu gwneud hynny gyda chymorth partneriaid diwylliannol yn ogystal â phartneriaid treftadaeth;
- Y cyd-destun hanesyddol lleol yn dod yn rhan amlwg o gwricwlwm yr ysgol ac yn cael ei ddefnyddio fel adnodd;
- Darparwyr treftadaeth yn deall anghenion ysgolion lleol yn well;
- Rhieni yn cymryd rhan yn yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu ac yn fwy tebygol o fod

yn weithgar eu hunain mewn bywyd cymunedol; a

- Cymunedau yn dod yn fwy canolog ym mywyd ysgolion.

Mae dysgu am dreftadaeth leol, fel y mae tystiolaeth o Loegr yn ei awgrymu, nid yn unig yn helpu i gyflenwi'r cwricwlwm hanes a daearyddiaeth, ond mae hefyd yn ysbrydoli creadigrwydd, datblygu llythrennedd, ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o saerniaeth a dylunio ac mae'n annog pobl ifanc i werthfawrogi a gwarchod y dreftadaeth o'u hamgylch.

Gall y model hwn, sydd wedi'i addasu ar gyfer Cymru, elwa o'r cyfoeth o adnoddau hanesyddol a threftadaeth sydd gennym ar garreg ein drws – yn ein tirluniau a'n strydluniau diwydiannol, ein henebion a phrosiectau Cadw, adnoddau'r Comisiwn Brenhinol ac eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mewn casgliadau ac archifau hanes lleol. Fe allai, yn benodol, fod yn gysylltiedig â Chynllun Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan a fyddai'n helpu i nodi'r lleoedd hynny – yn rhai trefol a gweledig – lle y gellir treialu'r prosiectau. Mae'n bosibl y bydd rhai yn cynnwys safleoedd sydd eisoes yn rhai Treftadaeth y Byd a rhai posibl hefyd.

Bydd sector yr Amgylchedd Hanesyddol ledled Cymru yn ganolog i'r hyn y gellir ei gyflawni ac maen nhw'n frwdfrydig dros wneud hynny. Mae llawer o gyrff, gan gynnwys Cadw, CBHC a'r ymddiriedolaethau archaeolegol eisoes yn gweithio gyda grwpiau ieuentid a chymunedol mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r Ymddiriedolaeth Ddinesig, er enghraifft, eisoes wedi llunio methodoleg a allai ategu'r cwricwlwm mewn rhifedd a llythrennedd ynghyd â dealltwriaeth o 'le'. Byddai'r ymddiriedolaethau archaeolegol yn bartneriaid allweddol eraill. Mae'r pedwar ohonynt yn cynnal rhaglen allgymorth i gynnwys pob rhan o'r gymdeithas, gan gynnwys teithiau cerdded, sgysiau, arddangosfeydd, ymweliadau ysgol, cyfleoedd gwirfoddoli, cofnodi cymuned.

Gallai clystyrau o ysgolion mewn ardaloedd peilot, gydag athro arweiniol, gyda chymorth Rheolwr Addysg Treftadaeth, hefyd fod yn gysylltiedig â'r ddwy rwydwaith Dysgu Greadigol arfaethedig a'r rhwydwaith Cymuned a Diwylliant i ddarganfod partneriaid diwylliannol i weithio ochr yn ochr â hwy o ran drama a cherddoriaeth, er enghraifft, i dynnu sylw at y cyd-destun lleol hyd yn oed yn fwy. Byddai ysgolion yn cael eu hannog i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu ac arferion da mewn cyfarfodydd clwstwr gyda chyrrff treftadaeth lleol a chyda rhieni a'r gymuned ehangach. Mae digwyddiadau sy'n rhan o gynllun Lloegr wedi cynnwys athrawon arweiniol yn dangos datblygiadau yn y cwricwlwm drwy gyflwyniadau ac arddangosfeydd a chynyrchiadau drama a sioeau treftadaeth ar y cyd rhwng ysgolion.

Byddai angen gwneud cais am gyllid allanol a'i baru er mwyn datblygu'r rhaglen a thalu am y gost o ryddhau'r athro arweiniol ar gyfer hyfforddiant a chyfarfodydd. Byddai angen rhywfaint o gyllid canolog hefyd i helpu cyrrff diwylliannol/treftadaeth a gwaith partneriaeth ym mhob clwstwr peilot, fel eu bod yn gallu diwallu anghenion yr ysgolion yn well. Gellir cysylltu'r rhaglen â Bagloriaeth Cymru, mewn rhai achosion, neu gyda rhai agweddau ar gwricwlwm Cyfnod Allweddol 3 sydd wrthi'n cael eu llunio. Gallai'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen gael plac, i gydnabod eu hymrwymiad i wneud treftadaeth leol yn rhan o'r cwricwlwm ac annog pobl ifanc i fod yn rhan o hanes yr ardal y maent yn byw ynddi.

Y canlyniad fyddai plant ac oedolion ag ymwybyddiaeth well o'u teulu eu hunain a'r hanes lleol; gyda gwybodaeth fwy trylwyr o'u gwreiddiau diwylliannol ac ystyr y tirluniau o'u hamgylch; pobl sy'n fwy angerddol tuag at fywyd cymunedol yn gyffredinol, ei gorffennol a'i dyfodol ac yn fwy parod i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol. Yn gryno, mae hyn yn golygu cylch rhinweddol o feithrin dealltwriaeth well o'r diwylliant, y dreftadaeth a'r gymuned leol sydd wedi helpu i'w llunio ac sy'n cyfrannu at eu dyfodol, ac awydd i ofalu amdanynt yn well. Rwy'n argymhell felly bod nifer fach – pedwar o bosibl – o glystyrau peilot Cynefin yn cael eu sefydlu ledled Cymru i fodelu'r cynigion hyn.

Llywodraeth Cymru i gydweithio â'r sector treftadaeth a diwylliant i dreialu **clystyrau Cynefin**, wedi'i fodelu ar y fenter Heritage Schools yn Lloegr, a fydd yn gosod treftadaeth leol wrth wraidd y cwricwlwm.

## 6.2 Cymunedau Cynefin; Treftadaeth Unrhyw Le a Phob Lle

Bydd ysgolion Cynefin, sef y cynnig i roi treftadaeth leol wrth wraidd y cwricwlwm, yn rhoi cyfle i blant gysylltu â'u hanes, a bydd hynny wedi'i adlewyrchu yn yr adeiladau, y strydoedd, a'r tirluniau sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig yr ardal maent wedi ei hetifeddu. Mae canolbwyntio ar dreftadaeth lle yn fodd pwerus o ysgogi diddordeb oedolion a theuluoedd yn eu hanes lleol eu hunain, a hyd yn oed meithrin sgiliau newydd.

Mae eisoes digon o gymhellant i fynd i'r afael â'r hanes lleol a'r sgiliau y gall pobl yn

eu harddegau ac oedolion eu datblygu yn sgil hynny. Mae rhaglenni archaeolegol cymunedol yn dangos pa mor frwdfrydig y gall y rheini sydd ynghlwm fod – p'un a ydynt yn eu harddegau neu'n oedolion – ac mae'n ail-bwysleisio'r ffaith fod llawer o archaeolegwyr eu hunain yn dewis y proffesiwn o ganlyniad i wirfoddoli gydag ymgais gloddio yn hytrach nag addysg uwch. Mae Cadw ei hun wedi ceisio mynd i'r afael â rhai o'r sefyllfaoedd mwyaf heriol ac mae wedi gwneud hynny'n llwyddiannus, gan gynnwys troseddwy'r ifanc drwy'r prosiect Mortaria arloesol. Yn ehangach na hynny, mae cynlluniau Amgueddfa Cymru i ddenu pobl ifanc i Sain Ffagan drwy ymgymryd â gweithgareddau ailadeiladu archaeolegol yn tyfu a ffynnu wrth i'r amgueddfa gael ei hailddatblygu.

Mewn cyd-destun ehangach, mae sylfeini cadarn gennym i'w hadeiladu arnynt. Mae'r ymddiriedolaethau archaeolegol eu hunain wedi bod yn gweithio gyda chymunedau yn eu rhanbarthau am lawer o flynyddoedd ar brosiectau i gysylltu â'r amgylchedd hanesyddol lleol ac erbyn hyn, mae'n cael ei gydgysylltu

## ASTUDIAETH ACHOS: Cadw yng Nghaernarfon: Etifeddiaeth ar waith sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

Gellir dadlau mai castell Caernarfon yw'r castell y mae pobl yn ei adnabod fwyaf yng Nghymru. Ynghyd â waliau canoloesol y dref, mae'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ac mae bron 200,000 o bobl yn ymweld â'r castell bob blwyddyn – o'r DU a thramor.

Tua milltir y tu allan i'r dref, mae Segontium, sef gweddillion canolbwynt gweinyddol a milwrol gogledd-orllewin Cymru yng nghyfnod y Rhufeiniaid, sydd erbyn hyn yng nghanol tai ac mae o fewn un o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Nid yw'r gymuned leol wedi cymryd at yr un o'r ddau. Mae'n bosibl bod hyn am eu bod yn eu cymryd yn ganiataol, neu yn achos y castell, yn ei ystyried yn rhywbeth sy'n perthyn i dreftadaeth estron ac yn rhywle ar gyfer twristiaid yn hytrach na'r bobl leol. Yn waeth na hynny, roedd Segontium yn cael ei fandaleiddio ac roedd pobl yn ymgynnull yno ac yn ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, a oedd yn rhwystro ymwelwyr rhag mynd yno ac yn digalonni ei hyrwyddwyr lleol.



© Llywodraeth Cymru – Cadw

Yn 2011, cyflwynwyd camau gweithredu i roi cyfle i bobl leol aildarganfod yr henebion, a chymeriad hanesyddol glannau'r dref yr oedd pobl wedi anghofio amdano. Mae digwyddiadau sy'n agor y castell i'r dref yn rhan o gynllun sy'n ategu agwedd newydd tuag at ddehongli'r cofeb. Mae'r gaer frenhinol yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd a gellir adrodd y straeon canoloesol arbennig hyn drwy ddarluniau/sioeau a dramâu, ond gall cymeriad y dref, ei hiaith a'i diwylliant hefyd gael eu dathlu o'r castell. Ar ben hynny, gall ei apêl a Rheilffordd Eryri helpu i adfywio'r glannau y mae'r dref fwy neu lai wedi ei anwybyddu ac mae partneriaeth gadarn rhwng cyrff lleol a chenedlaethol yn cydweithio i adfywio'r ardal yn raddol.

Agwedd Cadw tuag at Gaer Rufeinig Segontium oedd ennyn diddordeb y gymuned leol drwy gynnal digwyddiadau a gweithgareddau cyfranogol, gweithio gydag amrywiaeth o ddeiliaid diddordeb lleol gan gynnwys Amgueddfa Gwynedd, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd ac artistiaid lleol. Mae adeilad diffaith yr amgueddfa wedi ei adnewyddu i fod yn aml-bwrpas ar gyfer y gymuned, at ddibenion twristiaeth addysgol a threftadaeth, ac i nodi bod y safle yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn ased. Mae'r dehongli i fod yn gadarn, yn berthnasol ac yn hwyl. Mae swydd Swyddog Datblygu Treftadaeth Cymunedol wedi ysgogi diddordeb y gymuned leol. Ariennir y swydd ar y cyd gan Cadw a Chyngor Gwynedd.

fwyfwy drwy raglen genedlaethol, dan arweiniad Cadw. Gall ddarganfod darn archaeolegol fod yn gyffrous iawn a gall helpu oedolion i feithrin sgiliau newydd a throsglwyddadwy – fel arolygu a chofnodi – ac mae cymunedau'n cael eu hannog i nodi eu mentrau eu hunain. Un enghraifft o'r agwedd hon yw prosiect yr Arfordir, sy'n monitro a chofnodi effaith erydu arfordirol a lefelau'r môr ar dreftadaeth arfordirol, a gwaith Cadw yng Nghaernarfon (gweler yr astudiaeth achos).

Mae'n amlwg bod galw ymhlith y gymuned am y math hwn o weithgarwch. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau treftadaeth sy'n rhan o raglenni blynyddol – fel Open Doors (sydd ar hyn o bryd yn cael ei gyd-gysylltu gan Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru) a'r Festival of Archaeology (a gyd-gysylltir gan y Cyngor Archaeoleg Brydeinig) yn gallu ysgogi ymateb pwerus i'r hyn sy'n aml iawn yn flas cyntaf ar hanes lleol. Mae cyfleoedd amlwg ar gael i lunio'r rhaglenni hyn mewn partneriaeth, yn enwedig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Yn ystod y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod yr adolygiad hwn rhwng pobl broffesiynol yr amgylchedd hanesyddol a threfnwyr Cymunedau yn Gyntaf, a thrwy gynnal sgysiau mewn ardaloedd lleol ynghylch sut i annog pobl i gymryd rhan mewn prosiectau archaeolegol cymunedol, canfuwyd bod pobl yn frwdfrydig dros faterion o'r fath a bod rhai enghreifftiau arbennig o'r hyn y gellir

ei gyflawni. Mae llawer o brosiectau o'r fath wedi cael cymorth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Er nad yw'n gallu trechu tlodi yn uniongyrchol, mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau, y mae cyd-nerthu'r gymdeithas wrth eu gwraidd – ac mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn dealltwriaeth well o'r dreftadaeth leol.

Rhagdybir y gellir datblygu rhaglenni Cynefin lleol sy'n seiliedig ar y gymuned, y gellir, ond nid o reidrwydd, eu cysylltu â chlystyrau ysgolion Cynefin, sy'n canolbwyntio ar ddatgelu gwybodaeth leol, deall hanes 'Lle', a datblygu sgiliau. Mewn lleoedd lle mae un o henebion Cadw, gallai hyn fod yn ffocws ar gyfer rhaglen warchodaeth sy'n seiliedig ar y gymuned. Mewn lleoedd lle nad oes henebion, efallai y byddai rhaglen i bennu nodweddion cymunedol yn annog pobl i gymryd rhan a datblygu sgiliau lleol. Mae fframwaith Archaeoleg Gymunedol Cadw yn ymddangos fel llwyfan arbennig ar gyfer datblygu'r cysyniad hwn; byddai angen cymorth gan swyddogion datblygu ymroddedig.

### ARGYMHELLIAD 23

Sector yr Amgylchedd Hanesyddol i **adeiladu ar egwyddorion y fframwaith Archaeoleg Cymunedol** a ddatblygwyd gan Cadw, a defnyddio asedau diwylliannol a hanesyddol eraill mewn cymunedau lleol fel amgueddfeydd ac archifau lleol, er mwyn sefydlu egwyddor Cynefin yn y gymuned ehangach.

## 6.3 Y Lle ar Gyfer Sgiliau; Diwylliant a Threftadaeth Ynghyd

Un o'r themâu cyson sy'n ymddangos o gymryd rhan mewn prosiectau diwylliannol a threftadaeth o bob math, yw nid yn unig eu gallu i ddatgelu brwdfrydedd gydol oes, ond hyd a lled eu gallu i greu byd newydd o sgiliau hanfodol ar gyfer y byd gwaith.

I oedolion sydd heb sgiliau sylfaenol, ond nad ydynt yn barod i wynebu'r stigma o orfod mynychu dosbarthiadau dysgu ffurfiol, gall y celfyddydau creadigol a mynegiannol ddarparu 'dysgu yn ddistaw bach', drwy waith creadigol yn y celfyddydau, a all, yn ei dro, noddi mynediad i lythrennedd gwell ac i ddysgu cynyddol.

Mae yna gyfle i helpu pobl ifanc hefyd i ddarganfod y cymhelliant a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y swyddi maent yn dymuno'u cael. Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid newydd yn cyflwyno dull newydd o gysylltu ag uchelgeisiau pobl yn eu harddegau cynnar y tu allan i addysg a hyfforddiant ffurfiol, ac er mwyn darganfod yr hyn sy'n eu hysgogi a'u diddori. Mae cyfle amlwg i asiantaethau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth fod yn rhan o'r drafodaeth gynnar hon ac i ddarganfod dulliau o gyfrannu at y rhaglen.

Mae llawer o oedolion yn ei chael hi'n anodd, hyd yn oed yn teimlo eu bod yn cael eu bychanu, i gyfaddef eu bod yn cael anawsterau gyda darllen ac ysgrifennu – ac yn cael eu cau allan o'r gweithle o ganlyniad i hynny. Hyd yn oed pan fydd cyrsiau ar gael, dywedodd un gweithiwr datblygu cymunedol wrthym fod rhai pobl sy'n ymrwymo i ddod, ddim yn troi i fyny. Man cychwyn er mwyn magu'r hyder i ddysgu yw'r gweithgareddau celf a chreffft y mae llawer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lleol yn eu cynnig, a gall hyn fod yn llwyfan i ddysgu mwy ffurfiol. Nid o reidrwydd y gweithgareddau eu hunain sy'n bwysig, ond natur ymarferol datblygu sgiliau newydd a chwrdd â phobl eraill drwy gymryd rhan. Mae cyfleoedd hefyd ar gael i 'feithrin sgiliau yn ddistaw bach',

gan ddatblygu gweithgareddau llythrennedd a rhifedd nad yw pobl hyd yn oed yn sylweddoli eu bod yn gwella'u sgiliau sylfaenol. Mae'r cyrsiau yn gam tuag at fagu hunanhyder, tuag at ddysgu pellach, hyfforddiant, ac yn y pen draw, yn gam tuag at sicrhau swyddi cynaliadwy. Mae'r rhain yn strategaethau lleol iawn, ac mae'r effaith yn anodd iawn ei rhagweld, ond maent yn amlwg yn fodd pwerus o helpu pobl i gymryd y camau cyntaf tuag at ddysgu ac ennill arian. Mae'r partneriaethau newydd rhwng Diwylliant a'r Gymuned ar lefel leol yn fforwm amlwg ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon ac ar gyfer trefnu strategaeth gydlynol gyda'r cyrff diwylliannol i wneud y pontio i ddysgu yn flaenoriaeth.

Mae cymorth awdurdodau lleol hefyd yn hanfodol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cyngor a Sir Abertawe wedi bod yn gweithio tuag at annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y gymuned drwy brofiadau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, treftadaeth a diwylliant o fewn eu cymunedau a thu hwnt iddynt. Swyddogion dysgu o fewn timau Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf sydd wedi arwain yn hyn o beth, sydd wedi annog pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am amser hir, teuluoedd â phlant bach, pobl hŷn a phobl ifanc mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n amrywio o wneud ffenestri lliw, sesiynau hanes teuluol, clybiau gwau a sesiynau llythrennedd creadigol yn y llyfrgell leol.

Mae'r effaith ar bobl ifanc sy'n gweithio mewn amgueddfa neu gyda grŵp theatr yn cael ei ddeall yn iawn er nad yw'r effaith wedi'i chofnodi'n ddigon da. Mae gofalu am adeiladau hanesyddol yn gofyn am sgiliau adeiladu a'r creffttau – gan amrywio o waith cerrig i waith coed; mae gofalu am gasgliadau neu archifau yn galw fwyfwy am gyfleuster ffotograffiaeth, digideiddio delweddau a deunydd, sgiliau dethol, cofnodi ac adfer. Mae sgiliau craidd rhifedd a llythrennedd yn rhan ohono.

Gan weithio gydag actorion a chanwyr, gan helpu i drefnu perfformiadau, neu dynnu cynulleidfa ynghyd, a'r holl dasgau sy'n cynnal hynny, hefyd yn llawn potensial a fydd yn para, fel y gall Theatr Genedlaethol Cymru dystio:



'Mae gan fodel y TEAM lawer o botensial ar gyfer dysgu gydol oes drwy adeiladu ar y camau cychwynnol ar gyfer datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant'. Weithiau mae'r sgiliau hynny, y mae'r gymuned leol yn eu croesawu, er enghraifft yn Nhreforci, yn ymwneud â phaentio, gwaith coed, adeiladu, goleuadau, sain, arlwyyo, dillad, colur a cherddoriaeth. Beth bynnag mae'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ei wneud, mae Theatr Genedlaethol Cymru yn sicr ei fod yn rhoi sgiliau newydd i bobl ifanc a sicrhau eu bod yn barod i fynd â phethau i'r cam nesaf. Mae llawer o'r bobl eraill a ymgynghorwyd â hwy yn nodi profiadau tebyg.

Mae hefyd fodelau cymunedol – a mentrau cymdeithasol – lle mae gwirfoddoli, ynghyd â darpariaeth gymdeithasol, yn arwain at ddatblygu amrywiaeth o sgiliau effeithiol – tra'n adeiladu adnoddau cymunedol yr un pryd. Un enghraifft o'r fath yw GrEW (Grow Enterprise Wales), sef is-elfen o RCT Homes. Dangosodd yr astudiaeth achos y potensial pe bai sefydliadau o'r fath yn cydweithio â chyrrff diwylliannol fel partneriaid lleol i ddarparu rhaglenni o gyfleoedd a fydd yn newid bywydau.

Ond mae trefnwyr cymunedol yn nodi bod materion eraill i fynd i'r afael â hwy cyn y gellir gwireddu potensial diwylliant a threftadaeth o ran sgiliau a swyddi. Mae'n hynod bwysig fod pobl sy'n gweithio gydag oedolion ifanc NEET

## ASTUDIAETH ACHOS: Cartrefi RCT a Magu Menter Cymru (Grow Enterprise Wales (GrEW))

Sefydlwyd RCT Homes yn 2007, sef Landlord Cymdeithasol Cofrestredig mwyaf Cymru a sefydliad Tai Cymunedol Cydfuddiannol cyntaf Cymru. Mae RCT Homes o'r farn fod ganddo gyfrifoldeb i arwain wrth ddatblygu syniadau newydd sy'n ceisio ymestyn pwrpas Tai Cymunedol Cydfuddiannol wrth ysgogi uchelgais yn ein cymunedau ac wrth geisio dod o hyd i ddatrysiadau sy'n eu helpu i ffynnu, drwy wella potensial ar lefel unigol a chymunedol.

Er 2007 mae wedi sefydlu nifer o is-gwmnïau i ehangu ei bwrpas cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys Meadow Prospect, sef elusen gofrestrredig sy'n ceisio adfywio cymunedau drwy botensial cymunedol; GrEW, sef menter gymdeithasol a sefydlwyd yn 2010 er mwyn darparu dysgu seiliedig ar waith; a Chymry Ifanc a ddaeth yn rhan o GrEW i gynnig darpariaeth addysg amgen ar gyfer pobl 14-16 oed sydd wedi'u gwahardd o'r system addysg, drwy'r diwydiannau creadigol. Hyd yn hyn mae 1272 o bobl dan hyfforddiant a gwirfoddolwyr wedi cael cymorth mewn cyfanswm o 1454 o leoliadau.

Defnyddir dulliau i fesur effaith cymdeithasol i gasglu canlyniadau data a thystiolaeth. Mae hyn yn dangos os yw person dan hyfforddiant yn cysylltu â GrEW maen nhw ddwywaith yn fwy tebygol o gael swydd ar ôl chwe mis na phobl leol sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw raglen.

Mae RCT Homes a GrEW yn defnyddio llawer ar hamdden, diwylliant a threftadaeth yn ei weithgareddau i ennyn diddordeb. Mae enghreifftiau'n cynnwys Word On The Street – prosiect



© Grow Enterprise Wales

sy'n ceisio denu pobl ifanc i gystadlu mewn cystadleuaeth ysgrifennu a chreu ffilm fer; Cronfa Tower, cronfa £3 miliwn gan Bwll Glo'r Tower i greu prosiectau cymunedol ac etifeddol bach, gan annog cymunedau i gymryd rhan mewn chwaraeon, y celfyddydau, diwylliant a hamdden; Prosiectau Gwirfoddoli Cymunedol fel ailwampio adeilad hanesyddol; a Ziggies, gweithgaredd darllen a chwarae ar ôl ysgol ar gyfer plant 3 i 8 oed a'u teuluoedd sy'n canolbwyntio ar straeon, gweithgareddau creadigol a gemau. Mae'n annog llythrennedd a sgiliau chwarae ymhlith plant ac oedolion, gan roi rhieni i arwain y grwpiau. Erbyn hyn mae'r rhaglen yn cael ei chynnig mewn 38 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf ac mae rhagor o ysgolion yn dymuno cymryd rhan.

Mae RCT o'r farn ei fod eisoes yn cyfrannu'n dda tuag at wella bywydau pobl a byddai'n croesawu cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid newydd i ddatblygu ac ymestyn effaith ei brosiectau. Mae RCT Homes wrthi'n cynllunio ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu cynllun gwarchod. Bydd y cynllun newydd, o bosibl, yn cynnwys llyfrgell a chanolfan gymunedol, a fydd yn ei alluogi i ymestyn yr adeilad ar lawr arall. Ei nod yw rhedeg y cyfleuster fel cynllun hyfforddi seiliedig ar waith, a sicrhau bod y lle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau ehangach sy'n seiliedig ar ddysgu. Mae hwn yn fodel y mae ganddo ddi-ddordeb edrych arno wrth i lawer o lyfrgelloedd lleol wynebu'r posibilad o gael eu cau.

ac oedolion di-waith yn gwybod yr hyn y gall cyfleoedd treftadaeth a diwylliannol roi iddynt o ran sgiliau go iawn a bod y sgiliau hynny yn cael eu marchnata yn fyw eang, yn fwy amlwg ac yn fwy argyhoeddiadol wrth gyflwyno rhaglenni strategaethol fel rhaglen Trechu Aelwydydd Heb Waith (LIFT) Llywodraeth Cymru.

Y broblem yw nad yw'n glir pa gamau sy'n gweithio, a'r hyn sydd ar gael, ac nid oes un ffynhonnell i droi ati er mwyn canfod hynny.

Fel cam cychwynnol, felly, mae angen archwilio sgiliau ledled y wlad a'i gwneud yn glir pa fath o weithgareddau a phrofiadau all helpu i ddatblygu sgiliau personol, sgiliau ymarferol, sgiliau allweddol a sgiliau technegol. Mae angen i'r cyrff diwylliannol gydweithio i ddatblygu hyn yn gyflym. Wedi'r cyfan – bydd hyn yn cynhyrchu'r sector sgiliau ar gyfer y dyfodol!

#### ARGYMHELLIAD 24

Cyrff diwylliannol i **archwilio sgiliau** a dosbarthu'r wybodaeth sy'n dangos y sgiliau ymarferol y gellir eu magu drwy gymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

Un datblygiad a allai gydgysylltu cyfleoedd gwirfoddoli yn well ar draws y sector treftadaeth yw'r astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Cadw sy'n nodi bod brwdfrydedd o fewn y sector treftadaeth ar gyfer creu cynghrair dreftadaeth. Byddai hyn yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ac yn ffocws ar gyfer mentrau ym maes yr amgylchedd hanesyddol a byddai'n rhoi llais cryfach i dreftadaeth.

Fodd bynnag, mae cyfres o gysylltiadau newydd a strategaethau mwy uchelgeisiol y mae angen eu gweithredu er mwyn creu cynifer ag sy'n bosibl o gyfleoedd hyfforddi a swyddi yn y sector diwylliannol a threftadaeth:

- Y cam cyntaf yw sicrhau bod unrhyw wirfoddolwr, hyfforddiant neu leoliad gwaith sydd eisoes yn cael eu datblygu yn y sector, yn cydlynu'n iawn a bod y gwasanaethau swyddi a gyrfaoedd yn eu cefnogi er mwyn sicrhau bod pob person ifanc ac oedolyn yn cael achrediad a chymorth i sicrhau swydd;
- Yr ail gam: mae angen sicrhau bod y mentrau gwirfoddoli wedi'u cynnull ynghyd a bod angen comisiynu gwaith er mwyn nodi sut fydd cynllun gwirfoddoli ar draws y sector diwylliannol a threftadaeth yn edrych, a'i rhoi ar waith; ac
- Yn dilyn hynny, y trydydd cam yw y dylid sicrhau buddsoddiad ar gyfer datblygu cynllun prentisiaeth llawn ar gyfer y sector diwylliannol,

a fyddai'n adeiladu ar y sylfeini sydd yno eisoes ond a fyddai ganddo ffocws clir ar y diwydiannau creadigol a threftadaeth o ran y canlyniadau.

Mae'r cynnig felly am ysgol gydlynol ac adeiladol sy'n arwain at swyddi a gyrfaoedd ar draws y sector creadigol a'r diwydiannau creadigol.

Mae angen agwedd gydlynol newydd oherwydd ar hyn o bryd, er bod rhai cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddeiaethau gwych, fel cynllun CLOCH (gweler yr astudiaeth achos), nid oes llawer o gymorth neu gyswllt rhwng y gwahanol gynlluniau ar gyfer lleoliadau gwirfoddoli mewn amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a lleoedd eraill, a'r gwasanaethau swyddi a gyrfaoedd. Er mwyn i weithgareddau gwirfoddoli fod yn gam cyntaf effeithiol i'r byd gwaith, ac os yw asiantaethau diwylliannol yn mynd i fod yn barod i gymryd nifer uchel o wirfoddolwyr,

mae angen cefnogi'r cynlluniau, eu monitro a'u hachredu.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri, sydd wedi buddsoddi £4 miliwn i Sgiliau ar gyfer y Dyfodol i greu hyfforddeiaethau, wedi nodi'n glir ei fod am sicrhau cymorth i symud ymlaen o hyfforddeiaethau i helpu i sicrhau swyddi parhaol o ansawdd da. Ond mae cysylltiadau cydlynol gyda gwasanaethau Cyngor Gyrfaoedd a Thwf Swyddi Cymru yn hollbwysig. Mae gormod o gyfleoedd yn cael eu colli i adeiladu ar yr hyn y mae pobl ifanc yn eu meithrin pan fyddant yn gwirfoddoli.

I lawer o bobl, gwirfoddoli yw'r cam cyntaf tuag at y byd gwaith. Mae'n brofiad gwerthfawr a gaiff ei werthfawrogi ac mae'n datblygu sgiliau a gallu ac mae galw mawr amdano. Yn wir, mae gwirfoddolwyr eisoes yn chwarae rhan allweddol wrth helpu cyrff diwylliannol

## ASTUDIAETH ACHOS: CLOCH

Mae prosiect Diogelu Treftadaeth Cymunedau Lleol (CLOCH) yn rhan o raglen 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac mae'n darparu cyfleoedd hyfforddi seiliedig ar waith i 16 o ddeiliaid bwrsariau dros dair blynedd. Mae CLOCH yn brosiect partneriaeth, a arweinir gan Archifau Morgannwg, gan ddod â llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd ynghyd ledled De Cymru i gynnig lleoliadau a phrofiad gwaith yn y sector treftadaeth.

Mae'r hyfforddeiaethau ar gyfer dynion o dan 30 oed sy'n anghyflogedig neu heb weithio mewn swydd â chyflog yn y sector hwn. Mae'r lleoliadau'n arwain at ddysgu achrededig. Mae tystiolaeth gan un o'r cyfranogwyr yn crynhoi'r cyfleoedd y mae'r cynllun yn eu cynnig:



*'Fel person di-waith yng nghymoedd*

© Glamorgan Archives

*De Cymru, roeddwn wedi dechrau colli ffydd oherwydd diffyg cyfleoedd yn yr ardal. Gyda diweithdra cynyddol a chystadleuaeth fawr am hyd yn oed y swyddi isaf, dechreuais dreulio tipyn o fy amser hamdden yn dilyn fy niddordeb mewn hanes a threftadaeth leol trwy wirfoddoli mewn amgueddfeydd lleol. Fy nymuniad oedd cael troed i mewn i'r sector diwylliant a threftadaeth a datblygu sgiliau a gwybodaeth fel y gallwn, ryw ddydd, ddod yn weithiwr proffesiynol yn y maes. Pan soniodd Working Links am y cyfle hwn gyda CLOCH, allwn i ddim credu'r peth. Mi wnes gais am le a thrwy lwc cefais fy newis, ac nid wyf wedi edrych yn ôl ers hynny.*

*Mae prosiect CLOCH wedi rhoi cyflwyniad hynod gynhwysfawr a phroffesiynol i fyd amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Mae'r tri mis o hyfforddiant gydag Archifau Morgannwg wedi agor fy llygaid i bob math o gyfleoedd ac wedi rhoi sgiliau newydd amhrisiadwy i mi ar gyfer fy lleoliad yn Llyfrgell Cwibrân. Rwy'n sicr y bydd y profiad, y cymwysterau a'r hyder y byddaf wedi eu cael erbyn diwedd fy hyfforddiant yn fy rhoi mewn sefyllfa gref iawn i ddatblygu fy ngyrfa mewn unrhyw gyfeiriad.'*

i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil gwarchod a chadwraeth. Mae enghreifftiau di-ri o asiantaethau diwylliannol a threftadaeth yn cymryd gwirfoddolwyr a staff dan hyfforddiant, i helpu gyda digideiddio, cadw cofnodion, rheoli gerddi, stiwardio, cadwraeth a llawer mwy. Mewn ardal dwf bosibl arall, mae llawer o barciau hanesyddol, mannau gwyrdd a strydluniau hanesyddol a allai elwa o sgiliau gwirfoddolwyr a phrentisiaid ifanc.

O ran gwirfoddoli, sgiliau a swyddi yn y dyfodol, mae her sefydliadol a thechnegol enfawr yn wynebu sefydliadau a'u gallu i barhau â digideiddio cofnodion hanesyddol, casgliadau ac adnoddau i roi hanes yn nwylo'r bobl. Mae ITV Cymru wedi rhoi ei archifau unigryw sy'n dangos y rôl y mae darlledu wedi ei chwarae yng Nghymru am fwy na 60 mlynedd. Mae digideiddio'r archif ei hun yn her anferth ac yn un sy'n cynnig cyfle arbennig i wirfoddolwyr gyfrannu, tra'n meithrin sgiliau allweddol yn y broses. Byddai hyn yn rhoi sgiliau gwell i unigolion ac ar ben hynny byddai llawer rhagor o wybodaeth ac adnoddau yn haws cael mynediad iddynt ledled Cymru.

Byddwn yn awgrymu, fel cam cychwynnol, y dylai'r sector gwirfoddol, cyrff diwylliannol a Llywodraeth Cymru edrych ar yr hyn fyddai cynllun diwylliannol cenedlaethol, pa sgiliau fyddai'n cael eu blaenoriaethu a'u hachredu, a sut gellir ei reoli orau.

Yr elfennau hanfodol fyddai sicrhau set o safonau a chanlyniadau sgiliau a fyddai'n cael eu nodi a'u cefnogi fel llwybrau cynyddol i swyddi'r dyfodol. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn digwydd. Hefyd, mae marchnad ar gyfer sgiliau treftadaeth, sy'n brin iawn. Mae sicrhau bod mwy o weithgarwch gwirfoddoli yn cael eu hachredu yn hollbwysig, yn ogystal â sicrhau bod y dystiolaeth yn argyhoeddiadol i ddangos

sut y gallai a sut y mae gwirfoddoli yn helpu pobl i gael swyddi.

Y trydydd cam, yw nodi'r hyn a ddisgwylir, nid yng Nghymru yn unig, ond yn fyd-eang, y bydd y diwydiannau creadigol a diwylliannol yn chwarae rhan bwysig yn economi'r dyfodol.

Byddai symud ymlaen o gynllun gwirfoddoli cenedlaethol, felly, yn rhesymegol, yn fwy ymosodol a chydlynol ar draws Cymru i greu rhagor o sgôp ar gyfer prentisiaethau yn y sector diwylliannol. Mae angen dybryd am raglen gydlynol i godi nifer y prentisiaethau a gynigir i bobl ifanc ledled Cymru ac yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig, gan adeiladu ar y gwaith rhagorol sydd ar y gweill gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol (Cymru). Byddai hyn yn galw am gydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru, y cyrff diwylliannol a chyrff sgiliau fel y corff ar gyfer y DU gyfan, yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Creadigol a Diwylliannol a'r cyrdd addysg bellach. Gallai agwedd o'r fath gael effaith fawr ar un o flaenoriaethau mwyaf pwysig Cymru, sef trechu'r mater o aelwydydd heb waith.



Gwirfoddolwyr o'r prosiect Arfordir a ariennir gan Cadw wrthi'n cloddio anheddiad canoloesol yn Sir Gaerfyrddin © Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

## ARGYMHELLIAD 25

Llywodraeth Cymru, cyrff diwylliannol a'r sector gwirfoddol i edrych ar y posibilrwydd o lunio **strategaeth wirfoddoli ddiwylliannol genedlaethol**, a gyda chynghorau sgiliau'r sector a chyrff eraill, ddatblygu **dull cenedlaethol mwy rhagweithiol a chydlynol o fynd i'r afael â phrentisiaethau diwylliannol** i gael effaith ar strategaethau cenedlaethol i leihau diweithdra.

Yn ogystal â rhoi hwb i sgiliau, mae gan gyrff diwylliannol, yn enwedig ein llyfrgelloedd cyhoeddus, botensial i helpu pobl i gael swyddi mewn dulliau mwy uniongyrchol. Mae llawer o'r cynlluniau rydym wedi'u gweld yn rhoi sylw i roi amrywiaeth lawn o sgiliau TGCh i'w cleientiaid, a pheth iawn yw hynny. Peidio gwybod sut i ddefnyddio'r rhyngwrwyd yw'r prif beth sy'n atal pobl rhag canfod cyfleoedd a swyddi.

Rwy'n llawn edmygedd o glywed am ymrwymiad llawer o wasanaethau llyfrgell i roi pobl ar ben ffordd ar gyfer cyflogaeth. Mae cael mynediad i'r rhyngwrwyd a meithrin sgiliau TGCh sylfaenol yn hanfodol er mwyn i bobl allu chwilio am swyddi, llunio CV a llenwi ffurflenni cais. Wrth i fwyfwy o wasanaethau cyhoeddus symud ar-lein, mae mynediad am ddim i'r rhyngwrwyd a sgiliau TGCh hefyd yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i hawlio budd-daliadau yn y dyfodol wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol.

Yng Nghymru mae gennym enghreifftiau o arferion gorau wrth inni gydweithio i ddatblygu sgiliau TGCh pobl ac wrth ddarparu mynediad am ddim i'r rhyngwrwyd. Fel rhan o'i gylch gwaith, mae Cymunedau 2.0, sef un o raglenni Llywodraeth Cymru sy'n ceisio hyrwyddo cynhwysiant digidol, wedi sicrhau (a helpu yn y broses o wneud hynny) sesiynau cyfrifiadurol galw heibio am ddim mewn llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol eraill o amgylch Cymru. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn darparu rhwydwaith o ryw 280 o fannau mynediad lleol ledled y wlad sy'n cynnig mynediad am ddim i'r rhyngwrwyd, cyfrifiaduron, meddalwedd swyddfa a mynediad gyda chymorth i wasanaethau fel

Universal Jobmatch. Mae Cymunedau 2.0 yn datblygu'r bartneriaeth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith a Chymunedau yn Gyntaf i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth ledled Cymru a byddwn yn cefnogi'r datblygiad hwn yn gryf. Dylai ffynonellau cyllid posibl gynnwys Cyllid Ewropeaidd a rhaglen Sgiliau Ar-lein Sylfaenol newydd y Loteri Fawr.

## ARGYMHELLIAD 26

Llywodraeth Cymru i ystyried cyfleoedd i ddatblygu ymhellach y broses o weithio mewn partneriaeth dan arweiniad Cymunedau 2.0 i **godu nifer y sesiynau TGCh a ddarperir mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a lleoliadau cymunedol ledled Cymru.**

### 6.4 Trawsnewid Lleoedd

Os gall Cymru godi nifer y gweithwyr crefftus yn y sectorau treftadaeth ac adeiladu yn unig, byddai bendant yn bosibl trawsnewid rhai o'r lleoedd hynny yng Nghymru sydd angen cymorth yn druenus, ac mae'r sector treftadaeth yn deall hyn yn iawn. Mae llawer o gyfleoedd er mwyn gwneud hyn. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri eisoes wedi nodi llawer o ardaloedd blaenoriaeth yng Nghymru, lle gellir cydweithio ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, a lle gellir cynnwys y gymuned mewn llawer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys datblygu sgiliau drwy wirfoddoli a hyfforddiant. Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru hefyd strategaeth Adfywio'r Celfyddydau. Mae angen alinio'r gwahanol fentrau hyn gyda fframwaith adfywio Llywodraeth Cymru, *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid*.

Mae astudiaethau i ddisgrifio nodweddion amrywiaeth o drefi ar draws Cymru sydd â hanes a chymeriad amrywiol iawn wedi helpu i ddangos pa mor bwerus yw treftadaeth wrth lunio naws am le. Gall deall y dreftadaeth leol yn y modd hwn ddod â gwerth ychwanegol i fentrau adfywio, gan eu helpu i gydgrynhoi a chryfhau cymeriad a nodweddion unigryw'r ardal leol. Mae gan gymunedau ran bwysig yn y broses hon ac wrth hyrwyddo gwerth nodweddion. Mae'r Ymddiriedolaeth Ddinesig

wedi bod yn helpu Cadw drwy ddatblygu pecynnau cymorth sy'n helpu i gynnal eu hastudiaethau i ddisgrifio nodweddion eu hunain, gan gyfrannu at ddysgu cymunedol ac annog rhagor o gynllunio a gweithgarwch adfywio.

Mae un o'r opsiynau ar gyfer dod ag asiantaethau treftadaeth a diwylliannol ynghyd â sgiliau lleol ac o fewn sgôp y polisi cenedlaethol ar gyfer adfywio yn ymwneud â dyfodol canol ein trefi o bosibl. Fel pob rhan arall o'r DU, mae'r stryd fawr a chanol ein trefi yn newid yn gyflym. Gallai cyrff diwylliannol sy'n gweithio gyda'i gilydd ochr yn ochr ag asiantaethau adfywio annog newid drwy ffynonellau pwerus iawn. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri eisoes wedi dyfarnu £27 miliwn i 32 o Fentrau Treftadaeth Treflun, sydd wedi helpu i wella 500 o adeiladau, creu o leiaf 500 o swyddi, a hyfforddi 320 o bobl mewn sgiliau adeiladu traddodiadol.

Mae rhai enghreifftiau arbennig o fuddsoddiadau mewn treftadaeth yn trawsnewid canol trefi a pharciau hanesyddol, fel Tŷ a Pharc Bedwellte yn Nhrefegar, ond mae gwneud cyswllt hanfodol â strategaeth gydlynol ar gyfer adfywio yn gofyn bod treftadaeth ei hun yn amlwg o fewn y strategaeth adfywio gyffredinol. Mae hwn yn gwestiwn sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth – lleol a chenedlaethol.

Ar ben hynny, mae llawer mwy i'w wneud cyn y bydd y stryd fawr wedi'i hadfywio ac yn llawn addewid. Yng Nghaergybi, mae un model mewn ardal heriol Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys cyfuniad o adfywio treftadaeth, gan fod y stryd fawr wedi'i hadfywio, a heplu busnesau lleol i ddefnyddio'r siopau bach drwy godi ardrethi a phrisiau rhent rhesymol arnynt. Y canlyniad yw rhes o siopau annibynnol sy'n ffynnu sy'n denu rhagor o fasnach a buddsoddiad.

Gellir defnyddio'r model hwn o bartneriaeth ar gyfer llawer o leoedd yng Nghymru ond mae angen eu harwain yn lleol a rhannu

rhaglenni rhwng y llywodraeth genedlaethol a lleol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a chyrrff diwylliannol. Ochr yn ochr â'r siopau annibynnol bach, mae dimensiwn arall y gellir ei ddefnyddio. Mae siopau gwag yn wael i ysbryd y gymuned a busnesau. Gall eu troi yn 'amgueddfeydd dros dro', lleoedd ar gyfer artistiaid, neu lle mae pobl yn cael eu gwahodd i roi cynnig ar greu cartwnau, caligraffeg neu ganu, yn codi ysbryd y dref.

Yng Nghaint, er enghraifft, mae grwpiau archaeoleg lleol wedi meddiannu siopau gwag i ddangos gwaith cadwraeth, ac yng Nghymru, mae Llenyddiaeth Cymru wedi meddiannu siopau gwag ar gyfer cynnal gweithdai darllen ac ysgrifennu. Maent yn pwysleisio sut gallai cyrff diwylliannol gydweithio i ddangos pa mor berthnasol yw eu gwaith eu hunain i rai o'r cymunedau tlotaf yng Nghymru. Er bod angen rhagor o werthuso, mae cyrff arloesol fel Empty Shops Network yn dangos sut gall ymyriadau sy'n seiliedig ar y celfyddydau fod yn fodd o aildefnyddio siopau dros dro (Thompson, 2012) ac mae Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi gweithredu cynllun ar gyfer rhoi cyllid o'r enw '*Art in Empty Spaces*'.

Ond mae angen hefyd arweinyddiaeth benodol, fel bod Llywodraeth Cymru i'w gweld yn cydnabod pŵer sydd gan adfywio diwylliannol a threftadaeth i newid trefi sy'n cydnabod y gall aildefnyddio adeiladau cymunedol cyfarwydd gynnal nid yn unig yr atgof o sut oedd y lle unwaith, ond yr hyn a allai fod yn y dyfodol. Mae'r dystiolaeth o adfywio o'r fath a'i effaith ar sgiliau a swyddi lleol yn argyhoeddiadol, fel y gwelwyd gydag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog, sy'n weithredol yng Nghymru, yn ystod y cyfnod ymgynghori. Hoffwn weld y prif bartneriaid yn cydweithio'n well er mwyn sicrhau bod y pŵer a'r potensial y gall treftadaeth ei chwarae mewn cyfleoedd adfywiol ehangach yn cael eu gwireddu. Dylai hyn gynnwys, o fewn Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Adfywio a Cadw.

Llywodraeth Cymru, Cadw, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog a chyrrff adfywio eraill yng Nghymru i **nodi cyfleoedd i weithredu ar y cyd gan ganolbwyntio ar swyddogaeth bosibl adeiladau hanesyddol** wrth ddatblygu ac adfywio ardaloedd lleol, a manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion yn gynaliadwy.

Ar wahân i'r posibiladau ynghylch adfywio canol trefi, gallai weithio ochr yn ochr â chyrrff diwylliannol ddod â manteision eraill hefyd fel darparu tai mwy fforddiadwy drwy drwsio adeiladau hanesyddol (gan ddefnyddio prentisiaid lleol a lleoliadau gwaith); darparu cyfleusterau lleol drwy gaffael ac addasu adeiladau lleol, a darparu hyfforddiant sgiliau drwy drwsio adeiladau hanesyddol mewn ardaloedd â lefel uchel o ddiweithdra.

Yng Nghymru, nid yn unig mae gennym gyfoeth o henebion cenedlaethol, cestyll, abatai, caerau a thai arbennig, ond yn ogystal â hynny mae gennym amgylchedd hanesyddol lleol cyfoethog, ag adeiladau hardd. Maent wedi cael eu defnyddio fel lleoedd naturiol

a thrawiadol ar gyfer adrodd straeon, fel ein hanes diwydiannol ym mhrosiect 'Crochanau a Ffwrneisi' Cadw yn 2012. Yn yr adeg anodd sydd ohoni, gobeithiaf y bydd yn bosibl i'r asedau arbennig hyn gael eu 'hanimeiddio' gan ddrama, cerddoriaeth a llawer mwy.

Ond mae llawer mwy i dreftadaeth na henebion. Mae gan Gymru gyfoeth o gymunedau unigryw a phrydferth sy'n adlewyrchu treftadaeth arferol bywyd pob dydd sydd yr un mor werthfawr i'r gymuned. Yn wir, cartrefi arferol pobl sy'n gweithio yn y gogledd a'r de yw'r pethau mwyaf diweddar i Gadw eu cael. Mae hefyd yn galonogol iawn gweld bod adeiladau eiconig y gorffennol yn cael bywyd newydd, yn addas ar gyfer dibenion cymunedol heddiw, ond eto i gyd, wedi'u hadfer gyda chreffftwaith gofalus. Mae Hen Neuadd y Dref Merthyr, a Neuadd Goffa Trecelyn, yn enghreifftiau arbennig o fuddsoddiad gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac eraill, ac erbyn hyn maent bron wedi'u cwblhau.

Bydd yr adeiladau arbennig hyn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy fuddsoddi yn y gymuned a buddsoddiadau gan y gymuned. Ym mhob achos, mae pobl leol wedi gwneud gwahaniaeth go iawn a bydd y genhedlaeth

## ASTUDIAETH ACHOS: Hen Neuadd y Dref Merthyr a 'Memo' Trecelyn

Roedd gan y ddau adeilad hwn, sy'n ganolbwynt i'w cymunedau yn y De, bwrpas gwahanol iawn i'w gilydd yn wreiddiol, ond mae nodweddion cyffredin: roedd y ddau wedi dadfeilio dros y blynyddoedd, ond mae'r ddau yn cael eu hadfer i'w holl ogoniant, a byddant unwaith eto yn lleoliadau eiconig yn eu cymunedau. Mae'r bobl a'r sefydliadau ymroddedig lleol wedi arbed a thrawsnewid yr adeiladau hyn drwy weithio gydag ystod eang o bartneriaid, er mwyn i'r adeiladau gael pwrpas newydd sy'n werthfawr i'r gymuned. Mae'n dangos pa mor bwysig a gwerthfawr yw gwarchod adeiladau hanesyddol er mwyn i'r gymuned gyfan fedru eu defnyddio ac mae'n helpu i ysgogi rhagor o adfywio trefol.

Adeiladwyd **Hen Neuadd y Dref Merthyr** ym 1896, gyda'r nod o gynnal swyddogaethau dinesig y dref a'r llysoedd, ac roedd yn ganolbwynt i fywyd gwleidyddol ym Merthyr Tudful. Pan symudodd y cyngor i ganolfan ddinesig Merthyr yn y 1980au hwyr, defnyddiwyd Neuadd y Dref fel clwb nos tan 2002 ac yna roedd yn wag. Mae prosiect gwerth £8 miliwn i adfer yr adeilad, fel rhan o Strategaeth Adfywio ehangach y dref, wedi trawsnewid yr adeilad rhestredig Gradd II\* yn ganolfan ar gyfer addysg, y celfyddydau, treftadaeth a'r diwydiannau creadigol. Mae'n cynnwys

theatr, stiwdio ddawns, stiwdio recordio a chaffi, oriel a lle aml-bwrpas y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cynadleddau, priodasau ac i ymarfer theatr. Cwblhawyd y prosiect ddiwedd 2013 ac fe'i dadlennwyd i'r cyhoedd yn gynnar yn 2014.

Dan arweiniad Cymdeithas Tai Merthyr Tudful, mae partneriaid y prosiect yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Miller Argent a Cadw.

Mae Rheolwr Datblygu wedi'i benodi i reoli'r prosiect gan gynnwys darparu rhaglen ddysgu a gweithgareddau treftadaeth y prosiect, a fydd yn cynnwys prosiect hanes amlweddog. Disgwylir i fwy na 100 o wirfoddolwyr lleol helpu i gynnal digwyddiadau, gweithgareddau treftadaeth a gweithdai yn y ganolfan. Bydd pobl leol hefyd yn gallu cyfrannu at benderfyniadau am hen Neuadd y Dref ar nifer o wahanol lefelau, gan gynnwys Bwrdd Treftadaeth leuencid sydd ar y gweill. Mae lleoliadau addysgol wedi'u creu i ddarparu cyfleusterau sy'n cyfrannu at Ardal Ddysgu newydd yn yr ardal, ac mae Coleg Merthyr Tudful eisoes wedi ymrwymo i ddarparu rhaglenni cyfryngau a'r celfyddydau perfformio yn y ganolfan.

Mae prosiect Neuadd y Dref yn rhan bwysig o Strategaeth Adfywio'r dref. Mae prosiectau eraill a arweinir gan dreftadaeth a noddir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys Menter Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri a gwelliannau i Gastell Cyfarthfa.

Mae hanes **'Memo' Trecelyn** yn deillio yn ôl i adeg pan ddechreuodd grŵp o lowyr lleol bwyllgor ar gyfer gwella amodau cymdeithasol glowyr ym 1898 a meddiannu adeilad yn y dref. Ym 1920 penderfynodd trigolion Trecelyn adeiladu cofeb i'r rheini a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd cyntaf; roedd yr adeilad yn cynnwys sinema, theatr a neuadd ddawns.

Yn 2004, ar ôl blynyddoedd o ddirywio, ffurfiwyd Ffrindiau Memo Trecelyn i achub ac adfer yr adeilad. Ar ôl i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ddyfarnu grant datblygu yn ystod haf 2009, roedd Cadw a Chyngor Caerffili yn cefnogi'r cynllun a dyfarnodd y Gronfa Loteri Fawr £500,000 fis Rhagfyr 2009. Fis Gorffennaf 2010 dyfarnwyd grant gwerth £2,916,600 i'r prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'r cyllid yn cyfrannu at waith trwsio ac adfer y tu fewn a'r tu allan i'r adeilad y mae pobl mor hoff ohono, sydd wedi bod yn dirywio ers diwedd y diwydiant glo. Bydd mynediad corfforol i'r 'Memo' yn gwella gyda'r adeilad cyswllt newydd.

Mae'r prosiect yn ariannu Swyddog Dysgu ac Allgymorth i oruchwylio rhaglen amrywiol o ddysgu am dreftadaeth a hyfforddi hyd at 25 o bobl leol ychwanegol i helpu i redeg y ganolfan. Ar ben hynny, bydd Neuadd Enwogion Trecelyn yn edrych ar hanes cymdeithasol yr ardal gan dynnu sylw pobl a dathlu'r arwyr lleol. Gobeithir y bydd 200 o aelodau'r gymuned a disgyblion ysgol yn helpu i gasglu'r wybodaeth hon a chreu cofnod parhaol o'r ardal a'i phobl.

Cafwyd dyfarniad ar ôl hynny gwerth £24,900 drwy Raglen Gwreiddiau Ifanc



© Cymdeithas Tai Merthyr Tudful



© Institute a Neuadd Goffa Celynen Collieries



Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ar gyfer grŵp o 12 o bobl ifanc leol i edrych ar hanes yr adeilad, tra'n magu sgiliau arbenigol a chyffredinol. Cafodd y grŵp hyfforddiant ar drin a dehongli arteffactau, yn ogystal â chreu ffilm, technegau cyfweld a golygu. Maen nhw'n cynhyrchu podlediadau, cynnyrch ar gyfer y we a deunydd dysgu rhyngweithiol.

Yn gynharach eleni, caewyd y llyfrgell a symudodd i lawr gwaelod y Memo. Mae'r cyfleuster newydd yn y Memo yn cynnwys llyfrgell gynhwysfawr ar gyfer pobl o bob oed, desg fenthyg hunanwasanaeth, swît dysgu â chyfrifiaduron, 17 o gyfrifiaduron i'r cyhoedd i'w defnyddio am ddim, cyfleusterau argraffu a llungopïo, cysylltiad WiFi â'r rhyngrwyd am ddim a lle i gynnal digwyddiadau ar gyfer gweithgareddau cymunedol. Bydd hefyd yn cynnwys swyddfa arian parod y cyngor.

nesaf yn mwynhau'r manteision iechyd, lles a swyddi. Mae llawer o adeiladau a allai fod yn ymgeiswyr ar gyfer cael buddsoddiad o'r fath fel rhan o strategaeth adfywio ehangach. Y cwestiwn yw pa rai sydd mewn perygl fwyaf? Pa rai sydd bwysicaf? Ym mhle maen nhw'n ffitio o ran strategaethau lleol, cenedlaethol, cymdeithasol a diwylliannol, ac at ba ddiben cânt eu defnyddio fwyaf? Un dasg a allai Cadw ei gwneud yn y dyfodol yw asesu adeiladau sydd mewn perygl a'u defnydd posibl o fewn strategaeth adfywio genedlaethol.

## 6.5 Arweinyddiaeth a Blaenoriaethau Lleol

O ran adfywio a gofalu am yr amgylchedd hanesyddol fel cartref i weithgarwch a phrofiadau diwylliannol, mae llawer yn nwylo'r awdurdodau lleol. Mae rhai Awdurdodau Lleol fel Caerffili, wedi ei wneud yn glir eu bod yn gweld adfywio yn rhannol fel y defnydd creadigol o adeiladau ac asedau treftadaeth i fod yn sail i'r gymuned leol ac i ddarparu'r asedau gorau posibl ar gyfer y dyfodol. Mae Capel Hanbury ym Margoed dal i fod yn enghraifft arbennig, er yn brin, o sut gellir cyflawni'r gorau, gyda menter gymdeithasol yn cydfodoli â gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth, lle neilltuedig ar gyfer addoli, a llawer mwy.

Beth sy'n ei gwneud yn bosibl i un awdurdod lleol greu lle sy'n egluro'r dyfodol mewn modd uchelgeisiol a phoblogaidd, tra na fydd eraill yn gwneud hynny? Rhan o'r ateb yw'r dull arwain, datblygu arbenigedd a chyfle ac ymrwymiad i strategaeth adfywio. Ond nid oes gan bob awdurdod lleol yr adnoddau neu'r gallu i ymgymryd â thasg o'r fath. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid bod achos i rannu adnoddau ar draws ffiniau, i fanteisio ar asedau sy'n bodoli eisoes ac asedau'r dyfodol.

A dylai arweinyddiaeth leol arwain balchder mewn lle, drwy alluogi ac ategu strategaethau a nodir yn y bennod hon a blaenoriaethu gwasanaethau treftadaeth a diwylliannol sy'n gallu cyfrannu cymaint. Dylid gwneud hyn, nid allan o falchder diwylliannol, ond synnwyr cyffredin – am fod asedau treftadaeth y gymuned yn dal dyfodol economaidd a chymdeithasol y gymuned ynghyd. Bydd effaith adfywio Neuadd y Dref Merthyr, a 'Memo' Trecelyn yn dystiolaeth ynddi ei hun o wariant gwerth chweil.

Mae'r modd y byddwn yn trin ein hadeiladau hanesyddol yn rhoi neges glir i'r gymuned bod hanes a dyfodol y gymuned yr un mor bwysig inni am eu bod wedi cydblethu mor dynn. Mae'r capel ym Mhenygraig sydd wedi'i addasu ar gyfer Plant y Cymoedd yn enghraifft wych o hyn. Mae'n dweud wrthym fod gan y gymunedau balch hyn adeiladau ardderchog o'r gorffennol all ddod yn rhan o'r dyfodol hefyd.

## Un Drafodaeth: Gwneud i Bethau Ddigwydd

Mae'r bennod olaf hon yn edrych ar beth arall y mae angen ei wneud i roi'r newidiadau hyn ar waith, fel bod pethau yn newid mewn gwirionedd ar lawr gwlad, a sut gellir rhannu'r cyfrifoldeb.

Rwyf wedi ceisio amlinellu cyfres glir a chydlynol o argymhellion a fydd yn rhoi:

- mwy o wybodaeth ddefnyddiol i bobl sy'n gweithio'n lleol fel y gallant wneud yn fwy o adnoddau diwylliant a threftadaeth;
- mwy o gyfleoedd i rannu amcanion polisi ac adnoddau rhwng cyrff diwylliannol, economaidd a chymdeithasol cenedlaethol a lleol er mwyn gwella arferion;
- mwy o gyfleoedd i ddatganoli gwybodaeth ac adnoddau i'r gymuned ei hun;
- mwy o gyfleoedd i ledaenu a rhannu arferion gorau a chynyddu'r manteision dysgu;
- mwy o gyfleoedd i ysgolion fanteisio ar yr adnoddau aruthrol gyfoethog ac amrywiol ym maes diwylliant a threftadaeth y tu allan i'r cwricwlwm ac o fewn pob rhan ohono; a
- mwy o gyfleoedd i'r gymuned gael profiadau o ddiwylliant a threftadaeth, a thrwy hynny i bobl wella sgiliau, dod o hyd i waith, a gwella natur y gymuned.

Dylai hyn greu adnoddau newydd ym mhob cymuned. Yn y pen draw, mater i bobl y gymuned a'r sector diwylliannol fydd gofalu bod hyn yn digwydd. Ond yn gyntaf, mae angen gwneud ambell beth i sicrhau bod modd cynnal y 'draffodaeth' y mae angen iddi ddigwydd yn lleol ac yn genedlaethol, ac er mwyn creu'r ewyllys gyffredinol i ymroi i'r dasg o sicrhau newid – a phob asiantaeth yn gwybod beth mae'n rhaid iddi ei wneud. Mae'n rhaid dod o hyd i gydbwysedd clir, felly, rhwng yr hyn sydd ei angen ar y lefel uchaf a'r hyn y gellir ei wneud yn lleol. Ac mae angen rhywfaint o seilwaith newydd er mwyn gwneud hynny.

### 7.1 Cau'r Bylchau

Nid wyf am ddiystyru'r heriau hyn. Maent yn uchelgeisiol. Mae wedi dod yn amlwg, yn ystod yr ymchwiliad hwn, bod yr anhawster i greu partneriaethau cynaliadwy ar lefel leol a fyddai'n ei gwneud yn haws i bobl ddod i gysylltiad â diwylliant, yn symptom o ddiffyg cysylltiad mwy. Nod llawer o brif argymhellion yr adroddiad hwn, felly, yw mynd i'r afael â'r bylchau amlwg:

- rhwng polisi diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd ar lefel genedlaethol a lleol;
- rhwng cyrff diwylliannol eu hunain, yr wybodaeth sydd ganddynt a'r gwaith a wnânt; a
- rhwng ysgolion a chyrff diwylliannol a chymunedol ar lawr gwlad.

O ganlyniad i'r bylchau hyn, nid yw gwybodaeth, adnoddau ac arferion yn cael eu rhannu ddigon nac yn ddigon cyson, a cholli cyfleoedd i fanteisio ar allu'r sector diwylliannol i ehangu cwmpas polisiâu eraill i wella cyfleoedd dysgu a chyfleoedd bywyd plant ac oedolion. O bob ochr, galwyd am raglenni, strategaethau a phartneriaethau hirdymor mwy cydlynol a chynaliadwy, ac am yr ewyllys a'r modd i'w cynnal. Wrth ymateb i'r adolygiad hwn, pwysleisiodd Canolfan Mileniwm Cymru, er enghraifft mai *'partneriaeth yw'r allwedd i effeithiolrwydd, yn enwedig ym meysydd amddifadedd cymdeithasol, cyn belled â'i fod yn rhywbeth hirdymor'*; adleisiodd llawer y pwynt hwn.

Cyn y gall partneriaeth fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i'r prif ffigyrau wybod beth yw eu cyfrifoldebau arwain a'u hysgwyddo. Mae gan Lywodraeth Cymru,

awdurdodau lleol, cyrff diwylliannol, y cyrff cyllido, ysgolion, cyrff cymunedol, a'r trydydd sector i gyd rôl unigryw i ddefnyddio argymhellion yr adroddiad hwn i lunio strategaeth leol gydlynol.

Fel rydym wedi'i nodi drwy gydol yr adroddiad hwn, i'r cyrff diwylliannol eu hunain mae'n golygu rhoi arweiniad o ran creu deunyddiau ac adnoddau ar y cyd, gan nodi heriau a chyfleoedd hyfforddi; datblygu rhaglenni lleol a dod o hyd i ffyrdd o wneud i asedau diwylliannol posibl y gymuned ei hun weithio'n galetach yn lleol.

---

*'partneriaeth yw'r allwedd i effeithiolrwydd, yn enwedig ym meysydd amddifadedd cymdeithasol, cyn belled â'i fod yn rhywbeth hirdymor'.  
~ Canolfan Mileniwm Cymru*

---

Mae'n golygu cysylltu ag ysgolion a phobl ifanc mewn ffyrdd newydd – gan adeiladu ar adroddiad yr Athro Dai Smith – a llunio rhaglenni mwy penodol i bobl ifanc ar adegau allweddol yn eu datblygiad, y tu allan i oriau ysgol; a chydweithio ag athrawon ar Cynefin a rhaglenni diwylliannol i ofalu bod yr ysgol yn ymwybodol iawn o'i threftadaeth leol a diwylliannol a'u bod yn cael sylw yn ei chwricwlwm.

Ac mae'n golygu deialog newydd gyda gweithwyr proffesiynol ym maes polisi cymdeithasol ac asiantaethau fel Twf Swyddi Cymru i gefnogi'r gwaith a wnant.

Mae arweinyddiaeth llywodraeth leol a phartneriaeth â hi – gan weithio ar draws ffiniau lle bo hynny'n briodol – yn hollbwysig er mwyn gwneud y mwyaf o'r cysylltiadau rhwng polisiâu diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, a gwneud y mwyaf o'r adnoddau.

Ond rwyf hefyd wedi dadlau ei bod yn hollbwysig nawr datblygu systemau

newydd ar lawr gwlad a all dynnu ynghyd yr asiantaethau allweddol mewn ffordd newydd i nodi'r blaenoriaethau a sicrhau'r gweithredu. Rwyf wedi awgrymu, felly, rwydweithiau a fydd islaw'r lefel ranbarthol lle y caiff rhwydweithiau Dysgu Creadigol yr Athro Smith eu creu efallai, a fydd yn canolbwyntio ar ysgolion a chyrff diwylliannol. Bydd **rhwydweithiau Cymunedau a Diwylliant** yn cynnwys partneriaid o'r sector diwylliannol a threfnwyr cymunedol, a'u nod fydd gwneud iawn am y diffyg diwylliannol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Yn ddiddorol iawn, mae un model o'r fath eisoes ar y gweill yn Abertawe. Dyma'r mecanwaith naturiol a fyddai nid dim ond yn gofalu bod y newidiadau strategol a gyflwynir gan yr asiantaethau cenedlaethol yn briodol i'w defnyddio'n lleol, ond hefyd yn datblygu rhaglenni lleol a pholisïau sydd o werth penodol i ardaloedd lleol.

Fodd bynnag, mae angen gwirioneddol am arweinyddiaeth weladwy a deinamig er mwyn ysgogi'r newid. Byddai ychydig strategaethau allweddol ar lefel Cymru gyfan yn helpu i ffocysu a hyrwyddo gwaith mwy mewn perthynas â thlodi.

Byddai un llais, ar lefel genedlaethol, yn cynnal un drafodaeth, yn cael ei glywed yn uwch ac yn fwy croch ledled Cymru, a byddai'n dylanwadu'n fwy ar natur a chynnwys polisiâu cenedlaethol – boed i wella iechyd, gwella safonau addysgol, neu hyrwyddo adfywio. Ar hyn o bryd, nid yw diwylliant yn cael ei gynrychioli o amgylch y byrddau iawn – ac eithrio i ymbil am drugaredd neu fel cyflenwr polisi. Dylai'r cyrff diwylliannol fod ar y byrddau cenedlaethol a lleol priodol – boed o fewn Llywodraeth Cymru, neu mewn awdurdodau rhanbarthol neu leol – fel y bo'n briodol, a dylai fod ganddynt hawl i fod yno. Dylent fod yno i helpu i lywio, cynllunio, a hyrwyddo polisi pan fo'r strategaethau gwrth-dlodi yn cael eu cynllunio a'u creu; pan fo awdurdodau

lleol yn ysgrifennu eu Cynlluniau Integredig Sengl; pan fo sgiliau a phrentisiaethau yn cael eu paru â strategaethau cyflogaeth; a phan fo Cynlluniau Tai ac Adfywio a dyfodol canol trefi yn cael eu trafod. Pan fydd polisïau trechu tlodi, diweithdra, ac adfywio diwydiannol a chymdeithasol yn cael eu cynllunio ar lefel Cymru gyfan, dyna pryd mae angen nodi beth yw ein hasedau diwylliannol o bob math a'r hyn y gallan nhw yn unig ei gynnig. Ac mae angen i Lywodraeth Cymru ei hun, drwy ddatganiad diamwys, ei gwneud yn glir mai dyma'n wir yw lle cyrff diwylliannol: canol y drafodaeth genedlaethol, a chanol prosesau cenedlaethol a lleol o lunio polisi, er mwyn sicrhau newid o'r bôn i'r brig.

## ARGYMHELLIAD 28

Llywodraeth Cymru i **nodi'n glir ac i hyrwyddo rôl diwylliant wrth gefnogi ystod eang o amcanion polisi** er mwyn ysgogi cysylltiadau synhwyrol â pholisi ar lefel genedlaethol ac ar lefel yr awdurdod lleol.

Sut beth fyddai trafodaeth? Rwyf am awgrymu y byddai'n clymu pedair elfen gyffredin ac allweddol: trefniadaeth strategol, rhannu dysg, arferion gorau, a chyllid strategol. Ar lefel genedlaethol, byddai'n harneisio profiad y prif asiantaethau i hyrwyddo newid, y cyllidwyr annibynnol i ysgogi ceisiadau ar sail partneriaeth, yr arweinwyr dysgu i gydgrynhoi a lledaenu arferion da a rhannu gwybodaeth ac, ar lefel leol, Partneriaethau Diwylliannol Cymunedol i gysylltu cyrff diwylliannol, ysgolion a threfnwyr cymunedol ar lawr gwlad i nodi'r amcanion cyffredin.

## 7.2 Lefel Genedlaethol: Cydweithredu er mwyn Arloesi

Ar hyn o bryd, mae yna Grŵp Diwylliant sy'n atebol i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar bynciau strategol

trawsbynciol. Er fy mod yn cydnabod pwysigrwydd corff sy'n tynnu ynghyd gyngor a gwybodaeth o bob asiantaeth ddiwylliannol, mae'r hyn rwy'n ei gynnig yn wahanol iawn ac yn canolbwyntio ar y dasg dan sylw: rhoi mwy o ffocws a phenderfyniad i atal a lliniaru tlodi.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fan penodol i adrannau a chyrff diwylliannol cenedlaethol allweddol Cymru gronni syniadau; alinio'u blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol; casglu neu ddarlledu gwybodaeth am effeithiau, ac am lwyddiant a methiant o ran lliniaru tlodi. Fodd bynnag, mae'n dda gwybod bod camau eraill eisoes yn cael eu cymryd. Mae Fforwm Tlodi Diwylliannol Plant wedi'i sefydlu, sef partneriaeth o gyrff amrywiol o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac sy'n ceisio bod yn llwyfan cenedlaethol i wella gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol i blant a phobl ifanc a darparu mwy o gyfleoedd i fynd iddynt.

Fodd bynnag, nid oes gennym gyfrwng all ysgogi newid o ran cyfle cyfartal ym maes diwylliant, neu i ysgogi newid a fyddai'n ehangu mynediad a dod â mwy o fanteision i ardaloedd difreintiedig, ac mae hyn yn hanfodol. Rwy'n rhyw deimlo y dylai corff fel hyn weithio ochr yn ochr â'r Grŵp Diwylliant, ond ar wahân iddo, a bod yn uniongyrchol atebol i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, er mwyn cadw'r ffocws angenrheidiol hwn.

Yn yr ymgynghoriad, pwysleisiodd Cyngor Gwynedd yr angen am '*gynllun gweithredu cenedlaethol sydd â digon o adnoddau ar gyfer y celfyddydau a threftadaeth i frwydro yn erbyn tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol er mwyn pennu cyfeiriad strategol*'. Ond ar hyn o bryd, nid oes gennym gyfres o egwyddorion i gyfeirio atynt neu i fod yn blatfform. Nid oes gennym ffordd benodol o gyfnewid gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio, ble a pham. Nid oes cymhellion i dynnu pobl at ei gilydd neu i'w hannog i wneud hynny,

heb sôn am eu galluogi. Mae llawer o'r dystiolaeth sydd wedi dod i law yn nodi bod y diffyg hwn yn mynd i gyfyngu ar ddatblygiadau ac effaith yn y dyfodol, ac yn dangos bod gwir ddymuniad ac angen am blatfform o'r fath. Dadleuodd Llenyddiaeth Cymru, er enghraifft, dros *'adnodd sy'n darparu ac yn hwyluso cysylltiadau er mwyn ei gwneud yn bosibl ffurfio partneriaethau uniongyrchol rhwng sefydliadau a chydgyssylltu darpariaeth i'w gwneud yn haws i bobl sy'n byw mewn tloedi gael profiadau diwylliannol'*.

Gall y prif gyrff galluogi, cyllido a gweithredu cenedlaethol, Cadw, Cyngor Celfyddydau Cymru, CyMAL, y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru, ddechrau trafodaeth eu hunain drwy ffurfio cynghrair. Yr amcan fyddai siarad â'i gilydd er mwyn dysgu, ond hefyd cymell a hyrwyddo partneriaeth newydd ledled Cymru ar sail strategol. Gyda'i gilydd, byddai'r cyrff hyn yn gallu creu 'map gwybodaeth' cyffredin a nodi arferion gorau a deilliannau mewn perthynas â strategaethau dysgu, digideiddio casgliadau, a gwirfoddolwyr. Byddai'r grŵp hwn yn sicrhau bod mwy o gyfathrebu'n digwydd ac yn ceisio osgoi dyblygu gwaith. Byddai'n nodi arian y gellid ei fenthyg er mwyn buddsoddi i gefnogi rhaglenni a phartneriaethau lleol. Ei bwrpas fyddai gofalu bod adnoddau prin yn cael eu rhannu'n ddeallus ac yn deg, bod arferion gorau yn cael eu cofnodi ac y gwneir y mwyaf ohonynt. Wrth i'r rhaglen waith ddatblygu, efallai y byddai'n briodol ehangu'r bwrdd.

Ond rwy'n ymwybodol hefyd bod ffurfio partneriaeth heb gymhelliant neu bwrpas cadarn hefyd yn gallu methu'n llwyr, yn enwedig os nad oes adnoddau, cynllun gwaith clir a chymhellion. Rwyf am awgrymu, felly, bod **Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol a Chymdeithasol** yn cael ei ffurfio – a fydd i bob pwrpas yn gweithredu fel bwrdd prosiect, gan gwrdd bob chwarter o leiaf, â'r dasg yn

y lle cyntaf o sicrhau bod argymhellion yr adroddiad hwn, sydd i gyrff diwylliannol eu gweithredu'n bennaf oll, yn cael eu gweithredu. Byddai'n golygu cytuno i gynllunio ar gyfer cyd-raglenni gwaith – yn enwedig mewn perthynas â rhaglen ymchwil, datblygu a gwerthuso (ee ymchwil i effaith, adnoddau, cymorth i ysgolion a gwirfoddolwyr, a DPP/hyfforddiant), yn ogystal ag ystyried sut gellid cynllunio prosiectau arloesol a'u rhoi ar waith yn y rhannau hynny o Gymru sydd mewn angen mawr. Byddai hyn, gobeithio, yn creu arfer o gydweithio a fyddai'n gwneud defnydd mwy o ymrwymiad, profiad ac adnoddau.

## ARGYMHELLIAD 29

Llywodraeth Cymru i sefydlu **Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol a Chymdeithasol** strategol, o adrannau strategol cenedlaethol a chyrff diwylliannol, i gysylltu polisiâu diwylliannol â pholisiâu'r Llywodraeth a sbarduno'r broses o weithredu'r adroddiad hwn.

Drwy weithio gyda'i gilydd, byddai'r Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol a Chymdeithasol yn rhoi llais mwy pwerus i ddiwylliant ar y llwyfan polisi cenedlaethol; byddai'n ceisio sicrhau rôl ar adeg cynllunio polisi – ee addysg, iechyd neu adfywio; dros amser, byddai'n gallu cynllunio mewn ffordd gydlynol ar sail blaenoriaethau y cytunir arnynt. Ac yn unol â'r dystiolaeth sylweddol i'r angen i fynd â diwylliant i feysydd newydd – er enghraifft, iechyd – lle gallai gweithgareddau gael effaith fwy, byddai hyn yn gam at gyflawni hynny. Ond byddai hefyd yn cydweithio'n agos â'r Partneriaethau Diwylliannol a Chymunedol lleol, gan fanteisio ar eu harbenigedd a'u profiad er mwyn gofalu bod yr hyn a ddatblygir yn strategol yn ymarferol ar lawr gwlad.

Byddai'n rhaid i'r Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol a Chymdeithasol gael cymorth Llywodraeth Cymru, gyda chyfraniad bach at gostau ysgrifenyddiaeth fach ac arbenigedd polisi.

Ond mae angen cymhellion eraill ymarferol er mwyn hybu cydweithredu. Roedd llawer o'r cyrff a'r unigolion y siaradais â nhw o blaid gwneud partneriaeth yn bwysicach byth mewn cynlluniau cyllid, ac awgrymodd un y dylid gwneud gwaith partneriaeth a chydweithredu yn brif feini prawf ar gyfer rhaglenni cyllid. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr yn benodol wedi dylanwadu'n fawr ar yr hyn y gellir ei wneud yng Nghymru, ochr yn ochr â Chyngor Celfyddydau Cymru, a byddwn yn gobeithio y gallai'r cyrff cyllido allweddol hyn ymateb i'r angen dan sylw drwy ddod o hyd i ffyrdd newydd o hyrwyddo arloesi a chydweithredu drwy fuddsoddi sylweddol a strategol y gellir ei ddynodi'n benodol ar gyfer partneriaid. Gallai'r rhaglenni tymor hirach hyn ar gyfer partneriaid hefyd helpu i sefydlu rhai safonau a chanlyniadau cyffredin mewn perthynas â rhai o heriau mwy strwythurol Cymru.

Gellid buddsoddi'n gydweithredol mewn lle gan gymryd cam yn ôl ac edrych ar anghenion y gymuned gyfan – neu gellid buddsoddi mewn rhaglenni datblygu ar lefel Cymru gyfan. Rwyf o'r farn y gallai hyn arwain at newid enfawr mewn arferion buddsoddi a'i effaith.

Er mwyn cryfhau a chyflymu'r broses hon, rwyf am argymhell bod y prif gyrff cyllido eu hunain (Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr ac, o bosibl, gyrff dyngarol a'r sector preifat) yn ystyried creu **rhwydwaith gwybodaeth**, gan ddilyn model Rhwydwaith Dysgu Creadigol Lloegr efallai. Mae llawer o'r asiantaethau hyn yn awyddus i wella eu gwybodaeth strategol a bod yn fwy effeithiol, ond ar hyn o bryd yn methu â rhoi eu bys ar lle mae'r bylchau, beth yw'r anghenion neu'r rhagolygon ledled Cymru o ran diwylliant – neu maent yn ei chael yn anodd gwybod ble gellir cael arian cyfatebol ar sail strategol. Byddai hyn yn helpu i sefydlu cysylltiadau â blaenoriaethau a ariennir gan

y Llywodraeth, fel Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn iddynt allu rhannu gwybodaeth. Un o'r prif ganlyniadau fyddai ei gwneud yn haws nodi sut gallai cyllid cymunedol yn y dyfodol hwyluso'r ffordd i gynnig gweithgareddau diwylliannol fel rhan o'u busnes craidd, a sut gallai cyllid annibynnol ehangu'r hyn sydd ar gael drwy, er enghraifft, raglenni Cyngor Celfyddydau Cymru neu Cadw.

---

### ARGYMHELLIAD 30

Cyrff cyllido i sefydlu **rhwydwaith wybodaeth** i nodi cydflaenoriaethau strategol a hwyluso'r arfer o **gyllido rhaglenni mewn ffordd fwy strategol** i annog cydweithio.

Mae angen cysylltiad mwy hefyd rhwng y timau dysgu ac ymgysylltu o fewn y cyrff diwylliannol cenedlaethol. Mae'n rhwystredig bod cymaint o waith ardderchog yn cael ei wneud, bod cymaint o wybodaeth a phrofiad gennym drwy ein cynulleidfaoedd, bod cymaint o syniadau da yn cael eu datblygu, a bod pytiau o ymchwil i effaith yn cael eu casglu. Fel man cychwyn, rhaid i'r arweinwyr dysg hyn ddod at ei gilydd drwy eu **rhwydwaith dysgu** eu hunain i rannu, cyflymu a lledaenu'n ehangach arferion da, gan adeiladu ar Fforwm Tlodi Diwylliannol Plant.

---

### ARGYMHELLIAD 31

Sefydliadau diwylliannol sefydlu **rhwydwaith ddysgu** i hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth ac arfer da yn gysylltiedig â mynediad a chyfranogi.

Mae hyn yn rhan o argymhelliad ehangach sy'n deillio o resymeg y cwestiwn sydd wrth wraidd yr adroddiad hwn: sut mae ymgysylltu â diwylliant yn gwneud gwahaniaeth? I bwy mae'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf – a sut gallwn ni helpu i wneud mwy byth o wahaniaeth?

Pwysleisiodd llawer o'r bobl yr ymgynghorwyd â nhw mai ychydig iawn o wybodaeth seiliedig ar ymchwil oedd ar gael, er gwaethaf llawer o waith monitro a rhannu data a thystiolaeth ynghylch profiadau diwylliannol a'u heffaith. Mae angen ystyried beth yw'r gwahaniaeth rhwng y rheini a ddewisodd ymweld ag amgueddfa neu gymryd rhan mewn perfformiad lleol, a'r rheini na wnaeth, a'r effaith ar y sawl a wnaeth, ar eu cyfleoedd bywyd ac ar eu cymunedau. Mae yna gorff ymchwil eisoes yn bod sy'n astudio agweddau at ddiwylliant, ac effaith profiadau diwylliannol, ond yng Nghymru nid yw'r dystiolaeth yn cael ei chasglu'n systemataidd na'i gwerthuso, ac nid oes dealltwriaeth dda o amrywiaeth yr effeithiau ar yr unigolyn, ar y gymdeithas ac yn economaidd mewn cymuned, nac o effeithiolrwydd gwahanol strategaethau. Dros amser, pe bai'r ymchwil hwn ar gael, byddai'n galluogi'r llunwyr polisi, y cyrff diwylliannol a'r rhaglenni lleol i ddeall yn well beth i'w gynnig, sut i'w werthuso, a sut i'w gynnal a gwneud y mwyaf ohono.

Nid wyf yn awgrymu rhaglen ymchwil sy'n para deg mlynedd, ac yn sicr nid oes angen ailddarganfod yr hyn a wyddom eisoes. Yn rhannol, rydym am gasglu'r wybodaeth sydd gennym eisoes, rhoi trefn arni a'i lledaenu, a phrofi hynny yng nghyd-destun ardaloedd difreintiedig Cymru, yn enwedig yr amrywiol effeithiau posibl. Byddai'r rhaglen yn gyfle amlwg am bartneriaeth rhwng arbenigedd ymchwil addysg uwch – sy'n arbennig o berthnasol nawr mewn perthynas â'r pwyslais ar effaith ymchwil, – a chyrff diwylliannol Cymru.

Byddai cydweithredu felly ar ymchwil yn gam pellach at ddod o hyd i'r ateb i gwestiwn yr adolygiad hwn. O ddeall yn fanylach ac â mwy o grebwyll y materion sy'n gysylltiedig â phrofiadau diwylliannol a'u heffaith ar unigolion a chymunedau, byddem yn gallu buddsoddi mewn ffordd gallach, fwy penodol, a gwerthuso'n

fwy effeithiol. Byddai hyn yn aruthrol ddefnyddiol i lunwyr polisi ac asiantaethau diwylliannol fel ei gilydd, o ran pwyslais polisi, deall effeithiau rhaglenni, a gwneud penderfyniadau cyllido.

## ARGYMHELLIAD 32

Sefydliadau diwylliannol, drwy weithio gyda'r sector Addysg Uwch a phartneriaid eraill, **i gydgrynhoi a rhannu ymchwil a gwybodaeth bresennol**, a nodi bylchau ar gyfer ymchwil pellach yn gysylltiedig â demograffeg, mynediad, cyfranogi ac effaith cyfranogi.


Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag un arall a fydd hefyd yn helpu i hwyluso mynediad a'r broses o gasglu gwybodaeth. Mae'n hollbwysig bod ein cyrff cenedlaethol, a Llywodraeth Cymru, yn gallu gwerthuso'n fwy effeithiol nag a wnânt lwyddiant ymgysylltu'n agosach â chymunedau. Dim ond rhan o'r stori y mae'r rhan fwyaf o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir ar hyn o bryd yn ei hadrodd. Efallai y cofnodant ymweliadau corfforol a digidol, ac mewn rhai achosion efallai y byddant yn nodi nifer y rheini sy'n cymryd rhan mewn prosiectau pontio. Ond efallai nad yw'n cael ei wneud mewn ffordd gyson, gan ddefnyddio terminoleg gyson y cytunwyd arni, yn enwedig ar gyfer termau fel 'pontio', neu efallai nad ydynt yn darparu data cynhwysfawr ar gefndiroedd cymdeithasol-economaidd y rheini sy'n dod i gysylltiad â diwylliant a threftadaeth mewn cymunedau, a beth yw'r effeithiau arnynt. Rwyf am argymhell, felly, bod camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff diwylliannol yn cael eu gwneud yn fwy manwl a chyson, er mwyn gallu cadw trac ar lwyddiant y rhaglenni hyn. Bydd yn galw am gydweithio a bydd angen i Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r cyrff diwylliannol arwain y ffordd.

Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau diwylliannol i ddatblygu **Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyson ar gyfer y sector celfyddydau, diwylliant a threftadaeth** sy'n cymell yr ymdrechion i wella lles drwy gydweithio â phobl ar brosiectau diwylliannol yn y gymuned.

O roi'r fframwaith hwn ar waith, gellid lleihau llawer o'r gwastraff o ran ymdrech, talent ac adnoddau y mae'r dystiolaeth yn ei adlewyrchu, a gellid rhyddhau gwir egni'r sefydliadau diwylliannol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Rwyf wedi ceisio crynhoi gwahanol elfennau'r drafodaeth ar ffurf diagram, sydd hefyd yn cynnwys rhwydweithiau Dysgu Creadigol yr Athro Dai Smith:

## Lefel





# Casgliad

---

Cafodd yr adroddiad hwn ei gomisiynu gan Weinidogion sydd wedi'u hargyhoeddi bod gan ddiwylliant yng Nghymru fwy o ran i'w chwarae wrth ddarparu cyfiawnder cymdeithasol. Y gred honno sydd wedi gyrru'r argymhellion, ac a fydd, rwy'n gobeithio, yn gyrru'n newid sydd ei hangen ar lefel genedlaethol, lleol ac ar lefel asiantaeth i gynnig mwy i'r teuluoedd a'r cymunedau hynny y mae eithrio economaidd yn golygu eithrio diwylliannol hefyd. Ni ddylai neb golli eu hawl i brofi y pleser a'r diddordeb a ddaw yn sgîl mwynhau darllen, cerddoriaeth, celf, a'r theatr. Ni ddylent ychwaith deimlo nad yw hanes a threftadaeth Cymru, sydd yn ein sefydliadau diwylliannol, 'ar eu cyfer hwy' neu nad oes neb yn gwybod am orffennol, na dyfodol y lle y maent wedi byw ynddo a magu eu plant.

---

Felly hefyd, mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig â chydweithio i sicrhau y gall y newidiadau a fyddai'n rhoi ffyrdd newydd ar gyfer mynediad, rhai ohonynt yn fwy cyfoethog, a phrofiadau mwy cynaliadwy ar lawr gwlad, a chysylltiadau agosach rhwng pob partner sy'n gysylltiedig â helpu plant i ddysgu, a phobl i waith, gael eu creu a'u cynnal. Mae llawer o'r adroddiad hwn yn adeiladu yr hyn sydd eisoes wedi ei bennu fel glasbrint ar gyfer y celfyddydau ac addysg yn adroddiad yr Athro Smith, ac yn adeiladu ar yr arfer rhagorol sydd eisoes mor amlwg. Ond mae hefyd yn creu mwy o gyfleoedd, rwy'n gobeithio, i bobl ddod o hyd i leoedd a chymelliannau newydd i gydweithio gyda chyfres glir o amcanion cydfuddiannol, a blaenoriaethau wedi'u halinio.

Mae nifer o argymhellion gwahanol yn yr adroddiad, ond fod pob un ohonynt yn casglu o amgylch ychydig o themâu allweddol:

- Mae cyfleoedd newydd i yrru newid, drwy gydweithredu, ar draws gwybodaeth ac adnoddau o lefel genedlaethol i lefel lleol iawn
- Cyfleoedd newydd i ddod â pholisïau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol at ei gilydd mewn ffyrdd ymarferol, o lunio polisïau, i ddarparu ymarferol ar lefel genedlaethol a lleol
- Ffyrdd newydd o leihau rhwystrau a mynediad i sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, ac i greu fframweithiau

newydd ar gyfer ymgysylltu a chyflenwi yn lleol.

- Offer newydd, cyfleoedd hyfforddi a chymelliannau i roi cymorth cydfuddiannol a ffyrdd gwell o gyrraedd plant, pobl ifanc ac oedolion

Mae llawer o'r hyn sy'n cael ei gynnig yn ddim mwy na gwneud i fwy o gyfalaf ac adnoddau dynol Cymru i weithio'n galetach fel bod cyfoeth y wlad ar gael i fynd allan i gymunedau yn fwy llwyddiannus; fel bod pobl yn cysylltu â'i gilydd ac yn rhannu eu harbenigedd a'u sgiliau, ac yn datblygu systemau cymorth a gwybodaeth i gyrraedd yn ddyfnach i'w 'hetholaethau'; a bod y gwaith da sy'n cael ei wneud ar draws polisïau fel codi cyrhaeddiad neu lythrennedd yn cael eu cyfoethogi gan brofiad diwylliannol a'i gynnwys trwy gynllunio mewn ysgolion ac ar draws cymunedau.

Nid yw'r newidiadau hyn yn hawdd i'w gwneud, ond maent yn angenrheidiol.

Nid yw'n bosib gweithredu'r newidiadau hyn ar unwaith; ac nid yw'n bosib gwneud pob un ohonynt ym mhob man. Mae rhai yn bendant yn fwy hirdymor o ran yr amserlen.

**Dylai nifer ohonynt gael eu hangori yn y cymunedau hynny ble y byddai'r angen a'r effaith fwyaf a ble y mae angen ar frys am gydlyniaeth.** Mae dadl, felly, o blaid bod yn bragmatig, ac am ddatblygiad fesul cam, y gellir dysgu gwersi ohonynt cyn rhoi cynllun ar waith – fel y bo'n briodol, er enghraifft mewn

perthynas ag ysgolion Cynefin neu'r cynigion o ran angor diwylliannol.

Rwyf wedi cael y fraint fawr o siarad yn uniongyrchol â nifer o'r bobl mwyaf creadigol yng Nghymru – gan gynnwys y bobl ifanc eu hunain – ac rwyf wedi ceisio gwrandao yn ofalus i'r hyn y maent wedi'i ddweud wrthyf, a thrwyddynt hwy, i'r bobl y maent yno i'w gwasanaethu. Mae'r rhan fwyaf o'r hyn yr wyf i'n ei argymhell yn adlewyrchu ac yn pwysleisio dyheadau'r lleisiau hyn yn ogystal â'r diagnosis sy'n cael ei gynnig.

Rwy'n gobeithio, felly, yn yr un ysbryd ag y comisiynwyd yr adolygiad; bod yr awydd yno i gyflawni – ac wrth wneud hynny i greu capasiti newydd yn ogystal â synnwyr o gynhwysiant diwylliannol, a chymuned ddiwylliannol. Rwy'n gobeithio, o leiaf, mewn cyfnodau anodd, ei fod yn dadlau yr achos, yn glir a chryno, y dylai llyfrgelloedd cymunedol, amgueddfeydd, theatrau a grwpiau celfyddydol fod y lle cyntaf i fuddsoddi ynddynt yn hytrach na'r lle olaf – gan bod yr hyn y maent yn ei wneud yn hanfodol, ac yn fwy pwerus na dim.

Y prawf o ran a fydd y newidiadau yn newid bywydau fydd profiadau plant, pobl ifanc ac oedolion sydd bellach yn byw yn ein cymunedau tlotaf.

Mae fy nyheadau i ar gyfer plant, pobl ifanc a theluoedd, rwy'n gobeithio, yn amlwg drwy gydol yr adroddiad hwn, ond yn benodol hoffwn weld:

**I blant** – y bydd y dyfodol yn golygu y bydd y tu mewn i'n hamgueddfeydd, ein horielau a'n llyfrgelloedd yn dod yn fannau ble y byddant yn blaguro mewn ffordd fydd yn cyfoethogi eu plaser mewn dysgu, a bywyd; y byddant yn dod o hyd i gyfleoedd newydd i ddysgu yr hyn y gallant ei wneud ac y gallant fod fel arlunwyr, ysgrifennwyr, cerddorion, archaeolegwyr, haneswyr a cheidwaid ein treftadaeth leol.

**I bobl ifanc** – Hoffwn weld llawer mwy o gyfleoedd ymestynnol a heriol sy'n decach

ac yn fwy cynaliadwy – wedi'u cynllunio a'u darparu gyda'r bobl ifanc, ac yn darparu'r sgiliau a'r cyfleoedd i wirfoddoli y gellir eu hachredu a'u datblygu drwy brentisiaethau a strwythurau gyrfaol gwirioneddol – nid yn y 'diwydiannau creadigol' yn unig ond ar draws nifer o feysydd gyrfaol.

**I oedolion allan o waith**, rwy'n gobeithio y bydd mwy o gyfleoedd bwriadol ac ymwybodol i roi'r ysbrydoliaeth a'r hyder y gall ymwneud â'r celfyddydau a threftadaeth ei roi yn ystod unrhyw gyfnod mewn bywyd – a gwneud y gorau o unrhyw sgiliau sydd eisoes yn bodoli ond yn aml yn guddiedig. Gall y sgiliau hyn, unwaith y cânt eu rhyddhau, helpu i ail-adeiladu cymunedau cyfan, drwy adfywio adeiladwaith y cymunedau yn fwy na dim a'r defnydd ysbrydoledig o adeiladau a lleoliadau hanesyddol hoff.

Ar gyfer **sefydliadau diwylliannol**, rwy'n gobeithio y bydd yr adolygiad yn eu hargyhoeddi o'r newydd ynghylch pŵer eithriadol a phwrpas cyhoeddus clir yr hyn y gall y celfyddydau, diwylliant, a threftadaeth, gyda'i gilydd, ei gyflawni – a'r cysylltiadau iawn i wneud y gorau o'r profiad a'r ymrwymiad ar y cyd i fywyd diwylliannol y gymuned.

Ac i'r rhai hynny sydd â dyletswydd i ofalu am gymunedau – **gwleidyddion a llunwyr polisiau** ar bob lefel, rwy'n gobeithio bod yr adolygiad hwn yn achos heb ei ail, nid yn unig ynghylch gallu diwylliant i roi grym i bobl, ond i fodloni uchelgais gymhleth Cymru fel gwlad sy'n ddoeth, yn llwyddiannus, ac yn gyfiawn yn gymdeithasol – ac y byddant yn rhoi'r argymhellion hyn ar waith gydag egni ac argyhoeddiad.

Hyd yn oed os yw rhai o'n cymunedau yn dlawd ar hyn o bryd, mae yng Nghymru ysbryd cyfoethog, a'r ffordd orau o gynnal hwnnw yw drwy fuddsoddi yn y creadigrwydd sy'n rhan o bob un ohonom, a'r diwylliant sydd yn berchen i bob un ohonom.

## Llyfryddiaeth a Darllen Pellach

Ni fwriedir i hyn fod yn arolwg cynhwysfawr o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â chynnwys yr adroddiad hwn. Pan gyfeirir at lenyddiaeth yn y testun, mae'r ffynonellau yn cael eu cynnwys fel troednodiadau ac o fewn y llyfryddiaeth isod. Mae'r llyfryddiaeth hefyd yn cynnwys rhywfaint o lenyddiaeth na chyfeirir ati yn uniongyrchol yn nhestun yr adroddiad.

- Cyngor Celfyddydau Cymru, 2014. Arolwg Omnibws Oedolion 2013 – Cyhoeddi Data Cychwynnol. Gweler [http://www.artscouncilofwales.org/c\\_ymchwill/initial-data-adult-omnibus-survey-2013?diablo.lang=cym](http://www.artscouncilofwales.org/c_ymchwill/initial-data-adult-omnibus-survey-2013?diablo.lang=cym)
- Cyngor Celfyddydau Cymru, 2010. Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru 2010. Gweler <http://www.celfcymru.org.uk/what-we-do/research/latest-research/ly-celfyddydau-yng-nghymru-2010?diablo.lang=cym>
- Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014. Gweler <http://wales.gov.uk/docs/dps/publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf>
- Cultural Learning Alliance, 2011. The Case for Cultural Learning: key research findings. Gweler <http://www.culturallearningalliance.org.uk/page.aspx?p=93>
- Edwards, J., 2011 The MAGPIE programme: a summary of the practice and impacts of a partnership between museums and schools in Manchester 2004–2010. Gweler <http://museumdevelopmentnorthwest.files.wordpress.com/2012/06/magpie-report-final-jun.pdf>
- GHK Consulting Ltd, 2013. Gwerthusiad terfynol o Cyrraedd y Nod. Gweler <http://wales.gov.uk/docs/wefo/publications/131101reachtheheightsfinalevalen.pdf>
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Mawrth 2010. Economic Impact of HLF Projects 2010. Gweler [http://www.hlf.org.uk/aboutus/howwework/Documents/EconomicImpactofHLFprojects2010\\_%20mainreport\\_FINAL.pdf](http://www.hlf.org.uk/aboutus/howwework/Documents/EconomicImpactofHLFprojects2010_%20mainreport_FINAL.pdf)
- Jermyn, H., 2011 Arts and Social Exclusion: a report prepared for the Arts Council of England. Gweler <http://www.artscouncil.org.uk>
- RSA / Arts Council England, 2013. Towards Plan A: A new political economy for arts and culture. Gweler <http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/RSA-Arts-Towards-Plan-A.pdf>
- Sabates, R., 2008. The impact of Lifelong Learning on Poverty Reduction: IFLL Public Value Paper 1, by Gweler <http://www.niace.org.uk/lifelonglearninginquiry/docs/Public-value-paper-1.pdf>
- Smith, Yr Athro Dai, 2013. Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru. Gweler <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-cy.pdf>
- Social Mobility and Child Poverty Commission, 2013. State of the Nation 2013: Social Mobility and Child Poverty. Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/state-of-the-nation-2013>
- Thompson, D., 2012. Pop-up People. Gweler <http://www.artistsandmakers.com/images/PopUpPeopleReport.pdf>
- Croeso Cymru, 2013. Arolwg Ymwelwyr i Gymru 2013. Gweler <http://wales.gov.uk/topics/tourism/research/1/tourisminwales/visitorsurvey/?skip=1&lang=cy>
- Ecotec Research and Consulting Ltd, 2010. Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Gweler [http://cadw.wales.gov.uk/docs/cadw/publications/ValuingWelshHistoricEnvironment\\_CY.pdf](http://cadw.wales.gov.uk/docs/cadw/publications/ValuingWelshHistoricEnvironment_CY.pdf)
- Llywodraeth Cymru, 2011. Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011. Gweler <http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/museums/spotlight-on-museums-2011/?skip=1&lang=cy>
- Llywodraeth Cymru, 2013. Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Gweler <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=en>
- Llywodraeth Cymru, 2011. Rhaglen ddatblygu llyfrgelloedd dysgu cymunedol 2010–11 – Adroddiad terfynol y Cyngorhwr. Gweler <http://wales.gov.uk/docs/drah/research/110630cflfinalreporten.doc>

## Atodiad 2

# Rhestr o'r Ymgylgoreion

Derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan y cyrff canlynol:

SEFYDLIAD	
Amgueddfa Cymru	Glandŵr Cymru
Archifdy Morgannwg	Head 4 Arts
Asiantaeth Ffilm Cymru	ITV Cymru Wales
Canolfan Mileniwm Cymru	Llenyddiaeth Cymru
Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cartrefi RCT Homes	Llywodraeth Cymru – Addysg a Sgiliau
CaST Cymru	Llywodraeth Cymru – Cadw
Clymu Celf	Llywodraeth Cymru – CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)	Llywodraeth Cymru – Cymunedau a Threchu Tlodi
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Llywodraeth Cymru – Diwylliant a Chwaraeon
Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr (Cymru)	Llywodraeth Cymru – Tai ac Adfywio
Cymdeithas yr Amgueddfeydd	National Theatre Wales
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Opera Cenedlaethol Cymru
Cyngor Caerdydd	Plant y Cymoedd
Cyngor Celfyddydau Cymru	The Reading Agency
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Theatr Genedlaethol Cymru
Cyngor Gwynedd	Theatr Spectacle
Cyngor Llyfrau Cymru	Y Gronfa Loteri Fawr
Cyngor Sir Benfro	Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog
Cyngor Sir Ddinbych	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Cyngor Sir Fynwy	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Dinas a Sir Abertawe	Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru	

Mae Kay Andrews ac/neu swyddogion wedi cwrdd â'r unigolion a'r sefydliadau canlynol mewn cyfarfodydd strwythuredig, sgysiau, ymweliadau a gweithdai

UNIGOLION	TEITL	SEFYDLIAD
Jo Trott	Pennaeth Adolygu Asesu a Chwricwlwm	Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
John Pugsley	Pennaeth Cangen Llwybrau Dysgu 14-19	Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
Kevin Griffiths	Pennaeth Rhifedd	Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
Liz Powell	Uwch Reolwr Cefnogi'r Cwricwlwm	Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

UNIGOLION	TEITL	SEFYDLIAD
Theresa Holdsworth	Dirprwy Gyfarwyddwr, Pobl Ifanc, Ymgysylltu a Chyflogaeth	Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
Phil Treseder	Swyddog Mynediad Cymunedol	Amgueddfa Abertawe
Dafydd Roberts	Ceidwad, Amgueddfa Lechi Cymru	Amgueddfa Cymru
David Anderson	Cyfarwyddwr Cyffredinol	Amgueddfa Cymru
Janice Lane	Cyfarwyddwr Dysgu, Arddangosfeydd a Chyfyngau Newydd	Amgueddfa Cymru
Mandy Westacott	Swyddog Dysgu Anffurfiol, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe	Amgueddfa Cymru
Nia Williams	Pennaeth Dysgu, Cyfranogiad a Dehongli	Amgueddfa Cymru
Rosalyn Gee	Pennaeth Dysgu, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe	Amgueddfa Cymru
Steph Mastoris	Pennaeth, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe	Amgueddfa Cymru
Sue James	Swyddog Dysgu Ffurfiol, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe	Amgueddfa Cymru
Charlotte Hodgson	Prif Archifydd	Archifydy Morgannwg
Susan Edwards	Archifydd	Archifydy Morgannwg
Emma Flatley	Pennaeth Addysg, Arddangos ac Adfywio	Asiantaeth Ffilm Cymru
Pauline Burt	Prif Weithredwr	Asiantaeth Ffilm Cymru
Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr	BBC Cymru Wales
Rhys Evans	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	BBC Cymru Wales
Howard Stone	Cadeirydd	Bwrdd Ymddiriedolwyr Neuadd Goffa Newbridge
Caroline Pudney	Archaeolegydd Cymunedol	Cadw, Llywodraeth Cymru
Gwilym Hughes	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Amgylchedd Hanesyddol	Cadw, Llywodraeth Cymru
John Edwards	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Eiddo mewn Gofal	Cadw, Llywodraeth Cymru
Jonathan Berry	Uwch Arolygydd Henebion ac Archaeoleg	Cadw, Llywodraeth Cymru
Judith Alfrey	Pennaeth Adfywio a Chadwraeth	Cadw, Llywodraeth Cymru
Marilyn Lewis	Cyfarwyddwr	Cadw, Llywodraeth Cymru
Susan Mason	Pennaeth Dysgu Gydol Oes	Cadw, Llywodraeth Cymru
Jo Furber	Swyddog Llenyddiaeth	Canolfan Dylan Thomas
Sarah Roberts	Rheolwr Dysgu Creadigol	Canolfan Mileniwm Cymru
Andrew Lycett	Prif Weithredwr	Cartefi RCT Homes
Pam Boyd	Prif Weithredwr	CaST Cymru
Sioned Bowen	Cadeirydd	CaST Cymru
Angharad Williams	Pennaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Dr Peter Wakelin	Ysgrifennydd	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Adam Hitchings	Swyddog Datblygu	Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru
Dr Manon Williams	Cadeirydd	Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru
Jennifer Stewart	Pennaeth	Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru

UNIGOLION	TEITL	SEFYDLIAD
Huw Evans	Pennaeth Datblygu Llyfrgelloedd	CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru
Lesley-Anne Kerr	Pennaeth Datblygu Amgueddfeydd	CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru
Linda Tomos	Cyfarwyddwr	CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru
Mary Ellis	Pennaeth Datblygu Archifau	CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru
Ann Jones	Cadeirydd	Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr (Cymru)
Eleanor Marks	Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau	Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru	Rheolwr Clwstwr	Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Dwyrain Caerdydd
Elizabeth Jenkins	Rheolwr Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf	Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru	Rheolwr Clwstwr	Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin Caerdydd
Kate Cassidy	Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi	Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru	Rheolwr Clwstwr	Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn
Martin Swain	Dirprwy Gyfarwyddwr, Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru	Cyfarwyddwr	Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn
Siân Thomas	Rheolwr Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf	Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru	Rheolwr Academi Alwedigaethol Gymunedol	Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn
Jason Williams	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr De Abertawe
Joanne Thomas	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Dwyrain Abertawe
Adam Rees	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Dwyrain Caerdydd
Gerald Powell	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Gogledd Merthyr Tudful
Shaz Abedean	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Gogledd-ddwyrain Abertawe
Andrew Chapman	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Gogledd-orllewin Abertawe
Debbie Jones	Swyddog Datblygu	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Gogledd-orllewin Abertawe
Alice Greenlees	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Gorllewin Abertawe
Hazel Cryer	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Gorllewin Caerdydd
Alun Roberts	Cydlynnydd Cymunedau Ffyniannus	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Môn
Colin Lyon	Rheolwr Academi Alwedigaethol Gymunedol	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Môn
Jim Lee	Cadeirydd	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Môn
Martin Gallagher	Rheolwr Mentergarwch	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Môn

UNIGOLION	TEITL	SEFYDLIAD
Rita Lyon	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Môn
Vera Roberts	Cyfarwyddwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr Môn
Gemma Hicks	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr STAR Caerdydd
Colin Davies	Rheolwr Clwstwr	Cymunedau'n Gyntaf, Clwstwr y Barri
Frank Olding	Swyddog Treftadaeth	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cynghorydd Ken James	Aelod o'r Cabinet dros Adfywio, Datblygu Cynaliadwy a Chynllunio	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cynghorydd Rhiannon Passmore	Aelod o'r Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Dave Titley	Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Gareth Evans	Uwch Reolwr Llyfrgelloedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
John Poyner	Rheolwr Cysylltu Cymunedau	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Diane Hebb	Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi	Cyngor Celfyddydau Cymru
Nick Capaldi	Prif Weithredwr	Cyngor Celfyddydau Cymru
Yr Athro Dai Smith	Cadeirydd	Cyngor Celfyddydau Cymru
Siân Tomos	Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio	Cyngor Celfyddydau Cymru
Russell Todd	Swyddog Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Win Griffiths	Cadeirydd	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cynghorydd John Wynn Jones		Cyngor Gwynedd
Dylan Griffiths	Rheolwr Strategaeth a Datblygu, Adran yr Economi a Chymuned	Cyngor Gwynedd
Angharad Tomos	Rheolwr Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	Cyngor Llyfrau Cymru
Elwyn Jones	Prif Weithredwr	Cyngor Llyfrau Cymru
Lucy Thomas	Swyddog Grantiau	Cyngor Llyfrau Cymru
Alun Ffred Jones AC	Aelod o'r Cynulliad dros Arfon	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caroline Carter	Cydlynnydd Adfywio Cymunedol	Dinas a Sir Abertawe
Huw Mowbray	Rheolwr Datblygu Eiddo	Dinas a Sir Abertawe
Karen Bewen-Chappell	Pennaeth Cynorthwyol Llyfrgelloedd	Dinas a Sir Abertawe
Sarah Crawley	Pennaeth Tlodi a'i Atal	Dinas a Sir Abertawe
Steve Hardman	Pennaeth Llyfrgelloedd	Dinas a Sir Abertawe
Bill Fitzgerald	Prif Weithredwr	Grow Enterprise Wales
Phil Henfrey	Pennaeth Newyddion a Rhaglenni	ITV Cymru Wales
Aled Gruffudd Jones	Llyfrgellydd	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Arwel Jones	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Owen Llywelyn	Pennaeth Addysg	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Bethan Hughes	Rheolwr Gwasanaethau Darllen	Llyfrgelloedd Sir Ddinbych
Lucy Williams	Llyfrgellydd Rhanbarthol	Llyfrgelloedd Sir Ddinbych
Huw Lewis AC	Y Gweinidog Addysg a Sgiliau	Llywodraeth Cymru

UNIGOLION	TEITL	SEFYDLIAD
Jeff Cuthbert AC	Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi	Llywodraeth Cymru
John Griffiths AC	Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon	Llywodraeth Cymru
Ruth Evans	Cynhyrchydd ,leuenctid a Chymuned	Opera Cenedlaethol Cymru
Margaret Jervis	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Plant y Cymoedd
Miranda Ballin	Cydlynnydd ArtWorks	Plant y Cymoedd
Elen ap Robert	Cyfarwyddwr Artistig	Pontio Bangor
Graham Morgan	Adfywio Strategol	Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
John Howells	Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio	Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
Laurence Smith	Rheolwr Adfywio, Môn a Menai	Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
Rhidian Jones	Pennaeth Tîm Gweithredu Tai Fforddiadwy	Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
Karen Dugate	Prif Weithredwr	Tai Merthyr
Shayne Hembrow	Dirprwy Brif Weithredwr	Tai Wales & West Homes
Miranda McKearney OBE	Cyfarwyddwr	The Reading Agency
Kevin Lewis	Cyfarwyddwr Artistig	Theatr Iolo
Richard Mann	Cyfarwyddwr Datblygu	United Welsh Homes
Tony Whittaker	Prif Weithredwr	United Welsh Homes
Carolyn Graves-Brown	Curadur	Y Ganolfan Eifftaidd
Syd Howells	Rheolwr Gwirfoddoli	Y Ganolfan Eifftaidd
Wendy Goodridge	Curadur Cynorthwyol	Y Ganolfan Eifftaidd
John Rose	Cyfarwyddwr Cymru	Y Gronfa Loteri Fawr
Robert Roffe	Uwch Reolwr Dysgu a Pholisi	Y Gronfa Loteri Fawr
Ken Murphy	Cyfarwyddwr	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Andrew Davidson	Prif Archaeolegydd	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Andrew Marvell	Prif Weithredwr	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Dr Matthew Griffiths	Cyfarwyddwr	Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru
Justin Albert	Cyfarwyddwr, Cymru	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Kenneth Smith	Cyfathrebu	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Dylan Jones	Prifathro	Ysgol Bro Morgannwg, Bro Morgannwg
Martin Grimes	Prifathro	Ysgol Dyffryn, Castell-nedd Port Talbot
Emma Laing	Prifathrawes	Ysgol Feithrin Tremorfa, Caerdydd
Rhys Angell Jones	Prifathro	Ysgol Gyfun Treorci, Rhondda Cynon Tâf
Janet Hayward	Prifathrawes	Ysgol Gynradd Cadoxton, Bro Morgannwg
Liz Edwards	Prifathrawes	Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre, Wrecsam
Cynghorydd David Hopkins	Cadeirydd y Llywodraethwyr	Ysgol Gynradd Seaview
Dawn Phillips	Prifathrawes	Ysgol Gynradd Seaview
Andy Henderson	Prifathro	Ysgol Hen Felin School, Rhondda